

Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2019 i 2020

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno perfformiad y Cyngor yn erbyn ei flaenoriaethau yn 2019 i 2020, yn cynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus; mae'n amlinellu ein cynlluniau ar gyfer cyflawni'r Cynlluniau Corfforaethol yn 2010 i 2021; yn dangos cynnydd prosiectau'r Cyngor; ac yn amlygu cynnydd y cyngor o ran rheoli ei risgiau.

Cynnwys

Cyflwyniad	5
Cyllid	6
Ymateb i Covid-19	12
Safbwynt crynodol ar gyfer ein Cynllun Corfforaethol 2019 i 2020.	19
Tai: Mae pawb yn cael cymorth i fyw mewn cartrefi sydd yn bodloni eu hanghenion	21
Datblygu Cynaliadwy.....	26
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	27
Beth ydym yn ei wneud yn 2020 i 2021?.....	28
Cymunedau Cysylltiedig: Mae cymunedau wedi eu cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwydau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau trafndiaeth da	30
Datblygu Cynaliadwy.....	38
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	39
Beth ydym yn ei wneud yn 2020 i 2021?.....	39
Cymunedau Cydnerth: Mae'r cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau er mwyn meithrin annibyniaeth a chydnerthedd	41
Datblygu Cynaliadwy.....	48
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	49
Beth ydym yn ei wneud yn 2020 i 2021?.....	51
Yr Amgylchedd: Deniadol a gwarchodedig, cefnogi lles a ffyniant economaidd	53
Datblygu Cynaliadwy.....	60
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	61
Beth ydym yn ei wneud yn 2020 i 2021?.....	63

Pobl Ifanc: Lle ble bydd pobl ifanc eisiau byw a gweithio ynddo ac yn meddu ar y sgiliau i wneud hynny.....	65
Datblygu Cynaliadwy.....	75
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	75
Beth ydym yn ei wneud yn 2020 i 2021?.....	77
Datblygu Cynaliadwy	79
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.....	79
Yr Iaith Gymraeg.....	81
Cofrestr Prosiectau	83
Rheoli Risg	85
Rheoleiddwyr Allanol	86
Casgliadau Data Cenedlaethol	88
Atodiad 1: Cofrestr Prosiect (Awst 2020).....	89
Atodiad 2: Cofrestr Risg Corfforaethol (Medi 2020).....	95

I gael mwy o wybodaeth, neu i roi gwybod i ni beth ydych yn ei feddwl am unrhyw beth yn yr adroddiad yma, cysylltwch â ni:

Drwy E-BOST: strategicplanningteam@denbighshire.gov.uk

Dros y FFÔN: 01824 706291

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome telephone calls in Welsh.

Drwy'r POST:

Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad,

Cyngor Sir Ddinbych

Blwch Postio 62,

Rhuthun

LL15 9AZ

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Ni fydd yna oedi o ran ymateb i ohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg.

I gael y diweddaraf:

Hoffwch ni ar [Facebook](#)

Dilynwch ni ar [Twitter](#)

Ewch i www.denbighshire.gov.uk/corporateplan

Ewch i [Borth Sgwrsio'r Sir](#) a chofrestru gyda *Y Panel!*

Tanysgrifiwch i dderbyn [cylchlythyr Llais y Sir](#), neu flog y [Prif Weithredwr](#)

Cyflwyniad

Daeth 2020 â heriau sylweddol i'r sector cyhoeddus, ac ni lwyddodd Sir Ddinbych i osgoi Covid-19. Mae ein staff, y mae nifer ohonynt wedi ymgymryd â rolau newydd eleni er mwyn cynorthwyo ein hymateb i'r firws, wedi bod yn gweithio yn ddifflino er mwyn cadw cymunedau yn ddiogel. Bu'n ymdrech fawr gan bawb er mwyn helpu i liniaru'r senario achos gwaethaf a sicrhau bod gweithrediadau ein gwasanaethau yn parhau, er bod hynny mewn ffordd wahanol. Rydym yn dechrau'r adroddiad yma drwy ddiolch ein holl staff, partneriaid a darparwyr sydd yn gweithio mor galed er mwyn sicrhau bod trigolion Sir Ddinbych yn cael y gwasanaethau hanfodol y mae eu hangen arnynt.

Bob blwyddyn rydym yn adolygu ein perfformiad er mwyn gwerthuso ein llwyddiant o ran darparu buddion i'n cymunedau, ac nid yw eleni yn ddim gwahanol, er gwaetha'r amharu sydd wedi bod a wasanaethau. Mae 2019 i 2020 yn cynrychioli trydedd flwyddyn ein Cynllun Corfforaethol uchelgeisiol, sydd yn amcanu at adeiladu ar gryfderau a chyfleoedd, ond sydd hefyd yn mynd i'r afael â'r heriau a'r risgiau real iawn y mae ein cymunedau yn eu hwynebu. Ni all y Cynllun gael ei gyflawni dim ond drwy weithio mewn partneriaeth â thrigolion, partneriaid y trydydd sector, cydweithwyr yn y sector dielw a'r sector preifat; ac mae'r adroddiad dyma yn gwerthuso ein cynnydd hyd yma. Mae hefyd yn amcanu at gofnodi'r gwaith da yr ydym wedi ei weld wrth ymateb i'r pandemig.

Er gwaethaf Covid-19, rydym yn falch o ddweud bod y cyngor yn parhau i wneud cynnydd da o ran ei flaenoriaethau, gan weld hyblygrwydd trawiadol yn y ffordd y mae prosiectau a gwasanaethau wedi addasu i newid. Mae'n anochel bod yna lithro wedi bod o ran rhai amserlenni, ond ar y cyfan mae prosiectau yn dal ar darged i gyflawni'r buddion yr ydym eisiau eu creu i'n cymunedau. Yn ystod Gorffennaf, manteisiodd ein Cabinet a'n Uwch Dîm Rheoli ar y cyfle i gynnal ail Adolygiad Cyfran o'r Cynllun, gwiriad iechyd o sefyllfa pethau (gan ystyried effaith Covid-19 yn arbennig), a chyfle i gadarnhau ein hymrwymiad o hyd i'r prosiectau yr ydym wedi dewis eu cynnal.

Rydym yn gwybod bod lledaeniad Covid-19 wedi effeithio'n enfawr ar bob agwedd o les cymdeithasol ac economaidd y Sir. Effeithiwyd yn ddifrifol ar drigolion, busnesau, cymunedau a'r cyngor, a bydd yr ôl-ffeithiau i bawb yn golygu y bydd y byd o'n blaenau yn wahanol i'r un yr oeddem yn ei adnabod. Byddwn yn dysgu o brofiad yr ychydig fisoedd diwethaf er mwyn trawsnewid y ffordd y mae'r cyngor yn gweithio er lles ein trigolion, ac yn cynllunio ar gyfer Sir Ddinbych sydd yn gydradd, mwy gwyrdd, iachach, ac sydd ar y ffordd at adferiad.

Cyllid

Mae'r cyngor yn pennu cyllideb refeniw bob blwyddyn. Mae hon yn gyllideb fydd yn darparu ar gyfer gwasanaethau yn ystod y flwyddyn, y telir amdanynt gan ddefnyddwyr gwasanaeth, Grantiau Llywodraeth Cymru, Y Dreth Gyngor a thalwyr Cyfraddau Busnes. Ar gyfer 2019 i 2020 y gyllideb gwariant gros yma oedd £309.5m.

Fel rhan o'r toriadau parhaus ar wariant cyhoeddus, mae'r arian sydd ar gael i awdurdodau lleol wedi parhau i ostwng mewn termau real a bu'n rhaid i'r cyngor ganfod arbedion er mwyn cydbwysu'r gyllideb. Er mwy cyflawni ei gyllidebau ar gyfer 2019 i 2020, ymgwymerodd y cyngor â phroses drylwyr er mwyn canfod meysydd ar gyfer arbedion a thoriadau. Gofynnwyd i bob gwasanaeth ganfod arbedion effeithlonrwydd. Yn ystod yr hydref bu i gyfres o gyfarfodydd oedd yn cynnwys aelodau Cabinet a Phenaethiaid Gwasanaethau ystyried cynigion cyllideb, cronfeydd wrth gefn gwasanaethau ac arbedion posibl eraill. Bu i'r holl wybodaeth yma hysbysu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sydd yn nodi sut fydd y cyngor yn gwneud yr arbedion yma ac mae'n ystyried newidiadau hysbys a thebygol i setliad cyllideb y cyngor. Cyn derbyn cymeradwyaeth y Cyngor Sir, cytunwyd ar yr arbedion gan y Penaethiaid Gwasanaeth ac Aelodau Cabinet Arweiniol, ac fe'u cyflwynwyd i gyfres o weithdai cyllideb i gynghorwyr.

Ar ôl defnyddio'r Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y gyllideb, roedd angen arbedion o £5.672m ac fe'u canfuwyd yn llwyddiannus er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys fel y crynhoir hynny isod:

- Arbedion corfforaethol a enwyd yn 2018 i 2019 (£0.5m)
- Arbedion ysgol o 2% (£1.32m)
- Mesurau effeithiolrwydd ac arbedion gwasanaeth (£3.852m)

Mae'r tabl isod yn dangos gwariant y cyngor ledled ei wasanaethau:

Gwasanaethau	Cyllideb (£'000)	Alldro (£'000)	Amrywiad (£'000)
Gwasanaethau Cymunedau a Chwsmeriaid	3,611	3,497	(114)
Gwasanaethau Addysg a Phlant	16,061	17,095	1,034

Gwasanaethau	Cyllideb (£'000)	Alldro (£'000)	Amrywiad (£'000)
Gwella a Moderneiddio Busnes	4,589	4,478	(111)
Cyfreithiol, AD a Gwasanaethau Democratiaidd	2,606	2,423	(182)
Gwasanaethau Cyllid ac Eiddo	3,950	3,897	(53)
Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol	16,043	16,038	(5)
Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad	9,312	9,806	495
Gwasanaethau Cymorth yn y Gymuned	35,834	36,490	656
Hamdden Sir Ddinbych Cyf	2,375	2,411	37
Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaethau	94,380	96,136	1,756

Mae'r tabl isod yn dangos gwariant y cyngor ar gyfer ysgolion

Ysgolion:	Cyllideb (£'000)	Alldro (£'000)	Amrywiad (£'000)
Dirprwywyd i Ysgolion	74,351	75,567	1,217
Ni Ddirprwywyd i Ysgolion	(5066)	(5138)	(71)

Ysgolion:	Cyllideb (£'000)	Alldro (£'000)	Amrywiad (£'000)
Cyfanswm Cyllidebau Ysgolion	69,284	70,430	1,145

Mae'r tabl isod yn dangos gwariant y cyngor ledled ei gyllidebau corfforaethol. Noder bod 'Ardollau' yn cyfeirio ar yr ardoll a dalwyd i'r Gwasanaeth Tân; ac Ariannu Cyfalaf yw'r ad-daliad benthyciad blynyddol a chostau llog dyled y cyngor a ysgwyddwyd er mwyn ariannu gwariant cyfalaf.

Cyllidebau Corfforaethol:	Cyllideb (£'000)	Alldro (£'000)	Amrywiad (£'000)
Corfforaethol	16,416	14,015	(2401)
Ariannu Cyfalaf / Llog Buddsoddiad	13,652	13,339	(313)
Ardollau	4,806	4,806	Dim
Cyfanswm Cyllideb Corfforaethol	34,874	32,160	(2714)

Mae'r tabl isod yn dangos ein cyfanswm gwariant ar draws cyllidebau gwasanaethau, ysgolion a chorfforaethol:

Cyllidebau Gwasanaethau, Ysgolion a Chorfforaethol	Cyllideb (£'000)	Alldro (£'000)	Amrywiad (£'000)
Cyfanswm	198,538	198,725	187

Mae'r tabl isod yn dangos yr arian a dderbyniwyd gennym:

Arian	Cyllideb (£'000)	Alldro (£'000)	Amrywiad (£'000)
Arian Llywodraeth Cymru	143,637	143,637	Dim
Y Dreth Gyngor a Balansau	54,901	54,161	741
Cyfanswm Arian	198,538	197,797	741

Mae'r tabl olaf yn dangos ein dyraniad olaf yn erbyn ein sefyllfa net a chyffredinol:

	Amrywiad (£'000)
Sefyllfa Net	928
Balansau Ysgolion a Garwyd Ymlaen	1,217
Tanwariant Gwasanaethau a Garwyd Ymlaen	(289)
Sefyllfa Gyffredinol	1,856

Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y cyngor wedi gwario £0.9m yn fwy nag a gyllidwyd ar ei gyfer ar gyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol. Mae pwysau penodol yn dal yn amlwg mewn cyllidebau gofal cymdeithasol (Oedolion a Phlant), Cludiant Ysgol a gwasanaethau Gwastraff, er gwaetha'r buddsoddiad sydd yn gynwysedig yng nghyllideb 2019 i 2020. Mae'r rhain yn gyllidebau sylfaenol ac fel y maent yn bwysau parhaus, ac mae'r pwysau yma wedi cael eu hadlewyrchu yn y Cynigion Cyllideb ar gyfer 2020 i 2021. Ond, er y Gyllideb 2020 i 2021 a gymeradwywyd yn Ionawr sydd yn mynd i'r afael â nifer o'r pwysau allweddol ac sydd yn buddsoddi mewn gwasanaethau blaenoriaethol craidd megis ysgolion, mae'r pwysau ariannol newydd sydd yn gysylltiedig â Covid-19 yn cynrychioli

newid anferthol i'r cyngor. Ar hyn o bryd gweithir ar strategaethau fydd yn helpu i'r cyngor ymdopi, ond yn y pen draw bydd angen arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Er bod balansau ysgolion wedi gostwng yr ystod y flwyddyn ariannol yma, mae hynny yn bennaf yn gysylltiedig â nifer fechan o ysgolion a byddir yn adolygu'r sefyllfa yn fanwl. Nid yn unig mae Cyllid Addysg yn gweithio yn agos ag ysgolion er mwyn helpu i ddatblygu cynlluniau cydnerth, ond mae prif swyddogion ac uwch swyddogion Addysg a Chyllid yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn adolygu'r cynlluniau hynny a chymryd camau unioni os bydd angen. Rydym yn gweithio yn arbennig o agos gyda nifer fechan o ysgolion sydd yn mynd drwy amgylchiadau anodd.

Bu i'r Cabinet gymeradwyo ceisiadau gwasanaeth i gario ymlaen tanwariant o £0.289m ym Mehefin. Bydd y cronfeydd yn cael eu defnyddio i helpu i liniaru yn erbyn pwysau hysbys a darparu cronfeydd ar gyfer buddsoddi mewn gwasanaethau.

Ariannu'r Cynllun Corfforaethol

Mae rhai prosiectau sydd yn cefnogi blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol, tra bod eraill yn cael eu hariannu gan refeniw, a gall rhai gael eu darparu am ddim cost ychwanegol. Rydym yn credu bod angen i ni fuddsoddi tua £135m ychwanegol yn ein blaenoriaethau corfforaethol yn ystod oes y Cynllun, os ydym am gyflawni popeth y byddem yn ei ddymuno. Er mwyn talu am y buddsoddiad cyfalaf a nodwyd, bydd angen i ni ymrwymo cyllideb ac arian refeniw ar gyfer y blaenoriaethau. Yn ystod 2017 i 2018 clustnodwyd £0.5m o'n cyllideb refeniw ar gyfer 2018 i 2019, a £1m o arian parod er mwyn cefnogi blaenoriaethau corfforaethol. Sicrhawyd cyfraniad refeniw arall o £0.5m drwy broses gyllideb 2019 i 2020. Bydd angen mwy o ddyraniadau cyllideb blynyddol ond cydnabyddir y bydd yn anodd sicrhau hynny wrth i gyfanswm cyllid y cyngor leihau.

Er bod £135m yn swm mawr, ni fyddai'n rhaid i'r cyngor ddarparu'r holl arian yma ei hun, ac mewn gwirionedd byddai'n cyfrannu tua £71m o'r £135m. Er enghraifft, rydym yn cynllunio i ddefnyddio incwm o rent tai er mwyn helpu i ariannu'r tai cyngor newydd; ac rydym yn disgwyl y bydd griau gan Lywodraeth Cymru ar gael er mwy helpu i ariannu gwaith a gynlluniwyd ar ein hamddiffynfeydd llifogydd, ac er mwyn gwella ysgolion.

Gwariant Cyfalaf

Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm gwariant cyfalaf ar draws meysydd gwasanaeth y cyngor:

Gwariant	£'000
Cyfreithiol, AD a Gwasanaethau Democrataidd	14
Gwasanaethau Cyllid ac Eiddo	3,888
Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol	7,187
Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad	2,787
Gwasanaethau Cymorth yn y Gymuned	301
Gwasanaethau Cymunedau a Chwsmeriaid	11
Gwella a Moderneiddio Busnes	1,899
Gwasanaethau Addysg a Phlant	12,408
Cyfrif Refeniw Tai	8,500
Cyfanswm	36,995

Ymateb i Covid-19

Mae natur barhaus pandemig Covid-19 yn parhau i roi pwysau ar allu'r cyngor i ddarparu ei wasanaethau. Heb os gallwn ddisgwyl rhagor o bwysau ar y gyllideb (yn cynnwys colli incwm); lleihad yn y nifer o staff; ac oedi gydag amserlenni ar gyfer prosiectau rydym eisiau eu cyflawni. Mae Covid-19 hefyd yn herio cyfanswm adnoddau ein partneriaid a'r darparwyr yr ydym yn gweithio gyda nhw. Mae'r ffactorau hyn, ar y cyd â'r cyfyngiadau sy'n hanfodol i ddelio gyda'r feirws yn y lle cyntaf yn golygu bod yn rhaid i ni barhau i fod yn hyblyg gyda'r ffordd y mae ein gwasanaethau yn cael eu darparu. Gall hyn o bosib golygu newidiadau i'r hyn y mae preswylwyr yn ei ddisgwyl gennym.

Yn ystod y pandemig mae'r cyngor wedi cyflwyno amrediad o fentrau newydd er mwyn cefnogi ein cymunedau:

- Sefydlodd y cyngor 17 o ysgolion 'hyb' ar gyfer plant gweithwyr allweddol. Roedd gennym 625 o blant wedi eu cofrestru ar gyfer cae mynediad i'r ddarpariaeth, ac ar gyfartaledd roedd 220 i 250 o ddisgyblion yn mynychu bob wythnos. Pan agorodd pob ysgol er mwyn cynnig y ddarpariaeth, gwelsom 5,252 o ddisgyblion (wythnos yn dechrau 6 Gorffennaf) a 4,696 o ddisgyblion (wythnos yn dechrau 13 Gorffennaf) yn mynychu o leiaf un sesiwn yn ystod yr wythnosau perthnasol. Ein cyfrif tymor olaf ar gyfer disgyblion oedd 8,755 o ddisgyblion cynradd (yn cynnwys Meithrin) a 5,924 o ddisgyblion uwchradd (7 i 11 oed yn unig).
- Derbyniodd 1,724 o deuluoedd daliad cinio am ddim, gan gefnogi 3,089 o blant. Talwyd dros £1.1m rhwng Mawrth ac Awst.
- Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r fyddin, a gyda chymorth rhoddion cymunedol a gwirfoddolwyr, bu i ni sefydlu mecanweithiau newydd ar gyfer storio a dosbarthu cyflenwadau Offer Diogelwch Personol (PPE) i sefydliadau gofal ledled y Sir, yn cynnwys cartrefi a darparwyr gofal preifat. Hefyd sefydlodd y cyngor fecanweithiau newydd er mwyn sicrhau bod darpariaeth a chefnogaeth ddigonol ar gael i gadw ysgolion a staff cyngor yn ddiogel wrth i wasanaethau gael eu cynnal neu wrth eu paratoi i ailagor.

- Cysylltodd y cyngor, gyda chymorth gan Hamdden Sir Ddinbych Cyf, yn rhagweithiol gyda dros 9,250 o bobl a thrigolion gwarchoddedig dros 70 oed oedd wedi bod yn ynysu. Pwrpas y galwadau oedd cynnig cyngor a chymorth a sicrhau y gallai trigolion gael mynediad at y cyflenwadau a'r gwasanaethau oedd ei angen arnynt tra'u bod yn dal adref. Mae'r gwaith hwnnw wedi cynnwys atgyfeiriadau at grwpiau cymunedol, elusennau lleol a gwasanaethau cyngor ar gyfer help wedi'i deilwra, yn cynnwys siopa am nwyddau, casglu meddyginiaethau, cyfeillio dros y ffôn ac asesiadau o anghenion gofal sylfaenol. Gan weithio gyda'n partneriaid allanol, yn cynnwys Gwasanaeth Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (DVSC) a'r Groes Goch Brydeinig, rydym wedi atgyfeirio dros 250 o bobl i gael bocsys bwyd Llywodraeth Cymru, a dros 300 o bobl i DVSC er mwyn canfod help gyda siopa a chasglu meddyginiaethau.
- Cysylltu â busnesau, darparu cyngor a chyfeirio at help sydd ar gael yng Nghymru, yn ogystal â phrosesu a thalu grantiau i fusnesau bach. Hyd yma mae 2,584 o fusnesau wedi gwneud cais am Ryddhad Cyfraddau Busnes Llywodraeth Cymru a weinyddir gan Gyngor Sir Ddinbych. Mae 2,287 wedi derbyn grantiau o £10k, ac mae 297 wedi derbyn grantiau o £25k, a'r cyfanswm yn dros £30.2m.
- Sefydlu 'biwro adleoli' a symudodd dros 200 o staff newydd i rolau newydd yn cynnwys gofal cymdeithasol rhwng flaen, galwadau cymunedol ac ymateb cefnogol, gyrrwyr, ac olrhain cyswllt a phrofi.
- Bu i gyfathrebiadau rhagweithiol drwy ein gwefan, cyfryngau cymdeithasol a datganiadau i'r wasg arwain at ryddhau 170 o ddatganiadau i'r wasg rhwng Mawrth ac Awst, gyda dros 7.4 miliwn o argraffiadau cyfryngau cymdeithasol. Ymgysylltodd 383,918 o bobl â'r rhain, gyda 52,424 o gliciau dolenni post. Dwy o'r fideos mwyaf llwyddiannus ar y cyfryngau cymdeithasol oedd fideo'r GIG yn diolch i staff GIG am eu hymdrechion, a wylwyd 546,000 o weithiau (ein neges sydd wedi perfformio orau erioed ar y cyfryngau cymdeithasol), a fideo o denantiaid yn Gorwel Newydd, Y Rhyl, yn canu ar ddiwrnod VE a welwyd 146,000 o weithiau. Hefyd bu i ni greu tua 30 o dudalennau gwe newydd ar ein gwefan oherwydd Covid-19 er mwyn hysbysu y cyhoedd a sicrhau eu bod yn gallu cael gwell mynediad at ein gwasanaethau yn ystod y cyfnod clo.

- Mae hyblygrwydd Deddf Coronafeirws wedi galluogi i'r Cyngor gynnal gofal digonol ar gyfer ei ddinasyddion agored i niwed tra'n creu 'capasiti ymchwydd' er mwyn sicrhau rhyddhau effeithiol ac amserol 7 diwrnod yr wythnos o ysbytai. Hefyd defnyddiwyd hyblygrwydd i leihau biwrocratiaeth, lliflinio prosesau a hwyluso camau gweithredu cyflym ac effeithiol.
- Mae tîm o staff yn y cyngor yn helpu'r ymdrechion cenedlaethol i daclo Covid-19 drwy weithio fel swyddogion olrhain cysylltiadau, fel rhan o raglen Profi, Olrhain a Gwarchod Cymru (TTP). Mae'r tîm yn cael manylion am unrhyw achosion a gadarnhawyd neu a amheuir yn lleol, ac yna mae ganddynt y rôl o olrhain pobl sydd efallai wedi dod i gysylltiad â'r unigolyn. Mae hynny yn hysbysu'r cysylltiadau hynny, pan fo angen, ac yn eu hysbysu bod angen iddynt hunan ynysu er mwyn helpu i stopio'r firws rhag ymledu. Drwy ddilyn cyfarwyddiadau i hunan ynysu bydd pobl sydd wedi dod i gysylltiad agos yn ddiweddar â rhywun â Covid-19 yn gwarchod eu teuluoedd, ffrindiau, cydweithwyr a phobl eraill o'u cwmpas, a byddant yn chwarae rôl uniongyrchol o ran stopio'r firws rhag lledaenu. Yn ystod Mehefin i Awst, o gyfanswm o 162 o brofion, roedd 89 yn achosion cadarnhaol. Dilynwyd 82 (91%) o'r achosion yma ac arweiniodd hynny at greu 170 o gysylltiadau newydd. Roedd 141 o'r rhain yn gymwys ar gyfer olrhain, a dilynwyd 126 (89%) ohonynt.
- Mae'r defnydd o'n meddalwedd CAG, pan fo defnyddwyr yn cael mynediad at systemau'r cyngor o bell, wedi cynyddu yn ystod y cyfnod yma o tua 200 y dydd i bron i 1,600. Ar hyn o bryd mae bron yr holl gyfarfodydd, yn weithredol a democrataidd, yn 'rhithiol'. Mae gweithio fel hyn yn gyffredinol wedi arwain at nifer o fuddion, yn cynnwys gwell cydbwysedd gwaith a bywyd i lawer; lleihau tagfeydd traffig lleol a llygredd; lleihau milltiroedd cymudo a busnes (fydd yn cyfrannu'n sylweddol at agenda lleihau carbon y cyngor); ac arbedion amser sylweddol.

Gweithgareddau critigol i fusnesau

Yn ychwanegol at yr uchod, rydym hefyd wedi canolbwyntio ar gynnal gweithgareddau critigol i fusnesau. Mewn nifer o achosion mae hynny wedi golygu ein bod wedi gorfod addasu y ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu darparu:

- Gwasanaethau Cymorth yn y Gymuned, yn gweithio gyda'r bwrdd iechyd er mwyn cynorthwyo'r rhai sydd â'r firws, darparu gofal yn y cartref a gofal preswyl.
- Gofal plant, sefydlu gofal plant diogel i weithwyr allweddol a phlant agored i niwed.
- Parhad dysgu, sicrhau bod disgyblion yn parhau i ddysgu a chael mynediad at adnoddau a chymorth addysgol.
- Ailagor ein hysgolion a threfnu trafnidiaeth mewn ffordd sydd yn ddiogel i ddisgyblion, rhieni ac athrawon.
- Digartrefedd, cefnogi'r rhai sydd angen rhoi to uwch eu pennau a thai iddynt mewn modd ddigonol.
- Gwarchodaeth gyhoeddus, cynnal iechyd cyhoeddus, sydd yn cynnwys gorfodi cau safleoedd pan fo angen, a rheoli olrhain cysylltiadau lleol.
- Cynnal priffyrdd, sicrhau bod gwaith atgyweirio hanfodol yn cael ei wneud a bod ymateb brys ar gael.
- Ysbwriel ac ailgylchu, sicrhau bod ein casgliadau gwastraff ac ailgylchu yn cael eu cynnal.
- Gwasanaethau plant, sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu.
- Llyfrgelloedd, ailagor fesul cam.
- Gwasanaethau a chyfathrebiadau cwsmeriaid, sicrhau bod y cyhoedd, ein cynghorwyr a'n staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd.
- Cynnal gwasanaethau cymorth corfforaethol hanfodol, yn cynnwys gweithlu, cyllid a TGCh.

Astudiaethau achos

Atal digartrefedd ar y stryd

Ar ddechrau'r pandemig, roedd Cyngor Sir Ddinbych yn dilyn cyfarwydddeb Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod pawb oedd yn ddigartref yn cael llety ac nad oedd neb yn cysgu ar y strydoedd. Dyna oedd Cam 1, cam rheoli argyfwng cynllun 3 cham Llywodraeth Cymru.

I ddechrau, fe'n hanogwyd i ddefnyddio darpariaeth Gwely a Brechwast lleol er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu ymbellhau yn gymdeithasol ddigonol a hunanynysu petai angen. Darparwyd gwybodaeth i ddinasyddion a bu i ni wneud trefniadau i sicrhau nad oedd raid i bobl rannu cyfleusterau ymolchi a thoiledau a bod ganddynt fynediad ar gyfer nail ai baratoi eu prydau bwyd eu hunain neu ddarpariaeth bwyd ar y safle.

Dechreuodd Cam 2 y cynllun o Fehefin ymlaen. Y disgwyliad gan Lywodraeth Cymru yw nad ydym yn dychwelyd neb i fod yn ddigartref ar y stryd ac i edrych ar sut allem ofalu am bawb sydd gennym mewn llety brys yn ystod y cyfnod clo, a hynny yn barhaol.

Yn hanesyddol, fel arfer rydym yn lletya tua 80 i 90 o aelwydydd ond mae'r galw wedi dyblu yn ystod Covid-19 ac ar hyn o bryd rydym yn lletya dros 180 o aelwydydd. Mae hynny yn cynnwys pobl sengl, cyplau a theuluoedd.

O ganlyniad i hynny, gwahoddodd Llywodraeth Cymru fidiau, yn rhai cyfalaf a refeniw, oedd yn gyfanswm o £20m ledled Cymru. Yn dilyn bid llwyddiannus mae Sir Ddinbych wedi sicrhau arian refeniw er mwyn darparu cymorth ychwanegol i rai o'n haelwydydd mwyaf cymhleth. Mae gweithwyr ymyrraeth gritigol wedi cael eu recriwtio ac wedi dechrau yn eu swyddi yn ddiweddar, tra bod recriwtio yn mynd rhagddo ar gyfer Ymarferwyr Cymorth Digartrefedd. Byddant yn canolbwyntio ar ystyried anghenion cymdeithasol, iechyd a lles fydd yn helpu i sicrhau bod aelwydydd yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt er mwyn eu helpu i gynnal eu llety a'u lles i'r dyfodol. Hefyd, dyfarnwyd arian fel rhan o fd rhanbarthol ar gyfer gweithiwr lles iechyd Meddwl, mewn partneriaeth ar draws 6 awdurdod Gogledd Cymru gyda'r Bwrdd Cynllunio Ardal a CAIS.

Beth ydym yn ei wneud yn 2020 i 2021?

- Ar hyn o bryd rydym yn arolygu ein staff er mwyn gwneud trefniadau iddynt dderbyn y brechlyn fliw tymhorol ym mis Hydref 2020. Eleni, mae'n hyd yn oed pwysicach i staff dderbyn y brechlyn er mwyn lleihau effaith y fflw tymhorol ynghyd ag achosion posibl o Covid-19 ymysg staff.
- Byddwn yn atgoffa cwsmeriaid a busnesau am bwysigrwydd y strategaeth Profi, Orlhain a Diogelu. Mae'r strategaeth yn allweddol o ran rheoli gwasgariadau newydd, yn arbennig wrth i fannau cyhoeddus ddechrau ailagor. Rhoddir sicrwydd i gwsmeriaid ei bid yn ddiogel darparu gwybodaeth cyswllt a bod hynny yn hanfodol er mwyn helpu i ynysu brigiad o achosion.
- Rydym wedi gweld nifer o swyddogaethau'r cyngor yn cael eu cyflawni yn llwyddiannus drwy weithio yn rhithiol yn ystod y pandemig, ac erbyn hyn rydym yn ystyried sut ydym yn gweithredu i'r dyfodol. Ar hyn o bryd rydym yn arolygu ein staff ac yn gofyn iddynt am eu profiadau o weithio yn ystod y pandemig. Mae'r pandemig wedi golygu bod saff sydd yn gallu gweithio gartref wedi gorfod gwneud hynny, er bod pobl ar y cyfan wedi gallu gwneud y rhan helaeth o'u gwaith arferol, mae'r elfennau pleserus - rhwydweithio, gwaith creadigol, cyfeillgarwch cydweithwyr - wedi dioddef. Os ydym am weithredu gweithio mwy ar wasgar i'r dyfodol, mae angen i ni hefyd feddwl am sut mae gwneud y pethau yma yn bosibl hefyd.
- Bu i ni weithio yn llawer agosach gyda'r Trydydd Sector a Grwpiau Cymunedol yn ystod y cyfnod clo. Rydym yn bwriadu parhau i feithrin ac adeiladu ar y perthnasoedd yma yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod ein cymunedau yn gydnherth.
- Byddwn yn parhau â'n gwaith i atal digartrefedd ar y stryd yn dilyn ein bid llwyddiannus, fydd yn ein galluogi i brynu eiddo mawr e.e. cyn lety Gwely a Brechwast er mwyn darparu ein llety brys 'teulu' ein hunain. Yn ychwanegol at hynny dyrannwyd £1.5m i ni er mwyn ystyried tai newydd gan ddefnyddio dulliau newydd o adeiladu. Ond, mae'r her yr ydym yn ei hwynebu yw cwblhau'r prosesau angenrheidiol a gweithio ar wario'r arian erbyn Mawrth 2021. Mae'r broses gynllunio ar gyfer cam 3 yn mynd rhagddo gyda chynlluniau i edrych ar ddatblygu model o

Ailgartrefu Cyflym ar gyfer gwasanaethau digartrefedd. Bydd hynny yn cynnwys hyb brysbennu gyda'n darpariaeth brys ein hunain wedi ei staffio gan dîm amlddisgyblaethol, gan amcanu at asesu cyflym a sicrhau bod aelwydydd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i symud i lety cynaliadwy a pharhaol.

Safbwynt crynodol ar gyfer ein Cynllun Corfforaethol 2019 i 2020.

Mae'r gwerthusiad o'r mesurau ar gyfer pob blaenoriaeth wedi cael ei bennu drwy'r fframwaith rheoli perfformiad yr ydym wedi ei sefydlu. Mae'r gwerthusiad o brosiectau wedi cael ei bennu gan statws ein prosiectau.

Tai: Mae pawb yn cael cymorth i fyw mewn cartrefi sydd yn bodloni eu hanghenion

Mesurau: Da

Prosiectau: Derbyniol

Cymunedau Cysylltiedig: Mae cymunedau wedi eu cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwydau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau trafndiaeth da

Mesurau: Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Prosiectau: Da

Cymunedau Cydnerth Mae'r cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau er mwyn meithrin annibyniaeth a chydnerthedd

Mesurau: Derbyniol

Prosiectau: Da

Yr Amgylchedd: Deniadol a gwarchodedig, cefnogi lles a ffyniant economaidd

Mesurau: Da

Prosiectau: Rhagorol

Pobl Ifanc: Lle ble bydd pobl ifanc eisiau byw a gweithio ynddo ac yn meddu ar y sgiliau i wneud hynny

Mesurau: Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Prosiectau: Da

Nodyn ar Fesur Perfformiad

Yn Sir Ddinbych, ein dull rhagosodedig o bennu trothwyon perfformiad yw cymryd y chwarter uchaf (perfformiad gorau) o wybodaeth y gellir ei chymharu'n genedlaethol fel y pwynt pan ystyrir bod perfformiad yn 'Rhagorol'. Fel arfer y trothwy 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' yw'r canolrif. Y man canol rhwng y ddau werth yma sydd yn pennu'r trothwy rhwng perfformiad 'Derbyniol' a 'Da'.

Os nad oes data ar gael y gallwn gymharu ein hunain gydag ef (naill ai'n genedlaethol neu grwpiau cymharol), byddwn yn ystyried safbwynt lleol ynghylch beth ydym yn teimlo sydd yn pennu 'Rhagorol' a 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella'. Dylai hynny gynrychioli ein huchelgais.

I gael mwy o wybodaeth am sut ydym yn rheoli perfformiad, ewch i'r [Canllawiau Rheoli Perfformiad yn ein gwefan](#).

Tai: Mae pawb yn cael cymorth i fyw mewn cartrefi sydd yn bodloni eu hanghenion

Mesurau: Da

Prosiectau: Derbyniol

Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol Diweddariad am Fesurau

Ar ddiwedd Mawrth 2020 cofrestrwyd 1,152 o bobl ar restr aros SARTH. Mae hynny yn gyson â'r cyfrif o bobl a gofrestrwyd y flwyddyn flaenorol. Cafodd SARTH ei rewi am gyfnod dros dro er mwyn i ni allu canolbwyntio ar gartrefu teuluoedd sydd wedi bod mewn llety brys yn ystod y pandemig.

Cynlluniwyd arolwg llawn o ymgeiswyr cofrestr tai cyfredol ar gyfer dechrau 2020, ond oherwydd Covid-19 gohiriwyd hynny. Erbyn hyn bwriedir anfon yr arolwg ddiwedd Hydref / dechrau Tachwedd 2020.

Erbyn hyn mae Dangosyddion Blynyddol mewn perthynas ag Atal Digartrefedd ac Adferiad wedi cael eu hychwanegu i Fframwaith y Cynllun Corfforaethol. Ar ddiwedd Mawrth 2020, llwyddwyd i atal 57% o aelwydydd rhag digartrefedd (dyletswydd Adran 66). Roedd hynny yn gwmp bychan o 58% y flwyddyn flaenorol oherwydd cynnydd yn nifer yr unigolion oedd yn cyflwyno eu hunain i'r gwasanaeth ar adeg brys ac oedd angen ymyrraeth uniongyrchol a llety brys. Yn ystod 2019 i 20, mae darpariaethau gwasanaeth newydd wedi cael eu sefydlu ac maent yn parhau i gael eu datblygu gyda'r nod o atal pobl rhag cyrraedd pwynt argyfwng.

Llwyddwyd i ryddhau 30% o aelwydydd o ddigartrefedd (dyletswydd Adran 73) yn ystod 2019 i 2020, oedd yn ostyngiad o 38%. Mae hynny yn cynrychioli 168 o ddeilliannau llwyddiannus o gyfanswm o 566 o achosion. Mae canfod llety dros dro / brys wedi bob yn anodd oherwydd argaeledd llety hirdymor addas.

Er mwyn darparu pwyslais cyfartal ar fynd i'r afael â blaenoriaethau tai a digartrefedd, mae'r Strategaeth Tai a'r Strategaeth Digartrefedd wedi cael eu hadolygu ac wedi ei huna i un Strategaeth a Cynllun Gweithredu. Wrth symud ymlaen, bydd y blaenoriaethau a enwid yn y Strategaeth yn cael eu monitro yn bennaf gan yr Aelod Tai a Digartrefedd Arweiniol a'r Grŵp Swyddogion, sydd erbyn hyn yn cyfarfod ddwywaith y mis. Prif rôl y Grŵp Tai a

Digartrefedd Strategol yw galluogi dull mwy strategol mewn perthynas â Thai a Digartrefedd, gan adolygu cynnydd yn barhaus mewn perthynas â'r Strategaeth Tai a'r Cynllun Gweithredu Digartrefedd.

Bu i'r data ar gyfer nifer y cartrefi sector preifat wella o ran safon a bu gostyngiad bychan o ran ansawdd o ganlyniad i ymyrraeth gan y cyngor yn 2019 i 2020 o 819 i 810.

Bwrdd Rhaglen Cynllun Corfforaethol: Diweddariad Prosiect

Tai Gofal Ychwanegol

Mae prosiectau Tai Gofal Ychwanegol Rhuthun a Dinbych wedi wynebu amhariad sylweddol o ganlyniad i Covid-19, ac mae'r gwaith adeiladu wedi cael ei ohirio i raddau helaeth. Bydd dyddiadau cwblhau yn cael eu cadarnhau, ond mae gwaith wedi mynd rhagddo wrth i'r cyfnod clo gael ei lacio, ac o fewn y terfynau a ganiateir gan bellhau cymdeithasol.

Cartrefi Ychwanegol

Yn ystod 2019 i 2020 darparwyd 242 o gartrefi ychwanegol yn Sir Ddinbych. Mae hynny bron yn ddwbl y 124 a ddarparwyd y llynedd. Hefyd mae'r Cyngor wedi ychwanegu 10 o gartrefi i'w stoc ei hun yn ystod 2019 i 20, sydd yn gynydd ar y ffigwr o 4 y llynedd.

O ran rhaglen tai cyngor y cyngor ei hun, rydym yn dal yn hyderus y gellir cyflawni hynny yn llwyddiannus o hyd er gwaethaf y pandemig; ond mae'n anochel y bydd yna oedi o ran amserlenni. Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo mewn nifer o brosiectau yn y Rhyl, Prestatyn, Dyserth a Dinbych, yn cynnwys ein cynllun Passivhaus yn Ninbych; trosiad preswyl posibl yn Llys Anwyl ar Ffordd Churton, Y Rhyl; a'r gwaith ailddatblygu ar safle hen lyfrgell Prestatyn.

Tai Fforddiadwy

Ar hyn o bryd mae darparu 260 o dai fforddiadwy ychwanegol yn dal ar darged a bydd yr hyder o ran cyflawni hynny yn gwella wth i waith fynd rhagddo ar y safle ar nifer o gynlluniau arwyddocaol. Yn ystod 2019 i 2020 cwblhawyd cyfanswm o 139 o dai fforddiadwy yng Nghonwy, sydd yn cynnwys 4 Cartrefi Gwag; 104 o anheddau cartrefi newydd; 3 uned â chymorth i denantiaid y mae anawsterau dysgu yn effeithio arnynt;

eiddo wedi ei addasu ar gyfer teulu penodol mewn angen; 23 o gartrefi ychwanegol a brydlesir ar gyfer pobl yr effeithir arnynt gan ddigartrefedd; a 4 eiddo sydd eisoes yn bodoli.

Dyma'r nifer uchaf o gyflenwad ychwanegol o dai fforddiadwy, yn cynnwys tai cymdeithasol, a ddarparwyd yn ystod blwyddyn ers 2010 i 2011 pan gwblhawyd dau gyfleuster Gofal Ychwanegol. Mae 22 o'r anheddau cartrefi newydd wedi cael eu hariannu gan arian Prosiect Tai Arloesol, sydd yn gronfa ariannu tymor byr sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru er mwyn integreiddio Dulliau Adeiladu Modern (MMC) i ddatblygiadau tai fforddiadwy er mwyn gwella safonau ynni a chynyddu cyfraddau adeiladu. Mae 28 o'r tai cartrefi newydd ar gael drwy'r cynllun Rhentu i Brynu.

Cartrefi Gwag

Mae'r prosiect yma wedi rhagori ar ei arged gwreiddiol, gyda 179 o gartrefi yn cael eu hadfer ar gyfer defnydd yn ystod 2019 i 2020. Yn ystod y flwyddyn, anfonwyd dros 800 o lythyrau i berchnogion a phobl oedd yn gyfrifol am eiddo gwag er mwyn ein helpu i ddeall pam fod eiddo yn wag a sut y gallwn helpu o ran adfer y defnydd ohonynt.

Mesurau Blynyddol neu Bob 6 Mis

Mesur	2018 i 2019	2019 i 2020	Statws
Canran y preswylwyr a adroddodd eu bod yn teimlo'n fodlon gydag argaeledd tai yn eu hardal - Meincnodwyd yn Lleol	42	Ddim yn gymwys Dim Arolwg	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y preswylwyr a adroddodd eu bod yn fodlon gyda safon tai yn eu hardal - Meincnodwyd yn Lleol	52	Ddim yn gymwys Dim Arolwg	Derbyniol
Nifer y bobl oedd ar y Gofrestr Anghenion Tai Arbenigol Anableddau Cymhleth y mae tai â chymorth wedi cael ei sicrhau - Meincnodwyd yn Lleol	10	9	Da
Y cyflenwad ychwanegol o dai cyngor a ddarparwyd - Meincnodwyd yn Lleol	4	10	Ddim yn gymwys

Mesur	2018 i 2019	2019 i 2020	Statws
			Sir yn unig
Nifer y cartrefi ychwanegol a ddarparwyd yn Sir Ddinbych - Meincnodwyd yn Lleol	124	242	Rhagorol
Nifer y cartrefi gwag a adferwyd ar gyfer defnydd (hen ddiffiniad) - Meincnodwyd yn Lleol	181	179	Rhagorol
Nifer y cartrefi sector preifat a wellwyd o ran safon ac ansawdd o ganlyniad i ymyrraeth gan y Cyngor - Meincnodwyd yn Lleol	819	810	Da
Cyflenwad ychwanegol o dai fforddiadwy, yn cynnwys tai cymdeithasol, a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn - Meincnodwyd yn Lleol	23	139	Rhagorol
Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag digartrefedd (dyletswydd Adran 66) - Meincnodwyd yn Lleol	58	57	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w rhyddhau o ddigartrefedd (dyletswydd Adran 73) - Meincnodwyd yn Lleol	38	30	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Ni fydd ein mesur mewn perthynas a Chartrefi Gofal Ychwanegol ychwanegol o gefnogir gan y cyngor yn cael eu cofnodi nes bod y cynlluniau hynny wedi'u cwblhau.

Mesurau Chwarterol neu Bob 6 Mis

Mesur	Chwarter 4 2018 i 2019	Chwarter 1 2019 i 2020	Chwarter 2 2019 i 2020	Chwarter 3 2019 i 2020	Chwarter 4 2019 i 2020	Statws
Nifer y bobl ar restr aros SARTH - Meincnodwyd yn Lleol	1148	1148	1160	1000	1152	Rhagorol

Cynnydd Prosiectau

Mae'r prosiectau canlynol ar darged:

- Tai fforddiadwy ychwanegol

- 500 eiddo gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto

Mae'r prosiectau canlynol yn wynebu rhwystrau:

- Tai Gofal Ychwanegol Dinbych
- Tai Gofal Ychwanegol Rhuthun
- Tai cyngor ychwanegol

Astudiaethau Achos

Eiddo blêr a drawsnewidiwyd yn gartref teulu

Troswyd eiddo oedd wedi bod yn wag am 15 mlynedd yn gartref teulu gyda help a ddarparwyd gan y cyngor o ran cefnogi a chynghori perchnogion newydd yr eiddo. Roedd yr eiddo ar Ffordd Brighton, Y Rhyl, mewn cyflwr gwael ac roedd wedi dod yn fan ar gyfer tipio. Erbyn hyn mae'r eiddo yma oedd yn arfer bod yn flêr wedi cael ei adnewyddu i safon uchel iawn ac mae'r gymuned leol yn elwa o hynny.

Mae'r cyngor eisoes wedi prynu ac adnewyddu eiddo arall ar Ffordd Brighton, sydd wedi cael ei drosi i dri o randai hunangynhaliol ynni-effeithlon.

Gwobrau Tenantiaid Tai 2019

Mae gwella tai yn flaenoriaeth i'r cyngor ac roedd cynnal ein gwobrau cyntaf yn ffordd o anrhydeddu unigolion a chymunedau am eu hymrwymiad. Ym Mai 2019, cynhaliodd Tai Sir Ddinbych ei wobrau Tenantiaid cyntaf erioed. Roedd y gwobrau yma yn dathlu llwyddiannau a chyfranogiad tenantiaid cyngor yn eu cymunedau a phrosiectau sydd yn digwydd ledled Sir Ddinbych. Mynychodd dros 80 o westeion y digwyddiad, yn cynnwys tenantiaid, noddwyr o fusnesau lleol a gweithwyr tai a chyngor allweddol.

Ein enillwyr Gwobrau Tenantiaid Tai Sir Ddinbych cyntaf oedd:

- Stuart Nield-Siddall – Tenant y Flwyddyn, noddwyd gan Liberty Gas

- Cymdeithas Cymuned Marsh - Grŵp Tai/Preswylwyr y Flwyddyn, noddwyd gan AICO
- Shirley Rippingale – Gwasanaeth Cwsmeriaid Tai Sir Ddinbych y Flwyddyn, noddwyd gan Hamdden Sir Ddinbych
- Bethan Owen – Tenant Ifanc y Flwyddyn, noddwyd gan G Parry
- Cymdeithas Preswylwyr Trem Y Foel - Gardd Gymunedol y Flwyddyn, noddwyd gan CAPITA
- Angela Carrington-Roberts – Gardd Tenantiaid y Flwyddyn, noddwyd gan y Tîm Mannau Gwyrdd
- Cyfeillion Pengwern – Prosiect Cymunedol y Flwyddyn, noddwyd gan NOVUS
- Gina Jones – Gwobr Tai Sir Ddinbych ar gyfer cydnabyddiaeth arbennig

Dywedodd Prif Weithredwr Sir Ddinbych, a siaradodd yn y digwyddiad, “Roedd yn anrhydedd cydnabod y gwaith mawr a’r ymrwymiad mae ein tenantiaid a’n gweithlu ein hunain yn ei roi i’w cymunedau. Maent yn llysgenhadon gwych ac maent yn wirioneddol yn dangos sut y gall unigolion a chymunedau gydweithio er mwyn gwella bywydau. Da iawn bawb a enwebwyd, a enwyd ar y rhestr fer a’r rhai aeth ymlaen i ennill.”

Datblygu Cynaliadwy

Wrth i’r cyngor edrych ymlaen at ddatblygu ei gynllun gweithredu ar gyfer lleihau carbon a bod yn ecolegol gadarnhaol, mae’n rhaid i ddatblygu cynaliadwy fod yn rhan ganolog o’r flaenoriaeth bwysig yma. Mae gan y cyngor gyfrifoldeb nid yn unig i hyrwyddo a meithrin datblygu amgylcheddol gadarnhaol, ond mae’n rhaid iddo hefyd wneud hynny drwy ei weithredoedd ei hun hefyd, yn cynnwys adeiladu unrhyw dai cyngor newydd. Dyna pan fod y cyngor yn bwrw ymlaen ag adeiladu datblygiadau Passivhaus.

Rydym yn ymrwymedig i godi safonau effeithlonrwydd ynni ein stoc tai cyfredol. Yn wreiddiol roeddem wedi addunedau y byddai ein holl stoc yn cyrraedd gradd

effeithlonrwydd ynni 'C' erbyn 2022. Ond, wrth i ni ddatblygu ein hymagwedd, rydym yn gwybod na fyddai hynny yn ariannol realistig. Ond rydym yn rhagweld y bydd 70% yn cyrraedd y safon erbyn diwedd y Cynllun Corfforaethol. Mae'r ymrwymiad yma yn ategu ein Blaenoriaeth Amgylcheddol, a bydd hefyd yn atal risg tloedi tanwydd yn achos ein preswylwyr.

Rydym wedi gwneud ymrwymiad ar y cyd i ddiweddu digartrefedd yng Ngogledd Cymru. Mae chwe sir Gogledd Cymru wedi ymuno mewn partneriaeth gyda Sefydliad Siartredig Tai Cymru, gan gydnabod nad yw digartrefedd, a'r materion sydd yn ei achosi, yn berthnasol i ffiniau awdurdodau. Mae hynny wedi bod yn gyfle da i integreiddio ein hamcanion a rhannu adnoddau.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae ein Cynllun Corfforaethol yn amlinellu ein hymrwymiad i gynyddu cyflenwad a hygyrchedd tai i bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig, yn arbennig oedran ac anabled. Fel ymateb rydym yn cydweithredu gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, landlordiaid preifat ac adeiladwyr tai. Drwy reoli amrywiaeth o stoc tai a chreu derbyniad ar gyfer byw amgen, mae Cyngor Sir Ddinbych yn amcanu at hwyluso hawl pawb i gael lle diogel i fyw ynddo.

Mae Sir Ddinbych wedi llwyddo i adsefydlu 19 o deuluoedd o Syria ers Ebrill 2016. Yn anffodus methwyd ein targed o gartrefu 20 o deuluoedd erbyn diwedd Mawrth 2020 o un teulu oherwydd Covid-19. Mae'r Swyddfa Gartref wedi dod â'r cynllun yma i ben ac wedi ei ddisodli gyda Chynllun Adsefydlu newydd ac ehangach ar gyfer y DU o Ebrill 2020 ymlaen. Yn y Cabinet yn Ionawr 2020 cytunwyd i barhau i gefnogi setlo ffoaduriaid yn Sir Ddinbych drwy'r Cynllun Adsefydlu Byd-eang.

Mae galluogi i bobl wella eu hannibyniaeth yn well ac i barhau i fyw yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain yn bwysig i ni, ac rydym yn parhau i gefnogi pobl i gyflawni hynny. Dyfarnwyd cyfanswm o 106 o Grantiau Cyfleusterau Anabl yn ystod 2019 i 2020.

Sicrhawyd Tai Arbenigol Hirdymor i bobl gydag Anabledau Cymhleth i 9 o bobl yn ystod 2019 i 2020. Mae'r ymdrechion yma wedi lleihau'r rhestr aros am dai arbenigol. Ond, bydd rhai achosion cymhleth hirdymor angen ymdrechion mwy sylweddol i'w datrys.

Astudiaeth Achos

Tai yn Gyntaf

Mae Covid-19 wedi ein hatgoffa ni i gyd o bwysigrwydd sylfaenol tai fforddiadwy o ansawdd uchel, a chartref diogel. Ar ddiwedd mis Awst 2020 derbyniodd cynllun Tai yn Gyntaf Conwy a Sir Ddinbych ei achrediad cyntaf gan y Gweinidog dros Dai a Llywodraeth Leol yn ystod digwyddiad ar y we gan Cymorth Cymru. Mae Tai yn Gyntaf yn ffordd effeithiol o gefnogi unigolion sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth i gael tai hirdymor a chynaliadwy. Mae Tai yn Gyntaf yn ddull seiliedig ar adfer sydd yn symud pobl ddigartref i dai annibynnol parhaol cyn gynted â phosibl, yn hytrach na disgwyl iddynt fod yn 'barod am dŷ'. Mae dewis a rheolaeth, yn ogystal â chymorth amlasiantaeth seiliedig ar gryfderau, yn allweddol. Mae hyn wedi ei anelu at bobl sydd wedi bod yn cysgu ar y stryd sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl cydamserol, ac mae tystiolaeth ryngwladol yn awgrymu bod 80% o'r bobl sydd yn rhan o'r cynllun yn cynnal eu tenantiaethau. Rhan ganolog o lwyddiant y model yw cynnal ffyddlondeb at egwyddorion Tai yn Gyntaf, sydd wedi cael eu datblygu yn rhyngwladol ac wedi cael eu haddasu yn benodol ar gyfer y cyd-destun Cymreig.

Beth ydym yn ei wneud yn 2020 i 2021?

Byddwn yn parhau i gyflawni mewn perthynas â'r prosiectau sydd yn cefnogi'r flaenoriaeth yma drwy gydol 2020 i 2021.

Tai Gofal Ychwanegol: Byddwn yn bwrw ymlaen gyda'n Tai Gofal Ychwanegol yn Rhuthun a Dinbych. Disgwylir y bydd Dinbych wedi ei gwblhau yn ystod haf 2021, ac ar yr un pryd, bydd y gwaith o ddymchwel adeiladau ar safle Gofal ychwanegol Rhuthun yn dechrau.

Tai cyngor ychwanegol: Bydd ein cartrefi newydd cyntaf yn Nyserth wedi cael eu cwblhau erbyn haf 2020, ac rydym yn parhau i wneud cynnydd o ran datblygu safleoedd ar draws y Sir. Yn ystod y flwyddyn ariannol yn diweddu Mawrth 2021, byddwn wedi darparu 12 o gartrefi cyngor eraill; bydd gwaith adeiladu wedi dechrau ar ddatblygiadau fydd yn darparu 55 o dai cyngor; ac rydym yn disgwyl y bydd caniatâd cynllunio wedi cael ei roi i ddatblygiadau fydd yn creu 47 o dai cyngor ychwanegol.

Tai Fforddiadwy: Mae'r nifer o dai fforddiadwy yr ydym yn disgwyl amdanynt erbyn hyn yn 50, ac rydym yn hyderus y byddwn wedi cyflawni hynny erbyn 2022, o ganlyniad i nifer dda o safleoedd datblygu actif sydd yn mynd rhagddynt yn y Sir.

Aildefnyddio Tai Gwag: Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth ynghylch tai gwag a rôl y Cyngor o ran cynorthwyo i'w cyflwyno drwy fynychu fforymau landlordiaid, cyfarfodydd Cyngor Dinas, Tref a Chymuned, a phartïon eraill â buddiant. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, landlordiaid preifat a phartneriaid mewnol er mwyn archwilio ffyrdd o aildefnyddio cartrefi gwag.

Cymunedau Cysylltiedig: Mae cymunedau wedi eu cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwydau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau trafndiaeth da

Mesurau: Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Prosiectau: Da

Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol Diweddariad am Fesurau

Mae'r cyhoeddiad WIMD diweddaraf yn cadarnhau bod 14% o LSOA Sir Ddinbych yn dal yn 10% uchaf mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Mynediad i Wasanaethau. Mae hynny yn cyfateb i wyth LSOA o 58 yn Sir Ddinbych.

Yn ystod Ebrill i Fehefin 2020 rydym wedi gweld gwelliant bychan yn ein mesurau ynghylch band eang cyflym iawn, gyda gwasanaeth dros 30mbps yn cynyddu o 91.3% ar ddiwedd y flwyddyn i 92% ym mis Gorffennaf. I'r gwrthwyneb bu gostyngiad yn achos yr aelwydydd hynny sydd yn derbyn llai na 10mbps, o 6.54% ar ddiwedd y flwyddyn i 4.63% ym mis Gorffennaf. Ond mae'r ddau yn dal yn feysydd i'w gwella i ni.

Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd drwy adroddiad Cenhedloedd Cysylltiedig a Seilwaith Ofcom yn dangos bod gan 45% o holl ffyrdd A a B yn Sir Ddinbych signal 4G, gan y 4 gweithredwr rhwydwaith. Ein huchelgais erbyn hyn oedd cael argaeledd o 60% o leiaf. O'i gymharu, mae ffigwr Cymru gyfan hefyd yn 45%, ond mae hynny yn sylweddol is na Lloegr sydd â ffigwr o 62%.

Disgwyliwyd data ar y defnydd o'r rhyngwrwyd gan oedolion yn Sir Ddinbych a Chonwy ym Mai 2020. Am y tro yr unig ddata sydd ar gael yw'r data a gyhoeddwyd ym Mai 20. Roedd hynny yn dangos yr amcangyfrifwyd bod 87.7% o bobl wedi defnyddio'r rhyngwrwyd yn ystod cyfnod samplo o dri mis (Ionawr i Fawrth 2020). O'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, roedd hynny wedi cynyddu o 86.8%. Bydd yn arbennig o ddiddorol yn ystod y misoedd nesaf wrth i ddata ddod ar gael i adolygu'r defnydd o'r rhyngwrwyd ar gyfer misoedd Mawrth i Awst 2020, gan obeithio y gellir canfod y rhai sydd yn wynebu risg o fod wedi eu hallgau yn ddigidol yn ein cymunedau.

Yn ystod 019 a 2020 rydym wedi gweld cynnydd o 38% i 46% mewn trafodion dros y we o'i gymharu â chyfanswm y trafodion a wnaethpwyd drwy ddefnyddio'r holl sianelau

mynediad. Ond yn fwyaf arwyddocaol, ond nid yw'n fawr o syndod, yn ystod Ebrill i Fehefin gwelsom gynnydd sylweddol o 13% mewn trafodion ar-lein, gyrhaeddodd 52% yn ystod y cyfnod clo. Gwnaethpwyd swm sylweddol o waith yn ystod y cyfnod yma er mwyn cynyddu'r gwasanaeth trafodaethol oedd ar gael er mwyn sicrhau bod preswylwyr yn parhau i elwa o'r mynediad nad oedd mwyach ar gael yn ffisegol.

Oherwydd yr amharu a achoswyd gan Covid-19, ni fydd yn unrhyw ddata cymharol cenedlaethol yn cael ei gyhoeddi ar gyfer Dangosyddion Cyflwr Ffyrdd A, B ac C ar gyfer 2019 i 2020. Ond mae ffigyrau sganwyr lleol yn awgrymu y bu dirywiad bychan yng nghyflwr ffyrdd A (o 3.4% i 3.6%) a B (o 4.7% i 5.3%) yn ystod 2019 i 2020, a bod ffyrdd C wedi aros yr un fath (8.2%). Yn anffodus, mae yna broblem o hyd o ran caffael data ar gyfer y Sgôr Cyflwr Ffyrdd 6 misol, a rydym yn gobeithio datrys hynny yn fuan.

Cafodd 90% o'r 256 o ddiffygion categori 1 yn achos ffyrdd a phalmentydd a ddifrodwyd eu gwneud yn ddiogel o fewn yr amser targed o saith diwrnod yn ystod Ionawr i Mawrth 2020. Mae hynny yn ostyngiad bychan mewn perfformiad o 93 yn ystod Hydref i Ragfyr. Y cyfartaledd ar gyfer 2019 i 2020 oedd 92%, gan fynd i'r afael â 885 o gyfanswm o 962 o ddiffygion.

Bwrdd Rhaglen Cynllun Corfforaethol: Diweddariad Prosiect

Teithio i'r Gwaith, Addysg a Gwasanaethau

Pan fu i ni ddatblygu ein Cynllun Corfforaethol, nodwyd yn ein trafodaethau gyda thrigolion bod teithio i'r gwaith, addysg a gwasanaethau yn faes pwysig oedd angen ei wella, yn arbennig yn achos ein cymunedau gwledig. Yn anffodus, rydym yn cydnabod bod y maes yma angen gwaith a gwariant sylweddol. Yn ystod 2019 i 2020, gyda chefnogaeth grant cymorth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, bu i ni gomisiynu Prifysgol Glyndŵr i ymchwilio i rwystrau penodol i deithio, nid yn unig ar gyfer Sir Ddinbych, ond ar gyfer Gogledd Cymru. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth honno i hysbysu ein hachos busnes er mwyn gwella teithio yn y Sir; ond mae'n debygol nawr bod angen mwy o ddadansoddi o ystyried y newidiadau a achoswyd i deithio, addysg, gwaith a darparu gwasanaeth o ganlyniad i Covid-19. Mae ariannu yn dal yn broblem sylweddol yn y maes gwaith yma.

Mae'r pandemig wedi arwain at newidiadau na welwyd eu tebyg o'r blaen sydd yn effeithio ar drafnidiaeth. Mae'r cyngor wedi bod yn edrych ar sut y gallwn ailagor ein canol trefi yn ddiogel ar gyfer ymwelwyr, ac mae hynny yn cynnwys sicrhau bod yna ofod i bobl gadw at bellhau cymdeithasol a chynnig dulliau gwahanol o drafnidiaeth drwy wneud i gerdded a seiclo fod yn haws. Mae'r cyngor wedi diogelu bron i £1 miliwn o gyllid trafndiaeth drwy Gronfa Ymateb i Covid-19 Trafnidiaeth Gynaliadwy Leol, er mwy darparu gwell mynediad i ganol trefi ac ysgolion i gerddwyr a seiclwyr a hwyluso pellhau cymdeithasol mewn mannau cyhoeddus ac ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae'r cyfnod clo wedi arwain at gynydd yn nifer y bobl sydd yn cerdded a seiclo, a bydd nifer o'r mesurau a gynigiwyd yn annog mwy ar bobl i ddewis y dulliau trafndiaeth yma drwy ddarparu mesurau megis palmentydd lletach. Mae arian wedi cael ei sicrhau ar gyfer prosiectau yn y Rhyl, Llangollen, Rhuthun a Dinbych, yn ogystal â thu allan i ysgolion ledled y Sir. Mae prosiectau yn cynnwys ail-leoli gofod ffyrdd ar gyfer cerddwyr a seiclwyr drwy gyflwyno systemau un ffordd, a gwneud y tu allan i ysgolion yn fwy diogel ar gyfer pellhau cymdeithasol a lleihau nifer y teithiau ceir y tu allan i ysgolion. Drwy wneud ein canol terfi yn fwy hygyrch i deithio actif gallwn helpu i gefnogi busnesau'r Sir, gwella ansawdd aer ein trefi, helpu i amddiffyn yr amgylchedd, a gwella iechyd ein trigolion.

Band Eang Cyflyn Iawn a Rhwydweithiau Symudol

Mewn partneriaeth â Chadwyn Clwyd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, mae'r Cyngor wedi recriwtio Swyddog Cymorth Digidol yn 2020 er mwyn helpu i hyrwyddo opsiynau cysylltedd i fusnesau a chymunedau gwledig yn Sir Ddinbych. Mae'r Swyddog Digidol yn perfformio diagnosteg cysylltedd yn eiddo pob cleient er mwyn eu hysbysu am eu opsiynau i wella eu mynediad digidol. Os bydd preswilydd mewn ardal â chysylltedd gwael fe'u hanogir i ffurfio grŵp gweithredu er mwyn gwneud cais am gysylltiad ffibr drwy Bartneriaeth Ffibr Cymunedol Openreach. Ar hyn o bryd mae gwaith yn mynd rhagddo gyda chwe grŵp yn Sir Ddinbych, sydd yn eu helpu i gyfathrebu'r neges i drigolion eraill, coladu eu gwybodaeth wrth i drigolion newydd ymuno, a mapio'r safleoedd er mwyn galluogi i arweinydd y grŵp delweddu eu hardal darged. Pan fo digon o safleoedd wedi ymuno â'r grŵp, bydd y swyddog digidol yn helpu arweinydd y grŵp i gyflwyno'r ffurflen Partneriaeth Ffibr Cymunedol Openreach cyntaf. Ar ôl hynny, bydd dyfynbrisiau yn cael eu derbyn a bydd cynllun gweithredu yn cael ei lunio; dyma fydd y cam nesaf cynlluniedig ar gyfer 2020 i 21. Bydd arian ar gael drwy'r cynllun Talebau Gigabit Gwledig, fydd, gydag

ategiad Llywodraeth Cymru, yn werth £3000 ar gyfer eiddo preswyl, a £7000 os bydd busnes yn cael ei redeg oddi yno. Ar hyn o bryd mae yna 4,509 eiddo yn Sir Ddinbych ble nad oes dim rhwydwaith cymwys, ac nid yw'r un yn debygol o gael ei ddatblygu o fewn 3 blynedd. Maent yn is na'r cyflymder lawrlwytho targed o 10mbs, ac maent yn aml o gwmpas 1 i 3Mbs. Yn ychwanegol at hynny, hysbysit trigolion am dechnolegau eraill sydd ar gael er mwyn gwella eu cysylltiadau, a darperir cymorth er mwyn diagnosis unrhyw broblemau yn eu rhwydwaith cartref allai fod yn achosi cysylltiad gwael.

Rydym hefyd yn archwilio opsiynau er mwyn annog cynlluniau lleol i wella cysylltedd pan fo:

- Tai yn bodoli mewn ardaloedd ble ceir signal a chyflymder band eang gwael;
- Yn perthyn naill ai i ardal sydd heb ddim band eang cyflym iawn, neu nad yw'n debygol o fod yn rhan o Cyflymu Cymru 2.

Bydd ffocws y gwaith yma yn cael ei arwain gan y gymuned, gyda'r cyngor a'r partneriaid tai cymdeithasol yn chwarae rôl gynorthwyl. Mae'r Cyngor hefyd yn hyrwyddo Cronfa Band Eang Leol Llywodraeth Cymru gan annog grwpiau cymunedol i gyflwyno bidiau erbyn Medi 2020. Mae trafodaethau hefyd yn cael eu cynnal gyda Chronfa Fferm Wynt Clocaenog, fydd gobeithio yn caniatáu ceisiadau ar gyfer band eang cymunedol. Bydd y gronfa yn cael ei lansio yn ystod hydref 2020.

Mynediad i wybodaeth a gwasanaethau

Mae'r prosiect yma wedi dioddef peth oedi o ganlyniad uniongyrchol i adleoli'r tîm gwe a'r datblygwr gwe i gynorthwyo'r ymateb i Covid-19. Ond, yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol, ni ddisgwylir y bydd hynny yn oedi'r dyddiad 'Mynd yn Fyw' ein gwefan newydd, sydd wedi ei gynllunio ar gyfer Medi 16. Mae maint y gwaith sydd wedi cael ei wneud o ran cynhyrchu templedi gwefan newydd a throi ein holl ddogfennau a gwybodaeth er mwyn bodloni safonau mynediad newydd wedi bod yn sylweddol, ond rydym yn gobeithio y bydd trigolion yn cytuno bod hynny wedi bod yn werth yr ymdrech. Ychwanegwyd hefyd tua 30 o dudalennau newydd i'n gwefan yn ystod y pandemig er mwyn hysbysu a helpu trigolion i gael mynediad i'n gwasanaethau yn ystod y cyfnod clo.

Mae ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol wedi parhau i dyfu yn ystod Mawrth 2019 i Awst 2020, gan gofnodi dros 18 o argraffiadau, 844,000 o ymgysylltu a 108, 844 o gliciau dolenni post. Rydym hefyd wedi cyhoeddi tua 500 o ddatganiadau i'r wasg yn ystod yr amser hwnnw. Bu i adborth ynghylch ein presenoldeb yn y wasg greu 1,262 o ymatebion cadarnhaol, 134 o rai negyddol a 254 oedd yn niwtral.

Allgau Digidol

Mae cyfyngiadau Covid-19 wedi achosi amharu sylweddol ar y prosiect yma, yn arbennig yn achos ein gwaith ynghylch hyfforddi staff, datblygu gwirfoddolwyr mewn llyfrgelloedd, a gwaith digidol rhwng y cenedlaethau rhwng ysgolion a chartrefi gofal preswyl. Yr unig elfen o'n prosiect yr ydym wedi gallu bwrw ymlaen a hi yw'r archwiliad sgiliau digidol mewn gwasanaethau llyfrgelloedd a thai. Roedd y prosiect cyfredol i fod i orffen ym mis Rhagfyr, ond rydym yn disgwyl y bydd hynny erbyn hyn yn cael ei wthio 4-6 mis arall i mewn i 2021.

Ond, yn gefnogol i'r agenda yma, mae'n werth nodi bod cartrefi gofal preswyl yn ystod y cyfnod clo wedi cael dyfeisiau newydd er mwyn helpu i gysylltu trigolion yn well gyda theuluoedd a ffrindiau.

Seilwaith ar gyfer Digwyddiadau

Yn ystod Mawrth i Awst cafodd y prosiect yma ei rewi oherwydd Covid-19. Ond, yn ystod adolygiad cyfran diweddar o holl brosiectau'r Cynllun Corfforaethol ym mis Gorffennaf, adnewyddodd uwch reolwyr ac aelodau cabinet eu hymrwymiad i'r gwaith yma fel ffrwd bwysig ar gyfer ysgogi adferiad economaidd yn Sir Ddinbych, gan edrych yn benodol ar sut y gallwn ddenu digwyddiadau mwy i'r Sir.

Ffyrdd a Phontydd

Mae'r Cyngor wedi cynnal nifer o gynlluniau atgyfnerthu pontydd yn ystod 2019 i 2020. Mae bwâu ac adran cantilifer Pont Cilan, sydd yn Heneb Rhestredig ar Afon Dyfrdwy, wedi cael eu hatgyfnerthu a'u cryfhau yn fewnol gan drawst concriid; erbyn hyn mae'r bont yn edrych yn union yr un fath ag yr arferai edrych. Hefyd mae gwaith cerrig a bwa Pont Llyn y Gigfran, sydd yn cario ffordd dros Afon Alwen i'r gorllewin o Betws Gwerfyl Goch, wedi cael eu hailadeiladu gan ddefnyddio mortar calch poeth hanesyddol. Rydym hefyd wedi gwneud gwaith atgyweirio brys ar Bont Drefechan a Phont Penstryd yn dilyn llifogydd

Chwefror. Cynlluniwyd y byddid yn cwblhau Pont Eyarth, sydd wedi bod yn brosiect tair blynedd, yr haf yma, ond mae hynny wedi cael ei oedi o ganlyniad i Covid-19.

Yn ystod y 12 mis diwethaf mae'r cyngor wedi parhau â'i raglen o ailwynebu rhannau helaeth o'r rhwydwaith Dosbarth 'A', ac ailwynebu graddfa fach ar ffyrdd trefol mewn nifer o drefi a phentrefi. Mae gwaith proffil uwch yn cynnwys y ffordd ger Morrisons yn Y Rhyl ac ar yr A525 yn Llanelwy. Roedd y ddau leoliad yn heriol o ran lleihau amhariad, ond aeth y ddau rhagddynt yn dda. Mae'r ddau brosiect yma yn cynrychioli buddsoddiad o brin i £600k gan y Cyngor yn rhwydwaith ffyrdd y Cyngor.

Mesurau Blynyddol neu Bob 6 Mis

Mesur	2018 i 2019	2019 i 2020	Statws
Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol - Meincnodwyd yn Genedlaethol	3.4	3.6	Derbyniol
Canran y is ffyrdd B dosbarthedig sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol - Meincnodwyd yn Genedlaethol	4.7	5.3	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran yr is ffyrdd C dosbarthedig sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol - Meincnodwyd yn Genedlaethol	8.2	8.2	Da
Canran yr oedolion (16 oed neu'n hŷn), sydd wedi defnyddio'r rhyngrwyd yn ystod y 3 mis olaf (Conwy a Sir Ddinbych) - Meincnodwyd yn lleol	87.7	Disgwyl y data	Derbyniol

Mesur	2014	2019	Statws
Canran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (LSOA) yn Sir Ddinbych yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Mynediad at Wasanaethau (Mynegai Cymru o Amddifadedd Lluosog - WIMD)	14	14	Ddim yn gymwys Cyfrif yn unig

Mesurau Chwarterol neu Bob 6 Mis

Mesur	Chwarter 1 2019 i 2020	Chwarter 2 2019 i 2020	Chwarter 3 2019 i 2020	Chwarter 4 2019 i 2020	Chwarter 1 2020 i 2021	Statws
Canran y signal Cyflym lawn yn Sir Ddinbych (.30Mbps) - Meincnodwyd yn Lleol	91.2	91.3	91.3	91.29	92	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran yr eiddo gyda Band Eang o 10 Mbps neu is - Meincnodwyd yn lleol	6.57	6.54	6.54	4.93	4.63	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y trafodion a wnaethpwyd dros y we, o'i gymharu â chyfanswm y trafodion gan ddefnyddio'r holl sianelau	38	38	47	46	52	Ddim yn gymwys Cyfrif yn unig

Mesur	Chwarter 4 2018 i 2019	Chwarter 1 2019 i 2020	Chwarter 2 2019 i 2020	Chwarter 3 2019 i 2020	Chwarter 4 2019 i 2020	Statws
Canran y signalau ffordd 4G symudol (pob gweithredwr) - Meincnodwyd yn lleol	43.08	49.59	47.46	45.68	45.31	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y ffyrdd a phalmentydd a ddifrodwyd a wnaethpwyd yn ddiogel o fewn yr amser targed (CAT1 - diffygion categori 1 y deliwyd â nhw o	97.5	100	98.9	92.8	89.7	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Mesur	Chwarter 4 2018 i 2019	Chwarter 1 2019 i 2020	Chwarter 2 2019 i 2020	Chwarter 3 2019 i 2020	Chwarter 4 2019 i 2020	Statws
fewn yr amserlen) - Meincnodwyd yn lleol						
Sgôr Cyflwr Ffyrdd 6 misol o tua 75% o weddill y rhwydwaith (Rhai ffyrdd C a bron yr holl ffyrdd annosbarthedig)	Ddim yn gymwys Bob 6 mis	393337	Ddim yn gymwys Bob 6 mis	Disgwyl y data	Ddim yn gymwys Bob 6 mis	Ddim yn gymwys Blwyddyn waelodlin

Cynnydd Prosiectau

Mae'r prosiectau canlynol ar darged:

- Band Eang Cyflyn lawn a Rhwydweithiau Symudol
- Allgau Digidol

Mae'r prosiectau canlynol yn wynebu rhwystrau:

- Mynediad i wybodaeth a gwasanaethau
- Seilwaith ar gyfer Digwyddiadau

Mae'r prosiect canlynol ar y cam achos busnes:

- Teithio i'r Gwaith, Addysg a Gwasanaethau

Astudiaethau achos

Fflecsi

Mae Fflecsi yn caniatáu i bobl ofyn i fws sydd yn ymateb i'r galw eu codi ger eu cartrefi, gwaith neu siopau ar gyfer teithio hanfodol, yn hytrach na dilyn amserlen benodol mewn safleoedd bysiau penodol. Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus yn 2019 i 2020, rydym nawr yn gweithio mewn partneriaeth gyda Thrafnidiaeth i Gymru (TfW), CandH Coaches a

Townlynx er mwyn ymestyn y cynllun peilot 'fflecsi' i Ddinbych a Phrestatyn. Gan ddefnyddio technoleg ViaVan byd yn cyfarwyddo teithwyr i "arhosfa bws rithiol" gerllaw, fydd yn caniatáu teithiau cyflym ac effeithlon a rennir heb ddargyfeiriadau maith, llwybrau penodol neu amserlenni penodol.

Gwella band eang dan arweiniad y gymuned

Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r gymuned yn Nantglyn ar gynhyrchu cronfa ddata o drigolion lleol sydd â diddordeb mewn cynllun band eang cymunedol. Mae 155 o drigolion wedi cofrestru ar gyfer hyn, yn cynnwys 49 o fusnesau. Mae opsiwn band eang technegol yn barod (FTTP) ac mae gwaith nawr yn canolbwyntio ar ddatblygu costau gydag Openreach a chwilio am opsiynau cyllido.

Datblygu Cynaliadwy

Fel cyngor, rydym yn cydnabod pwysigrwydd aros yn gysylltiedig. Mae hynny yn golygu buddsoddi yn y technolegau fydd yn cadw ein cymunedau yn gysylltiedig yn yr hirdymor, a dyna pam ein bod yn gweithio gyda phartneriaid megis prosiect Cyflymu Cymru Llywodraeth Cymru.

Rydym hefyd yn cydnabod bod cysylltedd yn gymhleth. Er ein bod eisiau gwella seilwaith teithio yn Sir Ddinbych, rydym hefyd yn cydnabod bod rhai pobl efallai eisiau dileu yr angen i deithio o gwbl, drwy gael mynediad at nwyddau a gwasanaethau (neu weithio) ar-lein. Rydym yn gwybod nad yw rhai trigolion yn teimlo yn gyfforddus, neu nad oes ganddynt y sgiliau neu'r gallu i gael mynediad ar wasanaethau ar-lein. Am y rheswm hwnnw, mae ein holl brosiectau Cynllun Corfforaethol yn cael eu rheoli gyda'i gilydd fel rhaglen er mwyn sicrhau ein bod yn cynllunio mewn ffordd gydlynus sydd yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd.

Mae Teithio Actif yn golygu cerdded a seiclo, yn cynnwys cadeiriau olwyn trydan a sgwteri symudedd, ar gyfer teithiau byr bob dydd, megis teithiau i'r ysgol, gwaith neu fynediad i siopau, gwasanaethau a gorsafoedd bysiau a rheilffordd. Drwy fuddsoddi mewn teithio actif rydym yn annog pobl i fabwysiadu ffyrdd o fyw iachach a hyrwyddo trafndiaeth carbon isel. Mae hwn yn ddull ataliol sydd yn integreiddio amcanion ategol, a bydyn golygu gweithio gyda'n partneriaid ar dylunio a darparu datrysiad.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae cadw ein cymunedau yn gysylltiedig yn galluogi i bawb gael llais. Boed hynny yn golygu gallu cael mynediad at y rhyngwrwd, cyrraedd cyfarfod, neu gyfathrebu yn yr iaith o'u dewis.

Bydd ein prosiectau Cynllun Corfforaethol er mwyn gwella gwybodaeth a gwasanaethau'r cyngor ar-lein ac er mwyn taclo allgau digidol yn cynnwys ymyriadau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn hygyrch i bawb. Ein gwefan yw un o'r platfformau allweddol y mae'r cyngor yn ei ddefnyddio ar gyfer darparu cyngor a gwybodaeth i'r cyhoedd. Rydym wedi bod yn treialu ein gwefan newydd sbon er mwyn clywed safbwyntiau'r cyhoedd. Mae'r wefan wedi cael ei haildylunio'n llwyr er mwyn bodloni gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb, sydd yn disgwyl i holl sefydliadau'r sector cyhoeddus i gael gwefannau hygyrch erbyn Medi 2020. Mae gwneud gwefan yn hygyrch yn golygu y gellir ei ddefnyddio gan bobl â nam ar y golwg, anhwylderau motor, anableddau dysgu, pobl fyddar neu a nam ar y clyw. Mae'r wefan newydd yn edrych yn wahanol iawn i'r hen un. Mae ganddo ddyluniad clir a syml; dylai fod yn haws i'w ddarllen o ran ffont, lliwiau a chyferbyniad, a dylai'r iaith fod yn hawdd ei deall. Hefyd mae wedi cael ei dylunio fel y gellir ei defnyddio ar gymaint o ddyfeisiau digidol â phosibl.

Mae arwyddion pellhau cymdeithasol a hylendid wedi cael eu codi yn ein canol trefi prysuraf. Datblygwyd rhai arwyddion ychwanegol yn benodol gyda Vision Support er mwyn amlygu'r angen i ystyried cŵn tywys a defnyddwyr ffon wen mewn perthynas â phellhau cymdeithasol. Rydym hefyd yn gobeithio bod gwelliannau i lwybrau teithio actif o fudd i bobl ag anableddau drwy well mynediad, yn arbennig mewn perthynas â llwybrau cysylltiedig ag ysgolion.

Rydym yn parhau i fonitro canran y bobl sy'n adrodd eu bod wedi gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith. Dywedodd 97.7% o ddefnyddwyr Gwasanaeth Cymorth yn y Gymuned eu bod yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith.

Beth ydym yn ei wneud yn 2020 i 2021?

Byddwn yn parhau i gyflawni mewn perthynas â'r prosiectau sydd yn cefnogi'r flaenoriaeth yma drwy gydol 2020 i 2021:

Teithio i'r Gwaith, Addysg a Gwasanaethau: Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn teithio actif a gwelliannau parcio.

Band Eang Cyflyn lawn a Rhwydweithiau Symudol: Yn ystod 2020 i 2021 byddwn yn parhau i weithio gyda chymuned Nantglyn; sicrhau bod datblygiadau tai newydd yn addas i'r diben o safbwynt cysylltedd; parhau i hyrwyddo opsiynau ar gyfer gwella cysylltedd; ac archwilio gwelliannau eraill y mae angen i ni eu gwneud i'n hasedau ein hunain er mwyn gwella cysylltedd.

Mynediad i wybodaeth a gwasanaethau: Yn ddarostyngedig i adborth ac unrhyw addasiadau angenrheidiol, bydd ein gwefan ar ein newydd wedd yn mynd yn fyw ym Medi 2020. Byddwn yn canolbwyntio ar ddarparu mwy o wasanaethau ar-lein a chaniatáu i gwsmeriaid gael mynediad at ystod eang o wybodaeth am wasanaethau'r cyngor, yn ogystal â chofrestru ceisiadau, gwneud taliadau a chymryd rhan mewn ymgynghoriadau.

Allgau Digidol: Bydd ein Swyddog Cymorth Digidol yn parhau i weithio gyda grwpiau, busnesau a thrigolion penodol er mwyn gwella cysylltedd. Byddwn yn adolygu a diweddarau darpariaethau TG mewn llyfrgelloedd, gwasanaethau tai, cartrefi lloches a sefydliadau preswyl. Byddwn yn bwrw ymlaen gyda hyfforddi staff rhwng flaen mewn gofal cymdeithasol, llyfrgelloedd a thai er mwyn eu helpu nhw a'u cleientiaid, a hefyd yn targedu staff ehangach y cyngor a nodwyd bod ganddynt sgiliau digidol gwael yn ystod y gwaith adleoli Covid-19. Rydym hefyd yn gobeithio datblygu'n ddigidol gyda'n cynllun peilot rhwng y cenedlaethau rhwng Ysgol Caer Drewyn a chartref preswyl Cysgod y Gaer, sydd yn amcanu at wella dealltwriaeth TG ymysg pobl hŷn.

Yn olaf, ers Gorffennaf 2020, mae'r prosiect wedi dechrau cwmpasu ble y gall helpu'r bob sydd yn economaidd fregus. Bydd llyfrgelloedd yn bidio am arian ym Medi 2020 er mwyn creu ystafelloedd adnoddau TG er mwyn helpu'r cyhoedd gyda manau rhithwir ar gyfer cyfweiliadau swyddi neu apwyntiadau rhithwir eraill. Mae posibiliadau eraill yn cael eu hystyried hefyd.

Seilwaith ar gyfer Digwyddiadau: Gan gydnabod bod hyn yn ffrwd bwysig ar gyfer ysgogi adferiad economaidd Sir Ddinbych, pan fydd cyfyngiadau yn caniatáu hynny, byddwn yn gweithio drwy weddill y flwyddyn ariannol yma er mwyn parhau gyda'n buddsoddiad mewn seilwaith allweddol, a gweld yn benodol sut y gallwn ddenu digwyddiadau mwy i Gonwy.

Ffyrdd a Phontydd: Yn ystod 2020 i 2021 byddwn yn cynnal pedwaredd flwyddyn rhaglen gynnal a chadw 10 mlynedd ar gyfer pontydd a strwythurau priffyrdd eraill. Nod y rhaglen hon yw lleihau'r angen i weithredu cyfyngiadau pwysau ar ein pontydd.

Cymunedau Cydnerth: Mae'r cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau er mwyn meithrin annibyniaeth a chydnerthedd

Mesurau: Derbyniol

Prosiectau: Da

Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol Diweddariad am Fesurau

Mae Sir Ddinbych wedi gweld cynnydd o 11% yn nifer dioddefwyr mynych camdriniaeth ddomestig yn ystod 2019 i 2020 o gymharu hynny â'r flwyddyn flaenorol, gan godi o 428 i 475. At ei gilydd, gwelodd Gogledd Cymru ostyngiad o -1.4% yn niferoedd dioddefwyr mynych cam-drin domestig yn 2019 i 2020. Hefyd mae ffigyrau ar gyfer Ebrill i Mehefin 2020 yn dangos cynnydd o 14.5% ers yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol, gan godi o 110 i 126 o ddioddefwyr mynych.

Gwelodd Sir Ddinbych gynnydd yn nifer troseddwyd mynych Cam-drin Domestig yn 2019-2020, o 93 i 98 (+5.4%). Mae'r darlun cyffredinol ar gyfer Gogledd Cymru yn dangos bos troseddwyd Cam-drin Domestig mynych wedi gostwng -12.7%. Rhwng Ebrill a Mehefin 2020 roedd yna 23 o droseddwyd cam-drin domestig mynych, o'i gymharu â 14 ar gyfer yr un cyfnod y llynedd. Mae troseddwyd mynych yn cael eu dosbarthu fel pobl sydd wedi cyflawni trosedd Cam-drin Domestig ar dri neu ragor o achlysuron mewn 12 mis; felly mae gwerth pob mis yn giplun o'r 12 mis blaenorol.

Cynyddodd nifer yr adnoddau a ddarparwyd gan Sir Ddinbych ar wefan Dewis Cymru drwy gydol 2019 i 2020 i 536, ond disgynnodd yn Ebrill i Fehefin 2020 i 470. Nid yw'r Cyngor yn rheoli adnoddau Dewis Cymru, ond mae'n annog pob gwasanaeth a'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth i droi atynt i gael gwybodaeth gymunedol. Hefyd mae nifer yr adnoddau ar Dewis ar gyfer Gogledd Cymru wedi gostwng ers ein hadroddiad diwethaf, i 2,381. Mae nifer yr adnoddau cenedlaethol a gyhoeddwyd wedi cynyddu i 10,583.

Mae data ar gyfer cyfartaledd amser y caiff oedolion (65 oed neu hŷn) gymorth mewn cartrefi gofal preswyl wedi gostwng drwy gydol 2019 i 2020 o 1021 i 970. Yna gwelwyd cynnydd bychan i 984 yn ystod Ebrill i Mehefin. Er ein bod yn dal yn uchel o'i gymharu â chyfartaledd Cymru (800) deallir bod gan Sir Ddinbych boblogaeth â chyfartaledd oedran uchel. Ein targed cytunedig oedd aros o dan 1,200.

Yn olaf, mae data ar gyfer diwedd y flwyddyn yn datgelu bod y cyngor wedi cynnal 1124 o asesiadau o angen am gymorth i ofalwyr yn ystod 2019 i 2020. Yn ystod Ebrill i Fehefin 2020 cwblhawyd 111 o asesiadau. Mae hwn yn fesur newydd felly ni allwn gymharu ar gyfer yr un cyfnod yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Yn anffodus, mae'r amharu ar lunio adroddiadau a achoswyd gan Covid-19 y golygu nad oes yna ddata newydd ar gyfer nifer o dangosyddion perfformiad y flaenoriaeth hon. Mae'r rhain wedi cael eu hamlygu yn y tablau isod gyda'n sefyllfa hysbys olaf.

Bwrdd Rhaglen Cynllun Corfforaethol: Diweddariad Prosiect

Cyfranogi at siapio a gwella gwasanaethau

Mae ein hyder o ran cyflawni'r prosiect yma yn dal yn uchel, ond nid i'r un graddau ag y bwriadwyd yn wreiddiol. Erbyn hyn rydym yn gorfod ailystyried agweddau oedd angen creu cyfleoedd ymgysylltu wyneb yn wyneb cryf. Yn ystod y misoedd nesaf byddwn yn asesu effaith barhaus Covid-19 er mwyn penderfynu ar ffordd ddiogel ymlaen o ran cyflawni ein gwaith ymgysylltu, yn arbennig i'r rhai agored i niwed a thrigolion sydd wedi eu hallgau yn ddigidol allai gael anhawster gyda mecanweithiau ymgysylltu digidol arloesol.

Cymorth i Ofalwyr

Bu i'r gwaith a wnaethpwyd gennym o dan y prosiect yma ar ddechrau Covid-19 a'r cyfnod clo ein rhoi mewn sefyllfa gryfach o ran ymateb i'r brigiad. Roedd llinellau cyfathrebu da a thîm prosiect sgiliedig eisoes wedi cael eu sefydlu. Mae nod y prosiect, sef bod yr holl ofalwyr yn Sir Ddinbych yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth, wedi bod yn bwysicach nag erioed ac mae gwaith yn parhau i enwi a chefnogi gofalwyr o bob oed, yn cynnwys gofalwyr ifanc. Cytunwyd mai'r ffordd orau ymlaen oedd datblygu dull ar y cyd gyda'r trydydd sector, gan ganolbwyntio ar yr ymateb uniongyrchol a'r cymorth oedd ei angen.

Timau Adnoddau Cymunedol

Un prosiect arwyddocaol yw dylunio gwasanaethau gofal iechyd a chymdeithasol di-dor, ar ffurf Timau Adnoddau Cymunedol. Mae Sir Ddinbych yn gweithio mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB) er mwyn cyflawni'r prosiect yma, gyda BCUHB y bartner cyflawni arweiniol. Nod y Tîm Adnoddau Cymunedol yw darparu gwasanaethau gofal iechyd a chymdeithasol cynhwysfawr, hyblyg, ymatebol,

amlasiantaeth ac amlddisgyblaethol. O safbwynt y dinesydd gellir cael mynediad atynt yn rhwydd a di-dor. Sefydlwyd Tîm Adnoddau Cymunedol Rhuthun yn Chwefror 2019. Mae Rhyl wedi cael ei sefydlu ers 2017. Eleni datblygwyd hyb newydd yn Ninbych, ac er gwaethaf Covid-19, mae staff wedi llwyddo i gydleoli'r safleoedd hynny.

Cynllunio Cymunedol, Ffermydd Gwynt

Mae'r adnoddau gwefan datblygu cymunedol a ddatblygodd Sir Ddinbych yn ystod 2018 i 2019, oedd yn amcanu at roi i gymunedau a grwpiau yr arfau a'r cyngor yr oedd eu hangen arnynt er mwyn gweld eu syniadau a'r prosiectau yn dwyn ffrwyth, wedi parhau i dalu ar ei ganfed yn ystod yr ymateb i Covid-19 wrth i flaenoriaethau uniongyrchol ein cymunedau newid. Mae swyddogion Datblygu Cymunedol wedi bod yn cefnogi ein cynghorau Dinas, Tref a Chymunedau a grwpiau cymunedol eraill er mwyn helpu i gael mynediad at ffrydiau arian newydd sydd wedi ymddangos, yn ogystal â hyrwyddo beth sydd ar gael drwy'r amrywiol gronfeydd ffermydd gwynt y gall Sir Ddinbych gael mynediad atynt. Lansiodd Cronfa Fferm Wynt Brennig, er enghraifft drydedd rown gynnar o ariannu, a gaeodd ym mid Awst, fel ymateb i Covid-19 er mwyn helpu cydnerthedd cymunedol. Arweiniodd hynny at gynnydd sylweddol mewn ymholiadau datblygu cymunedol wrth i grwpiau ddechrau cynllunio ar gyfer adferiad yn dilyn Covid-19 ac ailafael mewn datblygu cynlluniau prosiectau mwy hirdymor.

Mae Covid-19 wedi achosi oedi o ran lansio Cronfa Fferm Wynt Clocaenog, ac mae hynny wedi golygu ei bod yn annhebygol y bydd cerrig milltir prosiectau eraill mewn perthynas â chyflawni gweithdai datblygu cymunedol yn cael eu cyrraedd. Yn hytrach bydd dulliau eraill o ddarparu gwybodaeth a chanllawiau thematig i'n cymunedau yn cael eu harchwilio. Ond, mae'r Rheolwr Grantiau wedi cael ei benodi, a disgwylir y bydd y gronfa yn cael ei lansio yn ystod hydref 2020.

Lleihau Cam-drin Domestig

Mae hwn yn faes gwaith mor bwysig i'r cyngor, yn arbennig cydnabod y cynnydd mewn cam-drin domestig a welwyd yn ein Sir yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac yn ystod y misoedd diweddar yn ystod y cyfnod clo. Erbyn hyn mae Sir Ddinbych wedi penodi Rheolwr Prosiect penodedig ar gyfer cydlynu gwaith y prosiect yma a rydym wedi enwi nifer o ffrydiau gwaith i fwrw ymlaen gyda nhw yn ystod 2022 i 2021. Mae'r rhain yn cynnwys cefnogi Strategaeth Trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) 2018 i 2023, a sicrhau dull mwy cyson o adnabod y rhai sydd yn dioddef trais

yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd y cyngor yn gweithio er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni ein gofynion deddfwriaethol, a'r Fframwaith Hyfforddi Genedlaethol ar gyfer VAWDASV.

Mynediad i Wybodaeth

Mae Strategaeth Llyfrgelloedd Sir Ddinbych 2019 i 22 yn amcanu at sicrhau y gall 'Pobl gael mynediad at yr adnoddau a'r wybodaeth sydd ei angen arnynt i fyw yn dda' ac y gall 'Pobl gael mynediad at y wybodaeth a'r gwasanaethau yma yn lleol'. Mae Llyfrgelloedd yn darparu hynny drwy 'fod yn bwynt mynediad ym mhob cymuned i wybodaeth leol a chenedlaethol er mwyn cefnogi cyflogaeth, iechyd, lles ac addysg unigolion a chymunedau'. Mae llyfrgelloedd yn cynnal ystod eang o wasanaethau yn cynnwys Mannau Siarad a Chyngor ar Bopeth, a dyma'r lleoliadau ble mae gwasanaethau yn dewis cyfarfod eu cleientiaid a chodi ymwybyddiaeth o'u gwasanaethau, oherwydd canfyddir bod llyfrgelloedd yn niwtral, lleol ac yn lle syn cynnig ymddiriedaeth.

Hefyd, fel y cyfeiriwyd o dan brosiect 'Mynediad at Wybodaeth a Gwasanaethau' o dan ein Blaenoriaeth Cysylltu, nydd gwefan newydd Sir Ddinbych yn bodloni safonau mynediad caeth a gobeithio y bydd yn arf arall ar gyfer cefnogi annibyniaeth a chydnerthedd ein trigolion.

Cyngor Dementia Gyfeillgar

Yn Chwefror 2020 derbyniodd Cyngor Sir Ddinbych gydnabyddiaeth genedlaethol am ei ymdrechion i weithio ar fod yn gyngor dementia gyfeillgar. Derbyniodd y Cyngor gydnabyddiaeth Cymdeithas Alzheimer drwy ei fenter Cymunedau Dementia Gyfeillgar am ei waith yn codi ymwybyddiaeth a chefnogi rhai sydd yn byw gyda dementia.

Mae yna 11,000 o bobl yn byw gyda dementia yng Ngogledd Cymru, a 1,511 o'r rhai hynny yn Sir Ddinbych. Disgwylir y bydd nifer y bobl fydd yn byw â dementia yng Ngogledd Cymru bron yn dyblu erbyn 2030. Fel rhan o'i waith i gefnogi pobl â dementia, mae'r cyngor wedi darparu sesiynau gwybodaeth am Gyfeillion Dementia i staff a chynghorwyr, wedi sefydlu rhwydwaith ymgysylltu i staff, ac mae llyfrgelloedd yn cynnig gwasanaeth rhagnodi llyfrau. Mae yna ostyngiad yn y dreth gyngor i bobl sydd yn byw â dementia, a hefyd darperir gwiriadau tân am ddim mewn cartrefi a help gyda biniau ar olwynion. Mae cynlluniau i'r dyfodol yn cynnwys pecyn e-ddysgu er mwyn hysbysu staff a chynghorwyr;

archwiliad safleoedd ar gyfer adeiladau dementia gyfeillgar; a bydd llyfrgelloedd yn benthycu blychau atgofion. Bydd y cyngor yn gwahodd pobl sydd yn byw â dementia i hysbysu a dylanwadu ar newidiadau i arferion gweithio, yn ogystal â gweithio â Threfi Dementia Gyfeillgar y Sir er mwyn rhannu gwersi a phrofiadau.

Datblygu Cymunedau Y Rhyl

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau sylweddol o ran ei waith i gefnogi datblygiad cymunedol yn Y Rhyl, gan weithio yn agos gyda phartneriaid a'r trydydd sector, yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Dŵr Cymru, y Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol, a chydweithwyr Rheoli Gwastraff. Mae nifer o brosiectau wedi cael eu datblygu, yn cynnwys adolygiad o effeithiolrwydd gwasanaethau cymorth a darparwyr sydd ar gael yn Y Rhyl; datblygu Cronfa Grant Cymunedol Y Rhyl er mwyn caniatáu gwelliannau amgylcheddol; a Chynllun Rhoi Sir Ddinbych, fydd yn cael ei beilota yn Y Rhyl. Amharwyd ar ein gwaith gan Covid-19 ond erbyn hyn rydym yn ailafael ynddi ac mae hynny yn cynnwys cynlluniau i fynd i'r afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ar y Stryd Fawr, a phrosiect i ysgogi cydlyniant cymunedol a gweithgaredd cymunedol dwy fenter glanhau strydoedd.

Mesurau Blynyddol neu Bob 6 Mis

Mesur	2018 i 2019	2019 i 2020	Statws
Canran y bobl sydd yn adrodd eu bod wedi derbyn y wybodaeth neu'r cyngor priodol pan yr oeddent ei angen - Meincnodwyd yn Lleol	88	Dim data oherwydd Covid-19.	Derbyniol
Canran y gofawr sydd yn adrodd eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i barhau gyda'u rôl o ofalu - Meincnodwyd yn Lleol	55	Dim data oherwydd Covid-19.	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y bobl sydd yn adrodd eu bod yn gwybod pwy i gysylltu â nhw ynglŷn â'u gofal a chymorth - Meincnodwyd yn Lleol	84	Dim data oherwydd Covid-19.	Derbyniol
Canran y bobl sydd yn cytuno bod "fy ardal leol yn lle ble mae pobl yn dod at ei gilydd i wella'r ardal leol" - Meincnodwyd yn Lleol	59	Ddim yn gymwys Dim Arolwg	Derbyniol

Mesur	2018 i 2019	2019 i 2020	Statws
Canran y bobl sydd yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sydd yn effeithio ar eu hardal leol - Meincnodwyd yn Lleol	27	Ddim yn gymwys Dim Arolwg	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Mesurau Chwarterol neu Bob 6 Mis

Mesur	Chwarter 1 2019 i 2020	Chwarter 2 2019 i 2020	Chwarter 3 2019 i 2020	Chwarter 4 2019 i 2020	Chwarter 1 2020 i 2021	Statws
Nifer cronol (blwyddyn hyd yma) dioddefwyr mynych Cam-drin Domestig yn cynnwys digwyddiadau nad ydynt yn droseddau (3 neu fwy mewn 12 mis, wedi ei fesur fel blwyddyn hyd yma)	110	231	370	475	126	Ddim yn gymwys Cyfrif yn unig
Nifer cronol (blwyddyn hyd yma) troseddwyr Cam-drin Domestig mynych (3 neu fwy mewn 12 mis)	14	36	63	98	23	Ddim yn gymwys Cyfrif yn unig
Nifer yr adnoddau byw ar Blatfform Dewis Cymru - Meincnodwyd yn Lleol	482	459	531	536	470	Rhagorol
Nifer yr asesiadau o angen am gymorth i ofalwyr yn ystod y flwyddyn	Dim data	Dim data	876	1224	111	Ddim yn gymwys Cyfrif yn unig

Amser cyfartalog y caiff oedolion (65 oed neu hŷn) gymorth mewn cartrefi gofal preswyl - Meincnodwyd yn Genedlaethol	1021	1008	977	970	984	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
--	------	------	-----	-----	-----	------------------------------

Cynnydd prosiectau

Mae'r prosiectau canlynol ar darged i'w cwblhau:

- Timau Adnoddau Cymunedol
- Cyngor Dementia Gyfeillgar
- Gweithredu i leihau cam-drin domestig

Mae'r prosiectau canlynol yn wynebu rhwystrau:

- Cynllunio Cymunedol, Ffermydd Gwynt
- Pobl yn cyfranogi at siapio a gwella gwasanaethau
- Cymorth i Ofalwyr

Mae'r prosiect canlynol wedi ei gau:

- Mynediad i Wybodaeth

Astudiaeth achos

Stori Gofalwr

Ymwelodd nyrs ardal â gofalwr yn ddiweddar, a darganfod nad oedd ganddynt ddim bwyd ar wahân i focs o rawnfwyd. Riportwyd hynny i'r tîm brys ar ddyletswydd a gysylltodd yn

eu tro â Gwasanaeth Gofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWICS) i weld pa gymorth ellid ei roi.

Anfonodd NEWCIS focs bwyd i'r gofalwr yr un diwrnod, a ddarparodd fwyd a chynnyrch ffres iddynt. Roedd y gofalwr wrth eu bodd ac yn teimlo rhyddhad mawr. Roedd yn glir nad oedd y gofalwr yn hyderus o ran deall pa gymorth oedd ar gael iddi ac nod oedd wedi gallu sefydlu y cymorth oedd ei angen er mwyn ei chadw hi a'i theulu yn ddiogel.

Datblygu Cynaliadwy

Mewn perthynas â'r flaenoriaeth yma rydym yn datblygu prosiect brys pwysig sydd yn bwriadu cryfhau ein dull o reoli ein prosesau cyfranogi, a symud mwy tuag at model cydgynhyrchiol o ddarparu. Bydd hynny yn golygu y bydd trigolion yn cyfranogi at siapio gwasanaethau yn llawer cynharach nag arfer, a hynny yn barhaus. Bydd y datblygiadau yma yn gosod y sylfaen ar gyfer cyfranogiad cryfach yn gyffredinol. Mae yna nifer o feysydd , gaiff ei ysgogi gan ddyhead i atal mwy o angen, yn cael eu cynllunio fydd yn golygu y bydd angen dull cydweithredol, sef:

- Gwella cymorth i ofalwyr.
- Integreiddio Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Taclo cam-drin domestig.

Astudiaeth Achos

Llyfrgell Ddigidol

Parhaodd y Gwasanaeth Llyfrgell i ddarparu gwasanaeth gwerthfawr yn ystod y cyfnod clo, er bod yr adeiladau wedi cael eu cau a'r tîm staff yn cael eu hadleoli i'n gwaith galwadau rhagweithiol. Cafodd ein Llyfrgell Ddigidol ei hyrwyddo'n helaeth ar y cyfryngau cymdeithasol a sianelau eraill, ac ymunodd 428 o aelodau newydd ers canol Mawrth. Atgyfnerthwyd y gwasanaeth a gynigir gan fuddsoddiad o £250k gan LIC i wasanaeth Borrowbox Cymru gyfan o e-lyfrau ac e-lyfrau sain y gelir eu lawrlwytho er mwyn cynyddu ystod a swm y stoc sydd a gael er mwyn ateb yr ymchwydd mewn galw. Bu cynnydd o 75% mewn defnyddwyr cofrestredig a chynnydd o 85% mewn benthyciadau yn Sir

Ddinbych (Mawrth i Fai). Hefyd buddsoddodd Sir Ddinbych mewn Pressreader, gan roi mynediad digidol am ddim i dros 3000 o bapurau newydd a chylchgronau byd-eang, ac roedd aelodau llyfrgell hefyd yn gallu cael mynediad at Ancestry am ddim o'u cartrefi.

Cynhyrchodd tîm Bookstart, gan weithio o gartref, amser odli dwyieithog ar Facebook bob wythnos, a recordio a chyhoeddi fideos odli a straeon ar-lein. Fe'u gwahoddwyd i recordio fideo ar gyfer gwefan Booktrust Cymru er mwyn annog rhieni newydd i rannu caneuon, cerddi a llyfrau gyda'u babanod.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Ers dechrau'r cyfnod clo a hyd at 1 Awst 2020, roedd y Cyngor, gyda chymorth Hamdden Sir Ddinbych Cyf, wedi cysylltu'n rhagweithiol â mwy na 9,250 o bobl a thrigolion gwarchoddedig 70 oed neu hŷn sydd wedi bod yn ynysu, er mwyn cynnig cyngor a chymorth a sicrhau y gallent gael mynediad i gyflenwadau a gwasanaethau sydd eu hangen arnynt tra'u bod yn dal yn eu cartrefi. Mae hynny wedi cynnwys atgyfeiriadau at grwpiau cymunedol, elusennau lleol a gwasanaethau cyngor ar gyfer help wedi'i deilwra, yn cynnwys siopa am nwyddau, casglu meddyginiaethau, cyfeillio dros y ffôn ac asesiadau o anghenion gofal sylfaenol.

Mae'r adborth gan drigolion wedi bod yn gadarnhaol iawn, a llawer yn dweud wrthym pa mor werthfawrogol yr oeddent o'r galwadau. Cyfrannodd dros 80 aelod staff ar draws y cyngor, gyda nifer o swyddogion yn addasu yn gyflym i weithio mewn ffordd gwbl wahanol. Diolchwyd i'r staff am eu hymroddiad a'u gwaith caled yn ystod y broses ynghyd a'n partneriaid allanol, yn cynnwys Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Dinbych (DVSC) a'r Groes Goch Brydeinig.

Gall trigolion dal ddefnyddio'r [rhestr adnoddau cymunedol](#) i gael manylion cyswllt a chyfeiriadau gwefan siopau lleol sydd yn barod i ddanfôn cyflenwadau, a lle i fynd i gael help a chymorth lleol a chenedlaethol. Gall trigolion hefyd gael mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth, sydd yn cynnwys ein Gwasanaeth Cyfeillio Dros y Ffôn, drwy gysylltu â'r Un Pwynt Mynediad ar 0300 456 100.

Yn unol â chanllawiau LIC, mae Llyfrgelloedd yn raddol wedi dechrau ailgyflwyno gwasanaethau drwy ddull fesul cam er mwyn sicrhau diogelwch a hyder cwsmeriaid a staff. Yng nghanol Mehefin bu i ni gyflwyno Gwasanaeth Archebu a Chasglu a chynnig

cyfle i gwsmeriaid ddewis ac archebu eu llyfrau eu hunain o'r catalog ar-lein, neu ofyn i staff ddewis llyfrau iddynt. Yna mae'r llyfrau yn cael eu casglu drwy apwyntiad. Hefyd ailgyflwynwyd y Gwasanaeth Llyfrgell Cartref, gan anfon llyfrau yn uniongyrchol i gartrefi pobl. Mae 2,677 o gwsmeriaid wedi defnyddio Archebu a Chasglu hyd yma, ac mae adborth yn dangos sut y mae cwsmeriaid yn ei werthfawrogi ac effaith gadarnhaol cael mynediad at lyfrau llyfrgell ar les pobl.

Mae plant wedi gallu cymryd rhan yn Her Darllen yr Haf ar-lein a thrwy gasglu pecyn her a llyfrau o'r llyfrgell. Hefyd gall teuluoedd plant ifanc gasglu pecyn Bookstart o'u llyfrgell leol fel rhan o gynllun peilot cenedlaethol gyda Booktrust Cymru.

Ar ddiwedd Gorffennaf / dechrau Awst, ar ôl ffitio sgriniau diogelwch ar ein holl gownteri, bu i ni ailgyflwyno mynediad drwy apwyntiad i gyfleusterau TGCh ac argraffu, a'r Gwasanaeth Siop Un Stop sydd yn delio ag ymholiadau a thaliadau'r cyngor. Hyd yma, mae dros 500 o gwsmeriaid wedi defnyddio'r gwasanaethau yma.

Mae'r cyngor wedi bod yn () gweithio i ymateb i ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 drwy ei raglenni i foderneiddio'r ffordd y darperir gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r gwaith hwn yn rhoi mwy o bwyslais ar ddeilliannau unigolion, yn cynnwys trafodaethau sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau. Mae plant ac oedolion sy'n derbyn cymorth a gwasanaethau yn cael cynnig trafodaeth "beth sy'n bwysig" ar gyfer pecynnau cymorth unigol.

Lansiodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru: ei strategaeth ar gyfer "Gwneud Cymru y Lle Gorau yn y Byd i Dyfu'n Hen" yn 2019. Rydym wedi archwilio'r Strategaeth yn fanwl er mwyn sicrhau bod ein gwaith yn alinio â'r tair blaenoriaeth allweddol a nodwyd gan y Comisiynydd, a rydym yn hyderus y byddwn yn cyflawni mewn perthynas â'r gweithgareddau a amlinellwyd, naill ai drwy brosiectau ein Cynllun Corfforaethol, neu o fewn y gwasanaethau a ddarperir gennym. Hefyd, rydym wedi gwneud llawer o waith er mwyn adolygu ein Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych er mwyn ymateb i strategaeth y Comisiynydd, a roeddem bron yno gyda'n dogfen derfynol pan gyrhaeddodd Covid-19. Nawr rydym yn amcanu ar gwblhau hynny erbyn diwedd 2020.

Astudiaeth Achos

Clicio a chasglu

“Roeddwn jest eisiau dweud pa mor hyfryd yw bod y llyfrgell yn cynnig gwasanaeth Archebu a Chasglu er ei bod wedi cau. Rwyf wedi bod mor unig, mae fy nheulu yn byw dramor a dim ond llyfrau sydd gennyf. Mae'n fendigedig gweld wynebau cyfeillgar y staff, ond y llyfrau yn fwy na dim. Mae fel cael ffrindiau yn dod yn ôl ar ôl taith hir, a'r anrheg yw'r straeon y tu mewn iddynt. Mae'r llyfrgell yn wasanaeth hanfodol i ddyn unig sydd yn byw mewn cyfnod ansicr.”

“Roeddwn eisiau dweud diolch yn fawr iawn i'r Llyfrgell a'u gwasanaeth Clicio a Chasglu arbennig, fel rhywun sydd wedi bod yn hunan ynysu mae hyn wedi bod yn uchafbwynt hyfryd i ddyddiau hir iawn. Mae'n braf bod y Llyfrgell ond galwad ffôn i ffwrdd a byddant yn gwneud eu gorau i gae y llyfrau yr hoffwn eu darllen a hyd yn oed cynnig llyfr na fyddwn erioed yn meddwl ei ddarllen - diolch yn fawr iawn i bwy bynnag sydd yn dewis y llyfr trosedd ar hap i mi, nid wyt wedi fy siomi o gwbl hyd yma.”

Beth ydym yn ei wneud yn 2020 i 2021?

Byddwn yn parhau i gyflawni mewn perthynas â'r prosiectau sydd yn cefnogi'r flaenoriaeth yma drwy gydol 2020 i 2021:

Cyfranogi at siapio a gwella gwasanaethau: Byddwn yn parhau i wneud gwell defnydd o [Borth Trafodaeth y Sir](#) er mwyn gofyn am fewnbwn trigolion a rhoi cyfle iddynt gyfranogi cymaint â phosibl.

Cymorth i Ofalwyr: Byddwn yn parhau gyda'n gwaith o enwi a chefnogi gofalwyr o bob oed, cynyddu ymwybyddiaeth nad oes raid i ofalwyr ymdopi ar eu pennau eu hunain a bod help ar gael. Byddwn yn hyrwyddo hyfforddiant ar-lein i ofalwyr, yn cynnwys gweminarau a chyrsgiau gan PROMAS a TIDE, ac rydym yn amcanu at enwi themâu allweddol o gefnogaeth i ofalwyr ifanc.

Timau Adnoddau Cymunedol: Yn ystod 2020 i 2021 byddwn yn bwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer hyb Adnoddau Cymunedol arall ym Mhrestatyn, gan weithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Cynllunio Cymunedol: Byddwn yn datblygu adnoddau er mwyn cefnogi mynediad i tua £850k o arian grant cymunedau Ffermydd Gwynt erbyn Mawrth 2021.

Lleihau Cam-drin Domestig: Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid, yn cynnwys Heddlu Gogledd Cymru, ar ddatblygu dull Sir gyfan o leihau trais, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn erbyn dynion a merched. Mae tri maes gwaith wedi cael eu henwi ar gyfer y prosiect yma, yn amrywio o hyfforddiant, codi ymwybyddiaeth, gwella prosesau, a gweithio gyda dioddefwyr a chyflawnwyr. Mae'n ymgymeriad sylweddol a byddwn yn ymdrechu i fwrw ymlaen â hyn drwy gydol 2020 i 2021.

Mynediad i Wybodaeth: Byddwn yn parhau i ddarparu ein Strategaeth Llyfrgelloedd Sir Ddinbych 2019 i 22 sydd yn amcanu at sicrhau y gall 'Pobl gael mynediad at yr adnoddau a'r wybodaeth sydd ei angen arnynt i fyw yn dda' ac y gall 'Pobl gael mynediad at y wybodaeth a'r gwasanaethau yma yn lleol'. Byddwn hefyd yn lansio ein gwefan hygyrch newydd ym Medi 2020.

Yn gynnar ym Medi 2020, byddwn yn gallu cynnig ymweliadau llyfrgell drwy apwyntiad er mwyn galluogi cwsmeriaid i bori a dewis eu llyfrau eu hunain, a defnyddio gofodau llyfrgelloedd ar gyfer astudiaeth preifat a mynediad Wi-Fi.

Petai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ail gyfnod clo, bydd y cyngor yn cysylltu â thrigolion sydd yn cael cyngor gan Brif Swyddog Meddygol Cymru i warchod eu hunain.

Cyngor Dementia Gyfeillgar: Rydym yn dal yn hyderus y byddwn yn ystod y 12 mis nesaf wedi cwblhau ein cynllun gweithredu ac yn cynnal proses gydnabod flynyddol. Mewn partneriaeth â Chymdeithas Alzheimer's, byddwn yn parhau â'n rhaglen o hyfforddi staff, yn cynnwys hyfforddi Hyrwyddwyr Dementia fydd yn cynnig yr adnodd yn ein sefydliad er mwyn hyfforddi cydweithwyr eraill. Rydym hefyd yn bwriadu sefydlu fforwm ar gyfer unigolion a'u gofalwyr sydd yn byw â Dementia.

Datblygu Cymunedau Y Rhyl: Yn ystod 2020 i 2021 byddwn yn parhau gyda nifer o brosiectau ymgysylltu allweddol, ac yn benodol yn ceisio recriwtio 10 i 15 o bobl leol i weithredu fel Hyrwyddwyr Cymuned ar gyfer Gorllewin y Rhyl, gan gynorthwyo'r gwaith o fonitro troseddau amgylcheddol, gwella diogelwch cymunedol, a chyfranogi at greu manau gwyrdd cymunedol yn yr ardal. Byddwn hefyd yn lansio ymgyrch reoli gwastraff, ac yn bwrw ymlaen gyda'n cynllun peilot Rhoi.

Yr Amgylchedd: Deniadol a gwarchoddedig, cefnogi lles a ffyniant economaidd

Mesurau: Da

Prosiectau: Rhagorol

Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol Diweddariad am Fesurau

Ar hyn o bryd mae ein fframwaith mesurau ar gyfer y flaenoriaeth hon yn ymwneud yn llwyr â data blynyddol, a dim ond ychydig iawn o ddata newydd sydd i adrodd amdano mewn gwirionedd. Mae tri mesur wedi deillio o'n Harolwg Trigolion, ac ni chynlluniwyd i hynny ddigwydd eleni; ac nid yw dau fesur arall, a amlygir yn y tabl isod, yn barod ar gyfer adrodd arnynt.

Yr hyn allwn ei ddweud yw bod y cyngor wedi parhau i leihau allyriadau carbon o'i ystâd, gyda gostyngiad o 15.69% yn 2019 i 20, o'i gymharu â'r lefelau allyriadau y cynlluniwyd y cynllun corfforaethol ar ei gyfer. Cyflawnwyd hynny gan ostyngiad o 8,822.65 (tunnell) yn ein hadeiladau ein hunain ble rydym ni yn talu'r biliau, a 1,908.17 (tunnell) yn ein fflyd. Mae hynny wedi rhagori ar ein huchelgais o ostyngiad o 15 y cant erbyn 2022.

Yn olaf, mae cynllun plannu coed y cyngor wedi mynd rhagddo, a phlannwyd 4,300 o goed yn 2019 i 2020. Erbyn hyn mae cyfanswm o 10,100 o goed wedi cael eu plannu drwy'r prosiect yn ystod tair blynedd. Yn amlwg effeithiwyd ar weithgareddau plannu i wirfoddolwyr o ganlyniad i Covid-19, ond mae gweithgareddau plannu Blwyddyn 4 yn dal ar darged i gael eu cyflawni rhwng Tachwedd 2020 i Fawrth 2021.

Bwrdd Rhaglen Cynllun Corfforaethol: Diweddariad Prosiect

Allyriadau Carbon

Ers datganiad Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol y cyngor, mae gwaith wedi cael ei wneud ar ddatblygu'r amcanion canlynol a gyfer y cyngor:

- Y cyngor i ddod yn sefydliad sero carbon net erbyn 2030 ar yr hwyraf.
- Y cyngor i ddod yn sefydliad ecolegol gadarnhaol erbyn 2030 ar yr hwyraf.

Cynhaliwyd gweithdy poblogaidd iawn ym mis Chwefror er mwyn cofnodi pryderon a gobeithion trigolion ar gyfer y dyfodol. Yn ei tro cafodd y rhain eu bwydo i weithdai sydd wedi cael eu cynnal yn rhithwir yn ystod y pandemig gyda phob un tîm rheoli gwasanaeth yn y cyngor, gan amcanu at gyflwyno camau y gall y cyngor fwrw ymlaen gyda nhw yn ystod y deng mlynedd nesaf. Bydd y gwaith yma yn cael ei ddatblygu yn ystod y misoedd nesaf ar gyfer mewnbwn ac ymgynghoriad cyhoeddus yn yr hydref, gan arwain maes o law at Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar gyfer cymeradwyaeth gan y pwyllgor Craffu a'r Cabinet a'r Cyngor yn gynnar yn 2021.

Lleihau Plastigau

Yn ystod 2019 i 2020 ymgynghorodd y cyngor gyda'i staff ynghylch sut mae lleihau'r defnydd o blastigau yn ei swyddfeydd sifig. Cytunwyd ar rai camau syml, oedd yn cynnwys gwaredu pob peiriant coffi awtomeiddiedig. Yn gydamserol cafodd y peiriannau yma eu diffodd yn ystod y pandemig oherwydd nad oedd ein swyddfeydd yn cael eu defnyddio, ond rydym nawr yn disgwyl i'r contractwr ddychwelyd i weithredu'n ôl yr arfer er mwyn cael gwared â'r peiriannau. Mae oeryddion dŵr hefyd wedi cael eu diffodd, ac mae'r cwpanau plastig wedi hen fynd.

Cam nesaf y prosiect fydd ystyried lleihau plastig gan ein gwasanaeth arlwygo ysgolion. Cafodd y gwaith yma ei ohirio pan gaewyd yr ysgolion, tra bod timau addysg ac arlwygo yn canolbwyntio yn hytrach ar ddarparu pryddau ysgol am ddim i rai cymwys. Wrth i ysgolion ddechrau dychwelyd i normalrwydd o fath, byddwn eto yn ystyried sut i fwrw ymlaen gyda'r prosiect yma gyda nhw.

Plannu Coed a Mannau Agored

Fel yw ydym wedi ei weld o'r data, mae ein gwaith ar y prosiect Plannu Coed wedi parhau i gynyddu yn dda. Yn Y Rhyl, roeddem mewn gwirionedd yn gallu plannu mwy o goed na'n targed gwreiddiol, gan gyfrannu at ymdrechion y cyngor i adfywio'r dref a cynyddu'r canopi yno. Ond yn Ninbych, roeddem ychydig yn brin o'n targed oherwydd diffyg lle i blannu.

Ond ni fydd hynny yn broblem ym Mlwyddyn 4, oherwydd mae'r cyngor nawr wedi prynu darn o dir sydd yn ffinio â rhandiroedd Dinbych er mwyn darparu lle plannu y mae ei wir angen. Mae'n werth nodi hefyd, cyn Covid-19, y mynychodd y nifer uchaf erioed o grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr ddyddiau plannu. Mae hi bob amser yn dda gweithio gyda'r gymuned ar weithgareddau o'r fath a chefnogi'r maes gwaith yma.

Fel ymateb i ganllawiau Covid-19 caewyd y maes parcio yng Nglan Morfa yn ystod cyfnod cynnar y pandemig er mwyn lleihau nifer yr ymwelwyr oedd yn teithio i'r safle mewn ceir. Ond, gadawodd y cyngor y safle yn agored er budd i drigolion y Rhyl. Yn yr un modd, chwaraeodd Glan Morfa, Pwll Brickfields a Rhyl Cut rôl bwysig yn ystod y cyfnod clo anodd, gan sicrhau bod gan drigolion fynediad i fannau gwyrdd. Er mwyn annog a galluogi pellhau cymdeithasol, codwyd arwyddion ac roedd y llwybrau a'r pwyntiau mynediad yn cael eu cynnal yn rheolaidd gan staff Gwasanaeth Cefn Gwlad.

Llifogydd

Dechreuodd prosiect dwy flynedd arwyddocaol i amddiffyn 1,650 eiddo yn Nwyrain Y Rhyl rhag llifogydd ym mis Ebrill 2020. Gosododd y prif contractwr, Balfour Beatty, nifer o fesurau ychwanegol oedd yn cydymffurfio â chanllawiau diweddaraf y DU ynghylch Covid-19 er mwyn sicrhau y gallai'r gwaith fynd rhagddo. Mae'r cynllun yn cynrychioli buddsoddiad o £27 miliwn gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ddinbych i roi 128,000 tunnell o greigiau amddiffynnol o flaen yr amddiffynfeydd sydd yn bodoli eisoes, yn ogystal â 600 metr o wal amddiffyn rhag y môr a phromenâd.

Gwella Bioamrywiaeth a Choridor Byd Natur

Cyn y pandemig, roedd y prosiect yma yn perfformio'n dda. Roedd 2019 i 2020 yn flwyddyn arolwg dda, gyda cynnydd ym mhob agwedd ers 2018: nifer y madfallod a gofnodwyd, cyfanswm y cofnodion a gymerwyd; nifer y madfallod cyffredin a gofnodwyd; oriau gwirfoddol a dreuliwyd ar y twyni tywod; arolygon a gynlluniwyd ac na chynlluniwyd a gynhaliwyd; a chyfanswm yr arolygon a gynhaliwyd at ei gilydd ar y safle. Hefyd mae ein gwaith er mwyn tyfu blodau gwylt lleol cynhenid yng Nghanolfan Sgiliau Coetir Sir Ddinbych wedi cael ei ddefnyddio fel astudiaeth achos o arfer dda gan Lywodraeth Cymru.

Aeth darlithoedd gan westeion mewn perthynas â chadwraeth a gwirfoddoli ym Mhrifysgol Glyndŵr yn dda drwy gydol 2019 i 2020, a bu cynnydd yn nifer y myfyrwyr a wnaeth gais am brosiectau traethawd a cyfleoedd gwirfoddoli. Hefyd trefnwyd diwrnod o adfer pwll Brogaod er mwyn i fyfyrwyr gymryd rhan ynddo. Hefyd dechreuwyd prosiect newydd er mwyn creu coridor gwyrdd/glas sydd yn cysylltu a gwella adnoddau naturiol ar draws siroedd Dinbych, Y Fflint a Chonwy, a hynny wedi ei ariannu gan grant Llywodraeth Cymru.

Ond, mae nifer o'n gweithgareddau wedi cael eu rhewi oherwydd Covid-19. Rhannwyd rota madfall tywod 2020 i wirfoddolwyr a staff ond yna bu'n rhaid canslo; a stopiwyd prosiect Bee Friendly tra bod yr ysgolion wedi cau. Mae'r holl arolygon grŵp wedi cael eu canslo o ganlyniad i Covid-19, ond yn y cyfamser rydym wedi rhoi data hanesyddol i fyfyrwyr er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn gallu cwblhau eu haseiniadau a'u traethodau. Gobeithio y bydd y gweithgareddau yn aildechrau yn fuan, ond dim ond pan fydd yn ddiogel gwneud hynny.

Rheoli Corstiroedd

Fel ymateb i dân Llantysilio yn haf 2018, cynhyrchodd y Pwyllgor Craffu ar Gymunedau adroddiad cynhwysfawr i holl agweddau'r tân. Canfu'r angen am well cyfathrebu rhwng yr holl randdeiliaid, dulliau rheoli corstiroedd gwell, a dull rhagweithiol o atal mwy o dannau gwyllt. Er mwyn cyflawni hynny, argymhellodd y Pwyllgor yma benodi Swyddog Corstiroedd er mwyn cydlynu gweithgareddau a helpu tiffeddianwyr a phorwyr i reoli'r corstir a gwella ei iechyd cyffredinol. Gan weithio mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru, sicrhawyd arian am 3 blynedd ar gyfer y rôl yma, a hysbysebwyd y swydd yn haf 2020. Sicrhawyd mwy o arian drwy Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gwaith adfer ar Fynydd Llantysilio.

Asedau Byw

Mae'r prosiect yma yn amcanu at ddatblygu dull cynaliadwy o reoli coed sydd yn eiddo i ni, yn ogystal â hyrwyddo buddion coed i drigolion. Yn ystod 2019 i 2020 penododd y Cyngor Swyddog Coed newydd er mwyn bwrw ymlaen â'r prosiect, fydd hefyd yn cynnwys ymateb i heriai anodd sydd yn cael eu hachosi gan glefyd coed ynn. Rydym yn dal yn hyderus y gallwn gyflawni'r gwaith ar darged, er bod yna amharu anochel o ganlyniad i fesurau y cyfnod clo. Er hynny, mae cynnydd wedi cael ei wneud gyda'n meddalwedd mapio a rheoli coed, y dechreuwyd ei ddefnyddio; ac mae gwaith wedi dechrau ar ymchwilio a datblygu strategaeth Coed a Choetir.

Cartrefi Cyngor Ynni Effeithlon

Yn ystod 2019 i 2020 rydym wedi gwneud mwy o waith asesu ynni a gwelliannau inswleiddio er mwyn ein helpu i gyrraedd ein huchelgais y bydd 70% o'n stoc tai cyngor yn cyrraedd gradd ynni 'C' erbyn 2022. Rydym wedi gweld cynnydd o 33 i 40% yn ystod 2019

i 2020. Mae 50 eiddo wedi elwa o osod inswleiddiad waliau ceudod gan ddefnyddio inswleiddio Thermabead; ac fel rhan o'n Rhaglen Cynnal safonau Ansawdd Tai Cymru, mae 30 eiddo arall wedi elwa o ffenestri gradd A. Hefyd mae rhaglen waith arall wedi cael ei chynnal er mwyn canfod eiddo pan fo angen dim ond enillion ynni bychan er mwyn cyrraedd gradd 'C', a olygodd bod effeithlonrwydd ynni 21 eiddo arall wedi ei godi yn llwyddiannus.

Bydd cyfran fawr o'r stoc tai nad ydynt yn gysylltiedig â'r rhwydwaith nwy angen gwelliannau gwresogi arloesol er mwyn cyrraedd y radd yr ydym yn ei ddymuno. Felly rydym wedi peilota gosod pypiau Gwres o'r Awyr, ac mae hynny wedi bod yn llwyddiannus. Ein nod yw gosod hynny mewn dros 300 eiddo.

Mae un elfen o'n gwaith yn wynebu risg oherwydd diffyg eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch targedau datgarboneiddio yng Nghymru. Disgwylir y bydd y trothwy Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) yn cael ei godi yn uwch na'n targed presennol, fydd yn effeithio ar y math o welliannau yr ydym yn eu gwneud, ac yn arwyddocaol yn ychwanegu at y gost.

Strategaeth Twristiaeth

Rydym wedi cyhoeddi Strategaeth Twristiaeth newydd ar gyfer 2019 i 2020, sydd yn cefnogi'r flaenoriaeth hon. [Gellir gweld hyn yn ein gwefan.](#) Rhan ganolog o'n strategaeth yw ffocws penodol ar ddarparu pethau yn gynaliadwy, a gweithio mewn partneriaeth gydag eraill yn y sector. Y tair nod allweddol yr ydym eisiau eu cyflawni ar gyfer Twristiaeth yn Sir Ddinbych yw:

- Pobl yn ymweld â Sir Ddinbych drwy gydol y flwyddyn
- Pobl yn aros am fwy o amser yn Sir Ddinbych
- Pobl yn gwario mwy o arian yn Sir Ddinbych

Ond, rydym hefyd yn glir iawn yn ein strategaeth ynghylch ein cyfrifoldeb i sicrhau nad ydym, drwy gynyddu twristiaeth yn y Sir, yn peryglu'r asedau sydd yn denu ein hymwelwyr yma i ddechrau.

Mesurau Blynyddol neu Bob 6 Mis

Mesur	2018 i 2019	2019 i 2020	Statws
Gostyngiad canrannol - o waelodlin 31/03/17 - mewn allyriadau carbon (tunelli) o asedau'r cyngor - Meincnodwyd yn Lleol	13.69	15.69	Rhagorol
STEAM - Cyfanswm Effaith Economaidd Twristiaeth (£miliwn) - Meincnodwyd yn Lleol	509.01	Disgwyll y data	Rhagorol
Canran y stoc tai cyngor presennol ac a gafwyd (gwaelodlin 1 Ebrill 2017) sydd yn cyrraedd gradd EPC (ynni) C neu uwch - Meincnodwyd yn Lleol	33	40	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Nifer cronol y coed a blannwyd er wyn cynyddu gorchudd canopi yn Y Rhyl a Dinbych - Meincnodwyd yn Lleol	5800	4300	Rhagorol
Pa mor fodlon yw pobl gyda'u mannau awyr agored lleol? - Cefn gwlad - Meincnodwyd yn Lleol	87	Ddim yn gymwys Dim Arolwg	Rhagorol
Pa mor fodlon yw pobl gyda'u mannau awyr agored lleol? - Traethau - Meincnodwyd yn Lleol	70	Ddim yn gymwys Dim Arolwg	Da
Pa mor fodlon yw pobl gyda'u mannau awyr agored lleol? - Parciau - Meincnodwyd yn Lleol	64	Ddim yn gymwys Dim Arolwg	Da

Ni adroddir ein mesurau ynghylch nifer yr adeiladau sydd a risg is o lifogydd (1,000oedd) nes y bydd y cynlluniau lifogydd a arenwyd wedi'u cwblhau, gan ddechrau yn 2020.

Mesurau Chwarterol neu Bob 6 Mis

Ni adroddir ar ganran y tai cyngor newydd sydd yn cyrraedd gradd EPC (Ynni) A nes y cwblheir y tai newydd yn 2021.

Cynnydd prosiectau

Mae'r prosiectau canlynol ar darged:

- Rhaglen reoli hinsawdd ac ecolegol
- Amddiffynfa glannau Dwyrain Y Rhyl
- Plannu coed trefol
- Gwarchod a gwella 'asedau byw' Sir Ddinbych
- Rheoli corstiroedd ac atal tannau gwyllt

Mae'r prosiectau canlynol yn wynebu rhwystrau:

- Gwella bioamrywiaeth
- Coridor natur ENRaW
- Lleihau defnydd y cyngor o blastigau (cam 2)

Mae'r prosiect canlynol yn wynebu risg:

- Gwella effeithlonrwydd ynni mewn tai cyngor

Astudiaethau achos

Coloni Môr-wennol Fechan

Mae'r gwaith o warchod y coloni Môr-wennol Fechan yng Ngronant, yr unig goloni o'i fath yng Nghymru, wedi mynd rhagddo yn ystod y misoedd diwethaf, er gwaethaf Covid-19, gyda Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych yn cyflwyno mesurau gweithio diogel er mwyn diogelu'r coloni rhag aflonyddu gan bobl, ysglyfaethwyr a digwyddiadau tywydd eithafol.

Mae'r coloni ymysg dim ond ychydig o goloniau sydd yn gwarchod y môr-wennol fechan y tymor yma, sydd yn golygu bod ein hymdrechion yn bwysicach eleni nag erioed. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i warchod y coloni Môr-wennol Fechan olaf yng Nghymru, er gwaethaf yr amgylchiadau eithriadol presennol.

Mae'r gwaith yn cael ei wneud gan wardeniaid gyda chymorth gwirfoddolwyr, ond oherwydd gwaharddiadau Covid-19, mae staff Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych wedi ysgwyddo dyletswyddau wardeniaid. Hyd yma, mae'r cyfrif adar wedi bod yn 300+, gyda 173 o nythod wedi'u creu a nifer o barau oedd wedi colli eu nythod wedi ailnythu erbyn hyn.

Gwastraff a Pharciau Ailgylchu

Roedd y system bwcio ar-lein a ddatblygwyd wrth i gyfyngiadau gael eu llacio ar gyfer defnyddio parciau gwastraff ac ailgylchu Cyngor Sir Ddinbych yn boblogaidd iawn gan ddefnyddwyr a staff y safle. Gofynnodd nifer o drigolion i ni gadw'r system yn ei lle. Mae'n lleihau unrhyw giwio neu draffig, mae'r ymweliadau i'r parciau gwastraff ac ailgylchu yn gyflymach ac yn fwy effeithlon, ac yn gyffredinol mae'n ffordd fwy diogel o weithredu'r safle. Am y rhesymau hynny rydym wedi penderfynu gweithredu'r system yma am gyfnod amhenodol. Byddwn yn monitro perfformiad y ffordd newyddo weithio i'r dyfodol er mwyn gwerthuso a gweithredu unrhyw addasiadau i brosesau sydd eu hangen.

Newid Rôl Parcmyn

Roedd ein parcmyn yn wynebu newidiadau arwyddocaol i'w rolau yn ystod y cyfnod clo, yn arbennig pan ddechreuodd Lloegr lacio eu cyfyngiadau. Roedd ein safleoedd yn ddod yn fwy a fwy prysur er bod Cymru mewn cyfnod clo llawn. Roedd yn rhaid i barcmyn ddechrau patrolio Moel Famau yn rheolaidd, gan helpu i gynghori pobl am y rheoliadau cyfnod clo, a chysylltu â Heddlu Gogledd Cymru. Ar benwythnosau yn ystod y cyfnod cynnar, bu'n rhaid troi rhwng 50 a 60 o geir o Foel Famau bob dydd, ond tua diwedd y cyfnod clo cynyddodd hynny i bron i 100. Erbyn hyn rydym yn falch ein bod wedi gallu ailagor ein safleoedd i groesawu pobl yn ôl i fwynhau ein parciau gwledig hyfryd.

Datblygu Cynaliadwy

Roedd ffocws ein Cynllun Corfforaethol ar gadwraeth yr amgylchedd naturiol a chynnal ei fioamrywiaeth yn ganlyniad i'n gwaith ymgysylltu mewn perthynas â Sgwrs y Sir. Fel rhan

o'r ymarferiad yma clywyd lleisiau pobl ifanc yn y gymuned, a gwrandawyd arnynt. Roeddent yn bryderus ynghylch dyfodol yr amgylchedd ac roeddent eisiau i'r fwrw ymlaen gyda newidiadau o dan y thema yma yn fwy gweithredol.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ar blannu 18,000 o goed erbyn 2022, sydd yn ymrwymiad hirdymor i'r amgylchedd, a darparu mannau hamdden cymunedol cysgodol.

Yn ystod 2019 i 2020 rydym wedi cytuno ar newidiadau pwysig i'n casgliadau gwastraff ac ailgylchu, sydd yn cynnwys:

- Casgliadau wythnosol newydd o eitemau ailgylchadwy megis papur, gwydr, caniau a phlastig.
- Casgliadau wythnosol newydd ar gyfer clytiau ac eitemau anymataliaeth.
- Casgliad wythnosol ar gyfer gwastraff bwyd.
- Casgliad newydd bob pythefnos ar gyfer dillad ac eitemau trydanol bychan.

Y nod yw annog mwy o ailgylchu yn ychwanegol at gyfraddau presennol y cyngor (64%) er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o 70% erbyn 2025, gyda disgwyliad y bydd y targed yn codi i 80% yn y dyfodol. Dylai'r cyfleusterau newydd sydd eu hangen er mwyn cefnogi'r gwasanaeth fod yn ei le yn gynnar yn 2021, gyda'r nod y bydd y Sir gyfan yn cael ei symud i'r gwasanaeth newydd erbyn Gorffennaf 2021.

Yn unol â'r thema carbon isel, rydym yn cynllunio i leihau lefel ein hallyriadau carbon o'n hasedau ein hunain a byddwn yn sicrhau bod gan bob tŷ cyngor newydd radd effeithlonrwydd ynni 'A'. Mae hynny yn dangos ein hymagwedd tuag at greu'r budd mwyaf o brosiectau, ac integreiddio gyda'n Blaenoriaeth Tai.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn Sir Ddinbych rydym wedi gwneud cynnydd anferthol nid yn unig er mwyn diogelu ein adnoddau naturiol eithriadol, ond hefyd wedi ei gwneud yn haws nag erioed i bawb gael eu mwynhau. Er enghraifft, mae tudalennau gwe Sir Ddinbych Hygyrch, yn darparu

mapiau rhyngweithiol sydd yn galluogi i ddefnyddwyr benderfynu a ydynt yn teimlo bod y llwybr yn addas ar gyfer eu anghenion unigol a'u gallu. Mae nifer o lwybrau ar gael i'w harchwilio, gyda dolen i bob safle gaiff sylw.

Wrth i gyfyngiadau y cyfnod clo gael eu llacio, aethpwyd ati i fwrw ymlaen gyda nifer o weithgareddau ymgysylltu cymunedol pwysig. Roedd hynny yn cynnwys anwytho y teuluoedd o Syria i'r safle rhandiroedd yn y Rhyl, eu cefnogi i dyfu eu bwyd eu hunain a chreu eu darn o dir gwyrdd eu hunain. Erbyn hyn mae ganddynt fynediad rhydd i'r safle ac rydym wedi rhoi cymaint o ddarpariaeth â phosibl iddynt fel eu bod yn cael y dechrau gorau posibl, megid chwynnu, llenwi ag uwchbridd, hadau a chymorth. Bydd y grŵp yma yn parhau i gael eu cefnogi drwy gyfrwng sesiynau Zoom misol a sesiynau ymarferol tymhorol.

Cynhaliwyd gweithdai celf neidr gerrig ym mis Awst 2020, oedd yn ffordd arall o feithrin cydlyniant cymunedol. Digwyddodd hynny ar ôl i'r neidr a grëwyd gan drigolion yn ystod y cyfnod clo o gwmpas llyn Brickfields gael ei waredu er mwyn parhau i ganiatáu mynediad diogel i'r safle, yn arbennig i rai ag anableddau. Mae'r gweithdai wedi bod yn ffordd o barhau i gynnal yr egni cymunedol a mwynhad trigolion mewn prosiect celf a dyfodd ohono ei hun yn ystod cyfnod anodd.

Astudiaeth Achos

Mynediad i'r Traeth

Bydd Cynllun Gwarchod Glannau Dwyrain Y Rhyl yn amddiffyn 1,650 eiddo yn Nwyrain Y Rhyl, a chaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, a'i ariannu yn rhannol gan Gyngor Sir Ddinbych. Dechreuodd gwaith ar y safle ym mis Ebrill ac mae ar darged i gae ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2022.

Bydd deunyddiau megis greigiau mawr yn parhau i gael eu cludo ar y safle er mwyn galluogi adeiladu'r gwrthglawdd o greigiau, a bydd y gwaith hwnnw yn dechrau ym mis Hydref. Disgwylir y bydd y gwaith o adeiladu'r gwrthglawdd yn cymryd wyth mis. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo yn dda ac erbyn diwedd Awst, bydd gwaith cychwynnol yn dechrau ar ffurfio y cyntaf o dri pwynt mynediad parhaol i'r traeth.

Fel ymateb i geisiadau gan ddefnyddwyr y traeth, mae'r contractwr ar gyfer Cynllun Gwarchod Glannau Dwyrain Y Rhyl wedi gallu darpar mynediad i'r traeth ar benwythnosau

o Marine Drive ger Hen Ffordd Golff. Hefyd sefydlwyd canolfan ymwelwyr yng nghompownd y safle ac mae croeso i aelodau'r cyhoedd alw heibio i drafod y cynllun gyda'r swyddog cysylltiadau cyhoeddus. Mae mwy o wybodaeth am y prosiect ar gael hefyd yn [y wefan yma](#).

Beth ydym yn ei wneud yn 2020 i 2021?

Byddwn yn parhau i gyflawni mewn perthynas â'r prosiectau sydd yn cefnogi'r flaenoriaeth yma drwy gydol 2020 i 2021:

Rhaglen reoli hinsawdd ac ecolegol: Byddwn yn ymgynghori ar ein Cynllun Gweithredu i yn sefydliad sero carbon net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030 ac yn cyhoeddi hynny.

Plannu Coed: Byddwn yn parhau gyda'n rhaglen uchelgeisiol i blannu 18,000 o goed erbyn diwedd 2022. Mae plannu Blwyddyn 4 yn Y Rhyl ar darged i gael ei gyflawni rhwng Tachwedd 2020 a Mawrth 2021. Mewn gwirionedd byddir yn rhagori ar y targed o 24,000 o goed eleni o 2,000 o goed wrth i gyfleoedd plannu ychwanegol ac arian allanol gael eu sicrhau. Hefyd bydd perllan gymunedol yn cael ei phlannu yn Ninbych yn Nhachwedd 2020 ble bydd Eirin Dyffryn Clwyd a Dinbych yn amlwg iawn.

Amddiffynfa Glannau Dwyrain Y Rhyl: Bydd ein contractwr yn parhau i weithio ar y prosiect yma, y disgwylir iddo gymryd dwy flynedd. Erbyn 2022, bydd 500 eiddo wedi eu diogelu.

Gwella Bioamrywiaeth a Choridor Byd Natur: Byddwn yn rheoli cynllun peilot o 21 safle, sydd yn 62 acer, mewn ffordd fwy amgylcheddol gyfeillgar er mwyn creu dolydd o flodau gwyllt. Mae'r cynllun peilot yn cynnwys safleoedd ym Mhrestatyn, Y Rhyl, Corwen, Cynwyd, Dinbych, Henllan, Llanferres, Llanrhaedr, Pwllglas a Rhuthun.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid yn Sir y Fflint a Chonwy ar gyflawni 2 o'n coridorau natur sydd yn rhan o'n cynllun cyflawni, gan feithrin ecosystemau iach a chydnerth ar hyd coridor o gynefin mawr sydd yn cysylltu rhai o boblogaethau mwyaf difreintiedig Cymru â chefn gwlad ehangach.

Rheoli Corstiroedd: Bydd hau cymysgedd gwair ucheldir a grug o'r awyr yn digwydd yn ystod yr hydref yn 2020. Byddwn hefyd yn dechrau ar waith adfer ar Fynydd Llantysilio.

Asedau Byw: Bydd ein swyddog coed newydd yn parhau i weithio ar fapio coed sydd yn eiddo i ni, gan fwrw ymlaen gyda datblygu ein Strategaeth Coed a Choetir. Byddwn hefyd yn amcanu at ddeall yn well y bygythiadau a'r atebolrwydd fydd yn deillio o'r Clefyd Coed Ynn.

Cartrefi Cyngor Ynni Effeithlon: Byddwn yn parhau gyda'n rhaglen o welliannau ynni effeithlon i'n stoc cyngor yn ystod 2020 i 2022, yn cynnwys gosod Pymphiau Gwres o'r Awyr mewn 300 o dai.

Strategaeth Twristiaeth: Byddwn yn parhau gyda'n Cynllun Llysgenhadon Twristiaeth, sydd yn cynnwys gwefan gyda modiwlau ac adnoddau hyfforddi ynghylch asedau naturiol a diwylliannol yr ardal. Mae gan y Tîm Twristiaeth fideo newydd sydd yn rhoi sylw i'r cynllun. Mae manylion am y cynllun ar gael yn ein gwefan.

Pobl Ifanc: Lle ble bydd pobl ifanc eisiau byw a gweithio ynddo ac yn meddu ar y sgiliau i wneud hynny

Mesurau: Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Prosiectau: Da

Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol Diweddariad am Fesurau

Mae data sydd wedi cael ei ddilysu ar gyfer blwyddyn ariannol 2019 i 2020 (sydd yn gysylltiedig â blwyddyn academaidd 2018 i 2019) yn dangos bod canran y plant sydd yn cael 5 TGAU A*-C (Lefel 2, Cyfnod Allweddol 4), yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg (iaith gyntaf), mathemateg a Llenyddiaeth Saesneg, yn gosod Sir Ddinbych ar 50.9% o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 53.8%. Perfformiodd pum o'r wyth ysgol uwchradd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd y tair ysgol na lwyddodd i wneud hynny yn gwasanaethu ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd. Roeddem wedi gobeithio ein bod yn dechrau gweld dechrau peth sefydlogi mewn data sydd wedi bod yn ansefydlog iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf; ac yn seiliedig ar sefyllfa Sir Ddinbych roedd yn ymddangos yn sicr mai dyna oedd yr achos oherwydd bod ein perfformiad yn agosach i ble fyddem yn disgwyl iddo fod (o'i gymharu â'r sefyllfa yng Nghymru) ar gyfer y cohort / proffil Prydau Ysgol am Ddim disgyblion yn y Sir. Mae Covid-19 wedi achosi ansefydlogrwydd o'r newydd wrth gwrs i asesu disgyblion, ac ni fydd yna ddata cyhoeddedig ar gyfer cyrhaeddiad eleni, na'r flwyddyn nesaf. Mae hynny yn achosi gwir her i'r cyngor o ran deall sut mae ein hysgolion yn perfformio, ond byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid Gwella Ysgolion yn GwE er mwyn sicrhau bod y deilliannau gorau posibl yn cael eu cyflawni gan ein disgyblion.

Mae Llywodraeth Cymru wedi disodli'r dangosydd mewn perthynas â chanran y disgyblion BI11 sydd wedi cael Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru: CA4 ar Lefel Genedlaethol (Lefel 2), ac nid yw data Awdurdodau Lleol yn cael ei gyhoeddi mwyach. Mae hynny wedi golygu ein bod wedi gorfod addasu sut yr ydym asesu ein perfformiad unwaith eto. Nawr mae'r dangosydd newydd yn cyflwyno cyfartaledd sgôr pwyntiau awdurdodau lleol, ac yn erbyn hwnnw mae Sir Ddinbych wedi sgorio 33.8 yn erbyn cyfartaledd Cymru o 36.4 ar gyfer 2019 i 2020 (blwyddyn ariannol). Mae hynny wedi gwella o 32.4 y flwyddyn flaenorol

ac unwaith eto mae'n ymddangos yn gyson gyda'n sefyllfa proffil o'i gymharu â gweddill Cymru.

Yn seiliedig ar ein harolwg Agweddau Disgyblion at eu Hunain ac Ysgol (PASS) diwethaf, mae canran y disgyblion sydd yn ymateb yn gadarnhaol mewn perthynas â theimladau disgyblion am yr ysgol yn dangos cysondeb da ar 86%. Ond, roedd cau ysgolion oherwydd Covid-19 yn golygu na ellid cwblhau ein harolygon diwedd blwyddyn.

Roedd y data cyhoeddiedig diwethaf (sydd yn gysylltiedig â blwyddyn academaidd 2018 i 2019) ar gyfer presenoldeb ysgolion cynradd wedi codi o 94.5% i 94.9%. Canolrif Cymru oedd 94.7%. Yn Sir Ddinbych roedd yna 93,628 o absenoldebau awdurdodedig (i lawr o 98,933 ar gyfer 2017 i 2018), yn erbyn 42,931 anawdurdodedig (i fyny o 40,969). Mae hynny yn cynrychioli gostyngiad o (-)2.3% mewn absenoldebau ers y flwyddyn flaenorol (136,559, i lawr o 139,902).

Gostyngodd presenoldeb ysgolion uwchradd fymryn o 93.5% i 93.4%. Canolrif Cymru oedd 93.8%. Yn Sir Ddinbych roedd yna 89,682 o absenoldebau awdurdodedig (i fyny o 87,092 ar gyfer y flwyddyn flaenorol, yn erbyn 30,432 anawdurdodedig (i fyny o 28,403). Mae hynny yn cynrychioli cynnydd o 3.9% mewn absenoldebau ers y flwyddyn flaenorol (120,114, i lawr o 115,495). Mae'r cyngor yn parhau i weithio yn agos gydag ysgolion i sicrhau eu bod yn ymgysylltu â phroses cosb benodol y cyngor, a bod y codio cywir yn cael ei gymhwyso i absenoldebau. Mae'r cyngor hefyd wedi sefydlu ymyriadau pan fo wedi canfod nad yw gweithdrefnau ysgol ynghylch absenoldeb yn ddigon cydnerth.

Ar hyn o bryd mae 30 ysgol yn darparu addysg mewn adeiladau sydd â'r categorïau addasrwydd a chyflwr isaf (C a D). Bydd cwblhau Band A a bwrw ymlaen a Band B Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif yn gostwng mwy ar y ffigwr yma.

Mae'r data diweddaraf a ryddhawyd gan Raglen Mesur Plant Cymru yn datgelu dirywiad parhaus o ran pwysau iach plant 4-5 oed Sir Ddinbych (68%), sydd yn ein gosod erbyn hyn yn y 4ydd chwarter (15% yn is na chanolrif Cymru) a'r 2il waethaf yng Nghymru. Mesurwyd bod 343 o blant yn ordrwm neu'n ordew.

Mae data Sir Ddinbych ar gyfer pobl 18-24 oed sydd yn hawlio budd-daliadau cysylltiedig â gwaith yn faes sydd yn achosi pryder i ni. Nid yn unig yr oeddem yn gweld cynnydd cyson mewn rhai oedd yn hawlio drwy gydol 2019 i 2020, ond yn fwyaf arwyddocaol, gydag effaith Covid-19 ar yr economi yn eglur erbyn hyn, mae ffigyrau Ebrill i Fehefin yn

gosod Sir Ddinbych 4.1% y tu ôl i gyfartaledd Cymru. Cyn y pandemig roedd Sir Ddinbych 2% y tu ôl i'r cyfartaledd. Mae hon yn sefyllfa y byddwn yn parhau i'w monitro, ond mae'n tanlinellu pwysigrwydd pib un o'n hymdrechion adfer a chymorth i fusnesau. Gan ddadansoddi'r data ar gyfer 2019 i 20 yn unig, roedd yr amcangyfrif o rai economaidd anweithgar ar gyfer ein poblogaeth yn gymharol gyson, tra bod niferoedd yr ieuencid oedd yn hawlio yn codi ac wedi bod yn codi ers digon o amser i ddadlau bod tuedd yn bodoli. Felly, ni allwn briodoli'r cynnydd yr ydym yn ei weld yn gyfan gwbl i effaith diwygio lles, ac mae'n ymddangos bod y farchnad lafur yn gwaethygu yn achos pobl ifanc yn Sir Ddinbych cyn Covid-19. Roedd hon yn enghraifft a orliwiwyd o'r duedd genedlaethol ble mai hyder busnes yw'r broblem, gan ystyried effaith Brexit hefyd wrth gwrs.

Bwrdd Rhaglen Cynllun Corfforaethol: Diweddariad Prosiect

Rhaglen Moderneiddio Addysg

Mae cefnogi pobl ifanc yn flaenoriaeth i'r cyngor o dan ein Cynllun Corfforaethol, a hyd yma mae dros £90 miliwn wedi cael ei fuddsoddi mewn ysgolion Sir Ddinbych gyda dros 3,500 o ddisgyblion yn elwa o well cyfleusterau.

Ysgol Gatholig Crist y Gair

Mae'r ysgol newydd, a agorodd ym Medi 2019, wedi disodli Ysgol Mair ac ysgol uwchradd Gatholig Edward Jones ac mae'n rhan o Ddeoniaeth Wrecsam. Mae'n darparu ar gyfer 420 o ddisgyblion llawn amser 3-11 oed a 500 o ddisgyblion 11-16 oed, wedi ei hariannu mewn partneriaeth rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Llywodraeth Cymru drwy ei Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae dros £9miliwn wedi cael ei wario gyda busnesau lleol yn ystod y gwaith adeiladu, gyda 70 y cant ohonynt o fewn 30 milltir o'r safle. Mae gwaith allanol yn ysgol newydd Gatholig Crist y Gair yn Y Rhyl wedi cael ei gwblhau a throsglwyddwyd y safle llawn i'r ysgol ym mis Gorffennaf 2020.

Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd

Agorodd yr ysgol ddwyieithog newydd £5.3 miliwn gyferbyn â Bron y Clwyd yn Chwefror 2020. Ariannwyd y prosiect ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Llywodraeth Cymru fel rhan o raglen Ysgolion y 21ain Ganrif mewn partneriaeth â Deoniaeth Llanelwy.

Canolfan yr Iaith Gymraeg

Yn ystod 2019 i 2020 mae'r cyngor wedi bwrw ymlaen â gwaith ar Ganolfan Iaith Gymraeg newydd yn Llanelwy, ar ôl cael £1.3m o arian gan Lywodraeth Cymru. Mae gwaith adnewyddu sylweddol wedi cael ei wneud i drawsnewid yr hen flocc gwyddoniaeth yn Ysgol Glan Clwyd. Bydd y ganolfan yn cynnig darpariaeth iaith Gymraeg ar gyfer pob oedran yn cynnwys i ddisgyblion cyn ysgol, cymorth i hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg yn CA2 a 3, cyfleuster ar gyfer datblygu adnoddau Cymraeg, a chanolfan bosibl ar gyfer partneriaid darparu'r iaith Gymraeg. Hefyd, bydd yr adeilad yn darparu lleoliad ar gyfer darparu cyrsiau sabothol ym Mhrifysgol Bangor, fydd yn hybu sgiliau iaith athrawon. Ein bwriad oedd cyflawni hynny erbyn mis Medi 2020, ac er gwaethaf amharu sylweddol ar y gwaith o ganlyniad i Covid-19, mae hynny yn dal yn gyraeddadwy.

Sefydliadau Gofal Plant

Hefyd sicrhodd y cyngor £2.8m ar gyfer 7 prosiect Canolfannau Gofal Plant ledled y Sir. Yn ystod 2019 i 2020 mae'r cyngor wedi bod yn gweithio ar fwrw ymlaen gyda chynlluniau i ymestyn Canolfan Coeden Dderw yn Y Rhyl, ac i ddarparu cyfleuster gofal plant yn Ysgol Twm o'r Nant. Rydym yn dal yn ystod camau cynnar y gwaith yma, ac wrth gwrs bu oedi o ganlyniad i Covid-19.

Prosiect Maeth Ysgolion

Cafodd ein prosiect maeth ysgolion flwyddyn gyntaf dda, gan gyflogi Cydlynnydd Maeth Ysgolion newydd i ymgysylltu â 9 ysgol i ddechrau, gan weithio mewn partneriaeth agos ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, BCUHB ac Arlwy Ysgolion. Hyd yma mae'r gwerthusiadau gan staff, rhieni a disgyblion wedi bod yn gadarnhaol iawn ynghylch y rhaglen. Mae rhai elfennau o'r prosiect wedi methu â pharhau yn ystod y cyfod o gau ysgolion, ond mae ein grŵp prosiect wedi cyfarfod yn ystod yr haf er mwyn ystyried ffyrdd eraill o ddarparu allai yn y pen draw wneud y prosiect yn fwy cynaliadwy yn yr hirdymor. Mae'r ffordd y bydd blwyddyn 2 y prosiect yn cael ei ddarparu yn cael ei ystyried ar hyn o bryd a bydd hynny yn dibynnu ar arweiniad gan Lywodraeth Cymru ac i ba raddau mae ysgolion yn gallu cynnal y rhaglen ynghyd â mesurau diogelwch Covid-19.

Cymorth i Rieni

Mae cynnydd cadarnhaol wedi cael ei wneud yn ystod 2019 i 2020 o ran adolygu ein Strategaeth Rhiantu ar gyfer Sir Ddinbych. Effeithiwyd a gynnydd y maes gwaith gan

Covid-19, ond mae'r gwaith yr ydym wedi ei wneud ar gyfer gweithredu dull Solihull wedi bod yn arbennig o fuddiol yn ystod y cyfnod clo, a bu defnydd sylweddol ar ein cwrs ar-lein gyda dros 500 o rieni yn cael mynediad at y ddarpariaeth. Rydym hefyd wedi newid y ffordd yr ydym yn darparu cymorth, gan gynnig gwasanaeth ffôn yn hytrach na grwpiau rhiantu wyneb yn wyneb. Mae'n enghraifft wych arall o hyblygrwydd yn cael ei ddangos gan ein prosiectau. Mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB) mae'r cwrs Solihull wedi cael ei roi ar gael ar-lein i rieni tan Tachwedd 2022.

Gofod i Entrepreneuriaid

Yn ystod 2019 i 2020 mae'r cyngor wedi bwrw ymlaen gyda throsi'r hen dafarn Costigans yn Y Rhyl ar gyfer darparu hyb sgiliau digidol a entrepreneuriaid ar gyfer busnesau newydd mentrus, gyda'r cyngor a'r rhwydweithiau sydd eu hangen i'w helpu i lwyddo mewn sector ddigidol sydd yn tyfu. Er yr oedi a achoswyd gan Covid-19, mae gwaith cyfalaf yn agosáu at gael ei orffen. Bydd yn ofod newydd cyffrous i'n trigolion.

TechZone

Rydym i bob pwrpas wedi rhewi'r prosiect yma nes y gellir sicrhau arian allanol. Er hynny, rydym wedi parhau i ddatblygu ein achos busnes ar gyfer y prosiect ac yn arwain y prosiect drwy broses gymeradwyo'r awdurdod er mwyn helpu i gael y cymorth allanol hwnnw.

Bwrsariaeth Cyflogaeth Pobl Ifanc

Er gwaethaf pryderon cychwynnol ynghylch y defnydd araf o'r fwrsariaeth, roedd y prosiect yn cyflawni ei amcan allbynnau am o gost nag a ddisgwyliwyd yn wreiddiol yn ystod 2019 i 2020. Rydym yn disgwyl helpu rhwng 10 i 40 unigolyn gyda chyllideb gychwynnol o £20k; ond mae'r fwrsariaeth wedi cymeradwyo ei ymgeiswyr gan ddefnyddio hanner y gyllideb a ddyrannwyd, a gallai hynny o bosib ein galluogi i gynorthwyo mwy o unigolion na'r disgwyl. Yn amlwg mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar brosiect y fwrsariaeth gyda llai o geisiadau yn cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod clo, a nifer o ddarparwyr cyrsiau addysg a hyfforddiant yn peidio â darparu. Mae yna ansicrwydd ar hyn o bryd ynghylch beth fydd y galw am y fwrsariaeth yn y dyfodol, ond mae'r cyngor yn dal yn ymrwymedig i'r fwrsariaeth, a hynny yn rhannol fel ffordd o ysgogi adfywiad.

Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol (PASS)

Fel y soniwyd, mae ein data PASS yn parhau i baentio darlun cadarnhaol o deimladau disgyblion tuag at ysgol, ond mae hefyd yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr i ysgolion i les eu disgyblion. Wrth symud ymlaen bydd hyn mor bwysig ag erioed, wrth i blant ailaddasu i'r normal newydd yn yr ysgolion ar ôl y cyfnod clo. Wrth i ni ddysgu mwy am sut y bydd ysgolion yn gweithredu wrth symud ymlaen, byddwn yn ystyried sut y gallai arolwg PASS gael ei ddefnyddio orau. Rydym wedi cynnal trafodaethau er mwyn amrywio ein contract yn ddarostyngedig i sut a phryd y bydd ysgolion yn ailagor i ddisgyblion, ond yn bennaf oll rydym eisiau sicrhau y bydd yr arolwg yn parhau i fod ar gael i'r holl ysgolion yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol.

Dechrau Gweithio

Cyn y cyfnod clo, roedd y prosiect yn cyflawni yn rhagorol yn erbyn ei ddeilliannau, gan lwyddo i recriwtio a darparu 16 o leoliadau cyflogedig a 10 o leoliadau heb gyflog. Roedd 5 lleoliad arall i fod yn fynd rhagddynt ym mis Mawrth ond yn anffodus bu iddynt gael eu rhewi o ganlyniad i Covid-19.

Erbyn hyn rydym wedi cytuno ar fodel cyflawni newydd, ond un mwy cynaliadwy, ar gyfer Dechrau Gweithio, fydd yn adeiladu ar y cynllun presennol a gobeithio yn ychwanegu gwerth i gyfranogwyr a'r cyngor. Gall cyfranogwyr ddisgwyl pecyn mwy cynhwysol o gymorth a hyfforddiant sydd yn gwella eu gobeithion cyflogaeth ar ôl lleoliad drwy ddarparu sgiliau cyn-cyflogaeth a hyfforddiant achrededig ochr yn ochr â lleoliad gwaith. Byddwn hefyd yn cynnig cyfle i fusnesau bach ar draws y Sir i ymuno â'r cynllun yma, gan ddarparu pecyn o gymorth pan fo'r angen i roi cyfle iddynt ddefnyddio lleoliad gwaith i gefnogi busnes i oroesi neu dwf am risg bychan neu ddim risg o gwbl iddyn nhw eu hunain.

Barod i Weithio Sir Ddinbych yn Gweithio

Cynhaliodd Sir Ddinbych yn Gweithio, mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru, dair ffair yrfaoedd Barod i Weithio lwyddiannus a fynychwyd yn dda; un yn Ninbych, un ym Mhrestatyn ac un yn Llangollen. Mynychodd dros 70 o gyflogwyr a darparwyr y digwyddiadau oedd yn cynnig detholiad eang o ddarparwyr er mwyn helpu i gyfoethogi profiadau myfyrwyr a'u hymestyn tu hwnt i amgylchedd yr ysgol. Roedd y ffeiriau

gyrfaoedd eleni yn rhyngweithiol iawn gyda'r holl arddangoswyr ag elfen ymgysylltiol neu weithgaredd yn rhan o'u stondinau. Wrth adael y digwyddiad gwahoddwyd pob myfyriwr i roi adborth ynghylch a oeddent yn meddwl bod y digwyddiad yn 'ddefnyddiol iawn', 'defnyddiol' neu 'ddim yn ddefnyddiol'. Dywedodd 75% o'r myfyrwyr bod y digwyddiad yn 'Ddefnyddiol iawn', dywedodd 24% ei fod yn 'ddefnyddiol' a dim ond 1% ddywedodd ei fod 'ddim yn ddefnyddiol'. Mae grwpiau ffocws wedi cael eu cynnal gyda rhai o'r myfyrwyr a fynychodd y digwyddiadau, ac roedd adborth yn cynnwys dyfyniadau megis 'agorodd fyd cyfan o gyfleoedd mewn un ystafell'.

Mae ymchwil yn mynd rhagddo ar hyn o bryd er mwyn archwilio platfformau sydd ar gael ar gyfer darparu'r prosiect yn rhithwir yn y dyfodol, a thrafodaethau gyda sefydliadau a chyflogwyr er mwyn helpu i hysbysu sut y gall y digwyddiadau gyrfaoedd edrych er mwyn bodloni'r 'ffyrdd newydd o weithio'. Bydd gwerthusiad opsiynau a chynlluniau wedi eu hailfodelu yn cael eu cyflwyno i'n Bwrdd Rhaglen Cynllun Corfforaethol i'w hystyried.

Hyb Buddion i'r Gymuned

Yn ystod 2019 i 2020 sefydlodd y Cyngor Hyb Buddion i'r Gymuned newydd, sydd yn amcanu at wneud y mwyaf o effaith y £100miliwn y mae'r cyngor yn ei wario bob blwyddyn ar gyflenwyr a contractwyr trydydd parti. Mae Sir Ddinbych eisiau gweithio gyda'r cyflenwyr a'r contractwyr trydydd parti hynny er mwyn credu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach i'n cymunedau. Mae'r dull Budd cymunedol yn dod yn fwy a mwy cyffredin mewn prosesau caffael y sector cyhoeddus a gall ychwanegu gwerth a chynyddu'r adnoddau sydd ar gael i gymunedau yn Sir Ddinbych. Gall buddion cymunedol gynnwys: cyfleoedd swyddi a hyfforddiant wedi'u targedu; help a chymorth i grwpiau a sefydliadau lleol; ymrwymadau real a mesuradwy er mwyn gwneud y mwyaf o fynediad i gyfleoedd ar gyfer llafur lleol, isgcontractwyr lleol a chadwyn gyflenwi leol; gwelliannau i ardaloedd lleol megis datblygiad; a chynnal asedau cymunedol cyffredin, clirio yn gyffredinol a phlannu coed etc. Mae ein Hyb wedi bod yn weithredol ers Mawrth 2020.

Gwirfoddoli

Rydym eisiau ei gwneud yn haws i ddenu a recriwtio gwirfoddolwyr. Erbyn hyn rydym yn hyrwyddo'r holl gyfleoedd gwirfoddoli drwy [un dudalen we wirfoddoli ganolog](http://www.denbighhire.gov.uk/volunteering) gydag URL byr: www.denbighhire.gov.uk/volunteering. Mae polisi a dogfennau ategol yn cael eu

datblygu gyda HR Direct. Bydd y rhain ar gael ar y dudalen we ar ôl ymgynghori ar hynny a'i fabwysiadu.

Mesurau Blynyddol neu Bob 6 Mis

Mesur	2018 i 2019	2019 i 2020	Statws
Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd - Meincnodwyd yn Genedlaethol	94.5	94.9	Derbyniol
Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd - Meincnodwyd yn Genedlaethol	93.5	93.4	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y plant 4-5 oed sydd â phwysau iach neu sydd o dan eu pwysau (adroddwyd flwyddyn ar ôl) - Meincnodwyd yn Genedlaethol	67.7	Disgwyl y data	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Cyfartaledd Sgôr Pwyntiau Awdurdodau Lleol - Dangosydd Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru - Meincnodwyd yn Genedlaethol	32.4	33.8	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y plant sydd yn cael 5 TGAU A*-C (Lefel 2, CA 4), yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg (iaith gyntaf), Mathemateg a Llenyddiaeth Saesneg, erbyn diwedd ysgol uwchradd, yn erbyn y canran a gyrhaeddodd y safon ddisgwyliedig ar ddiwedd ysgol gynradd (Lefel 4, CA 2) - Meincnodwyd yn Genedlaethol	48.7	50.9	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y trigolion sydd yn fodlon bod yna gyfleoedd swyddi i bobl ifanc ar ddechrau eu gyrfaedd - Meincnodwyd yn Lleol	19	Ddim yn gymwys Dim arolwg	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y trigolion sydd yn fodlon bod yna gyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau - Meincnodwyd yn Lleol	28	Ddim yn gymwys Dim arolwg	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y trigolion sydd yn fodlon bod yna gyfleoedd hamdden sydd yn apelio i bobl ifanc - Meincnodwyd yn Lleol	50	Ddim yn gymwys Dim arolwg	Derbyniol

Mesur	2018 i 2019	2019 i 2020	Statws
Nifer yr ysgolion sydd yn darparu addysg drwy gategoriâu addasrwydd a chyflwr C a D - Meincnodwyd yn Lleol	34	30	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Mesurau Chwarterol neu Bob 6 Mis

Mesur	Chwarter 1 2019 i 2020	Chwarter 2 2019 i 2020	Chwarter 3 2019 i 2020	Chwarter 4 2019 i 2020	Chwarter 1 2020 i 2021	Statws
Canran y boblogaeth 18 i 24 oed sydd yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith - Meincnodwyd yn Genedlaethol	6.1	6.2	6.5	6.7	13.1	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y disgyblion (gan ddefnyddio Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol (PASS)) sydd yn ymateb yn gadarnhaol ynghylch teimladau disgyblion am ysgol - Meincnodwyd yn Lleol	81.7	Ddim yn gymwys Chwemi sol	86.1	Ddim yn gymwys Chwemi sol	Dim data oherwyd Covid-19.	Da

Cynnydd Prosiectau

Mae'r prosiectau canlynol ar darged:

- Gofod i Entrepreneuriaid, Y Rhyl
- Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol Arolwg

- Prosiect Maeth Ysgolion
- Hyb Buddion i'r Gymuned

Mae'r prosiectau canlynol yn wynebu rhwystrau:

- Bwsariaeth Cyflogaeth Pobl Ifanc
- Barod i Weithio Sir Ddinbych yn Gweithio
- Rhaglen Moderneiddio Addysg
- TechZone
- Cymorth i Rien

Mae'r prosiect canlynol yn wynebu risg:

- Cynllun Dechrau Gweithio Sir Ddinbych

Astudiaethau achos

Stori Dan

Mae'r cyfnod clo o ganlyniad i Covid-19 wedi bod yn amser heriol i nifer o unigolion, ac nid oedd Dan yn eithriad. Mae wedi cael cymorth gan fentor Cymunedau Gweithio ers dros flwyddyn, ac yn ystod yr amser hwnnw mae wedi dangos penderfyniad ac ymrwymiad mawr, gan gwblhau lleoliadau gwaith a dechrau gwirfoddoli. Bu i wirfoddoli gynyddu sgiliau a hyder Dan a helpu i wella ei iechyd meddwl yn sylweddol. Ond pan ddaeth y cyfnod clo i rym, dioddefodd Dan gyda'i iechyd meddwl oherwydd na allai wirfoddoli mwyach, a lleihaodd ei ryngweithio â phobl oherwydd ei fod yn byw ar ei ben ei hun. Roedd ei fentor yn parhau i gadw mewn cysylltiad yn rheolaidd drwy e-bostion a galwadau ffôn gan gefnogi Dan i ymgysylltu â thasgau allai ei gadw'n brysur tra'n gwella ei sgiliau hefyd. Yna daeth cyfle am swydd yn y trydydd sector a hysbyswyd Dan am y cyfle hwnnw gan ei fentor. Roedd gan Dan ddiddordeb mawr yn y rôl yma oherwydd ei fod wedi bod eisiau

dilyn gyrfa o helpu pobl. Cafodd gymorth gan ei fentor i gwblhau'r cais a llwyddodd i sicrhau cyfweiliad. Cafod Dan gymorth gan ei fentor a Chydlynnydd Cyflogaeth Sir Ddinbych yn Gweithio o ran paratoi ar gyfer cyfweiliad drwy gyfrwng nifer o alwadau fideo.

Llwyddodd Dan yn y cyfweiliad ac erbyn hyn mae mewn cyflogaeth lawn amser; am y tro cyntaf mewn 9 mlynedd. Mae Dan wedi dangos penderfyniad mawr, ac er ei fod wedi cael anhawster yn ystod yr adegau ansicr iawn, nid yw wedi gadael i hynny fod yn rhwystr iddo rhag cyrraedd y nod o ddychwelyd i gyflogaeth.

Datblygu Cynaliadwy

Mae yna ffocws cryf mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon ar les meddyliol a pharatoi 'sgiliau bywyd' pobl ifanc. Mae'r pwyslais yma yn ganlyniad uniongyrchol i gynnwys pobl ifanc yn yr ymarferiad Sgwrs y Sir, gyda'r nod o atal amgylchiadau fyddai yn effeithio ar allu person ifanc i ffynnu. Drwy ein Sgwrs y Sir gyda phobl ifanc, rydym hefyd wedi gallu deall yn well beth yw eu dyheadau i'r dyfodol, ac yn benodol y mathau o swyddi fydd yn fuddiol, proffidiol a phleserus i bobl ifanc. Gan gofion am hynny mae nifer o brosiectau cysylltiedig â'r flaenoriaeth hon yn amcanu nid yn unig i ddarparu cymwysterau i bobl ifanc, ond i ddarparu swyddi a sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y genhedlaeth nesaf o waith.

Mae ein rhaglen foderneiddio addysg, y mae Band A newydd gael ei gwblhau, wedi esblygu dros y blynyddoedd, ond o hynny rydym wedi dysgu gwersi gwerthfawr ynghylch cynnwys disgyblion, rhieni, trigolion a staff o ran sipio dyluniad ein hysgolion, a chyn belled â phosibl ymdrechu i ategu safonau amgylcheddol fydd yn sicrhau hirhoedledd ein safleoedd i genedlaethau i ddod.

Mae'r cyngor hefyd wedi buddsoddi'n drwm yn Y Rhyl, drwy raglen strategol o brosiectau o'r enw 'Uwch Gynllun Y Rhyl'. Fel rhan o'r rhaglen, mae'r gwaith o adnewyddu glannau Y Rhyl wedi derbyn buddsoddiad o £25m gyda'r bwriad o ddarparu hwb i economi Y Rhyl a chreu dros 250 o swyddi.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn Sir Ddinbych rydym yn gwybod bod pobl angen y dechrau gorau mewn bywyd er mwyn parhau i dyfu i fod yn hapus, iach a ffyniannus. Drwy'r Cynllun Corfforaethol rydym wedi gwneud darpariaeth i gynnig yr un cyfleoedd i'r holl bobl ifanc.

Mae mwy o waith wedi cael ei wneud yn 2019 i 2020 er mwyn ymgorffori a deall yr allbwn o Arolwg Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol (PASS), sydd erbyn hyn wedi cael ei gyflwyno i bob ysgol gynradd ac uwchradd. Mae'r arolwg yma yn sgorio agwedd ac ymddygiad ein pobl ifanc yn erbyn ffactorau lles allweddol, wedi eu meincnodi yn erbyn ysgolion eraill yn y DU sydd hefyd yn defnyddio'r adnodd. Ar lefel ysgol a disgybl gall y data helpu i ddatgelu anghydraddoldebau yn ystod cam cynnar oherwydd mae'r data wedi ei ddadansoddi yn ôl rhyw, blwyddyn, ethnigrwydd, prydau ysgol am ddim, a disgyblion sydd â Saesneg fel ail iaith. Mae'r prosiect yn amcanu at gynorthwyo plant i ystyried meysydd i wella, gan waredu rhwystrau i ddysgu i'n pobl ifanc.

Mae rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif hefyd yn ystyried ystyriaethau allweddol mewn perthynas â'r amgylchedd dysgu:

- Mynediad - yn arbennig i bobl â namau symudedd, gellir ystyried ystod i ganllawiau cynllunio a rheoliadau adeiladu.
- Cyfleusterau ar sail rhyw - mae darparu cyfleusterau priodol ar gyfer disgyblion trans wedi bod yn fater yn y gorffennol yn y Sir ac mae angen ystyried hynny.
- Darparu cyfleusterau ar gyfer addoliad crefyddol.

Er mwyn amrywio'r lleisiau a glywir o ran rhedeg ein hysgolion, datblygodd y cyngor ymgyrch hyrwyddo er mwyn annog unigolion o gefndiroedd amrywiol i fod yn llywodraethwyr ysgolion.

Mae Sir Ddinbych yn Gweithio wedi parhau â'i fenter i gefnogi pobl nad ydyn yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf. Mae'n amcanu at eu helpu ar eu taith i gyflogaeth, cyfeiriadedd diwylliannol, lleoliadau gwirfoddoli, a'u helpu i integreiddio i'w cymunedau lleol a lleihau allgau cymdeithasol. Mae'r cyrsiau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yn cael eu darparu mewn partneriaeth ag Addysg Oedolion Cymru.

Astudiaeth Achos

Stori Julie

Roedd Julie yn gwneud ceisiadau parhaus am swyddi cyn y cyfnod clo ac wedi mynychu nifer o gyfweiliadau. Ond, wrth i'r cyfnod clo achosi i gyfweiliadau swydd gael eu gohirio eu eu canslo, collodd Julie nifer o gyfleoedd oherwydd yr ansicrwydd y sefyllfa oedd yn newid yn barhaus. Ond, nid wnaeth hynny rwystro Julie, a gyda chymorth dros y ffôn gan ei mentor parhaodd i wneud cais am rolau yn maes gweinyddu, yn benodol yn y GIG oherwydd mai yno mae ei hangerdd. Gyda chymorth ac anogaeth barhaus gan ei mentor, sicrhaodd Julie gyfweiliad ar gyfer swydd llanw yn y GIG. Yna dechreuodd ymarfer ac ymchwil trylwyr gyda'i mentor o ran ymarfer ar gyfer cyfweiliad, oedd yn golygu bod Julie yn mynd i'w chyfweiliad yn hyderus a brwdfrydig. Derbyniodd Julie alwad ffôn yn ddiweddarach yr wythnos honno yn dweud nad oeddent yn dymuno cynnig y swydd llanw iddi, ond eu bod yn dymuno cynnig swydd lawn amser barhaol iddi! Roedd Julie wrth ei bodd ac ni allai gredu eu bod wedi cynnig y cyfle hwn iddi yn ystod ansicrwydd Covid-19.

Ond nid dyna oedd diwedd y stori, oherwydd roedd gan Julie gyflwr iechyd tanategol, ac oherwydd Covid-19 roedd yn rhaid i'w rheolwr newydd gwblhau gwiriadau gyda'i harbenigwr cyn y gallai ddechrau ar ei swydd newydd yn yr ysbyty. Cymerodd hynny lawer mwy o amser na'r arfer a golygodd bod raid i Julie ddisgwyl am 2 fis cyn ei bod yn gallu dechrau yn ei swydd newydd. Drwy gydol yr ansicrwydd yma derbyniodd gymorth gan ei mentor oed ar ben arall y ffôn pryd bynnag yr oedd angen help. Erbyn hyn mae Julie yn mwynhau ei rôl newydd yn fawr iawn ac wrth ei bodd gyda her y swydd newydd yn y GIG.

Beth ydym yn ei wneud yn 2020 i 2021?

Byddwn yn parhau i gyflawni mewn perthynas â'r prosiectau sydd yn cefnogi'r flaenoriaeth yma drwy gydol 2020 i 2021.

Moderneiddio Addysg: Byddwn yn parhau i gyflawni rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif, gan foderneiddio cyfleusterau ysgolion er mwyn sicrhau bod gan ein plant amgylchedd dysgu sydd yn cefnogi eu haddysg. Yn benodol bydd hynny yn cynnwys gweithio ar ddatblygu Band B y rhaglen, gan ganolbwyntio ar Langollen, Dinbych a'r Rhyl.

Prosiect Maeth Ysgolion: Fel sy'n briodol byddwn yn parhau gydag ail flwyddyn y prosiect, tra hefyd yn archwilio opsiynau rhithwir ar gyfer darparu. Gobeithio y bydd 10 ysgol arall yn cael eu recriwtio.

Cymorth i Rieni: Yn ystod 2020 i 2021 byddwn yn cwblhau ein Strategaeth Rhiantu, gan archwilio ein hopsiynau ar gyfer darparu o dan gyfyngiadau Covid-19.

Gofod i Entrepreneuriaid a TechZone: Byddwn yn cwblhau gwaith ar safle Costigans er mwyn darparu gofod busnes newydd i drigolion. Yn ddibynnol ar gyllid, byddwn hefyd yn bwrw ymlaen gyda'n achos busnes ar gyfer y Techzone, gan darparu lleoliad 'symud ymlaen' yn Llanelwy i fusnesau sydd yn tyfu.

Bwrsariaeth Cyflogaeth Pobl Ifanc: Bydd y cyngor yn parhau i gynnig y fwrsariaeth i helpu pobl ifanc sydd mewn cyflogaeth i ddatblygu eu gyrfaedd. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i hyn yn arbennig yn ystod cyfnod pan fo adferiad economaidd mor bwysig. Gall y Fwrsariaeth Cyflogaeth helpu hyd at 80 o unigolion y flwyddyn gyda chyllid o rhwng £250 a £2,000 y person. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn ein gwefan.

Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol: Mae'r un mor bwysig ag erioed i ni bod gan ysgolion yr adnoddau priodol i asesu lles eu disgyblion. Yn ddibynnol ar y ffordd y bydd ysgolion yn gweithredu o dymor yr hydref ymlaen, byddwn yn parhau i archwilio opsiynau ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn gwneud defnydd gwerthfawr o'r arian.

Dechrau Gweithio a Barod i Weithio: O Hydref 2020 byddwn yn gweithredu modelau darparu newydd ar gyfer y ddau brosiect yma fel na fydd buddion y gwaith yn cael eu colli o dan gyfyngiadau Covid-19.

Hyb Buddion i'r Gymuned: Byddwn yn chynnig sesiynau gwybodaeth o ddechrau Medi 2020 ar gyfer staff Sir Ddinbych er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o Fuddion Cymunedol a gwaith yr Hyb. Bydd y rhain yn cael eu targedu yn arbennig at y rhai sydd yn ymwneud â chomisiynu nwyddau, gwaith neu wasanaethau.

Gwirfoddoli Erbyn Mawrth 2021, byddwn yn datblygu polisi gwirfoddoli diwygiedig ar gyfer y cyngor sydd yn cefnogi ein huchelgais fel awdurdod ar gyfer lles a datblygiad staff, ond hefyd anghenion y gymuned a'r amgylchedd.

Datblygu Cynaliadwy

Mae datblygu cynaliadwy wedi cael ei ymgorffori i'r ffordd yr ydym yn gwneud pethau yng Nghyngor Sir Ddinbych, ac mae'n ystyriaeth allweddol ar gyfer ymagwedd ein bwrdd rhaglenni ar gyfer cyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol.

Mae ein gwefan Asesiad o'r Effaith ar Les, gaiff ei ddefnyddio'n helaeth gan staff ac y cyfeiri ati gan gynghorwyr er mwyn galluogi penderfyniadau yn well ar sail gwybodaeth, yn gwirio i ba raddau y mae egwyddorion Datblygu Cynaliadwy wedi cael eu cymhwyso i unrhyw brosiect penodol, yn ogystal ag effaith debygol (cadarnhaol neu fel arall) yng nghyd-destun y saith nod lles.

Mae proses ar gyfer ystyried ac ymateb i Risg Cymunedol wedi cael ei dyfeisio, pan fo risgiau ledled y Sir yn cael eu cofnodi a'u hadlewyrchu yn ein Asesiad o Les Lleol er mwyn ein galluogi i adnabod blaenoriaethau.

Rydym hefyd wedi cydnabod bod ein dull o ymgysylltu wedi bod angen ei newid, fel bod trigolion yn rhan o'r trafodaethau ynghylch penderfyniadau sydd yn effeithio arnynt yn llawer cynharach yn y broses nag o'r blaen. Er mwyn hwyluso hynny, mae Porth Sgwrs y Sir wedi cael ei lansio er mwyn ein galluogi i drefnu ein gweithgaredd ymgysylltu yn well, a monitro'r dull a ddefnyddir er mwyn ein galluogi i chwilio am gyfleoedd i wella yn barhaus.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Drwy'r prosiectau yr ydym yn eu cynnal, mae'r Cynllun Corfforaethol yn ymrwmo'r cyngor i:

- Ymgysylltu, pan fo'n briodol, gyda grwpiau sydd yn cynrychioli pobl â nodweddion gwarchoddedig.
- Ystyried cyfyngiadau i fynediad corfforol, yn arbennig adeiladau newydd, ond hefyd mewn perthynas â mynediad i wybodaeth a gwasanaethau.
- Ystyried priodoldeb y cyfleusterau sydd ar gael i ni yn rhan o ystâd y cyngor i'w ddefnyddio gan y bobl hynny sydd â nodweddion gwarchoddedig.

- Ymgysylltu, herio a pan fo'n bosibl gwaredu rhwystrau i gyfleoedd (yn cynnwys gwaith) yn achos rhai â nodweddion gwarchoddedig.
- Condemnio bwlio ac aflonyddu cysylltiedig â chasineb.

Mae ein prosesau rheoli prosiectau a rhaglenni, sydd yn cefnogi darparu'r holl brosiectau yn y Cynllun Corfforaethol, yn gorfodi'r egwyddorion yma; ac yn benodol, mae ymagwedd y cyngor at Asesiadau o'r Effaith ar Les mewn perthynas â'r holl brosiectau, cynlluniau a pholisïau y mae angen penderfynu arnynt wedi ei ymgorffori'n dda ac yn ddealedig gan staff a cyngorwyr.

Mae ein tudalennau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar ein gwefan hefyd n dathlu amrywiaeth ac yn hyrwyddo cydraddoldeb ym mhopeth yr ydym yn ei wneud er mwyn gwella ansawdd bywyd i bawb sydd yn byw, gweithio ac yn ymweld â Sir Dinbych.

Mae camau eraill sydd yn cefnogi ein Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cynnwys:

Hyfforddiant

Rydym yn darparu hyfforddiant i'n staff drwy fodiwl e-ddysgu ar gydraddoldeb. Mae'r hyfforddiant yma yn cael ei ddarparu i bob gweithiwr newydd, ac mae'n orfodol i'r holl bersonél.

Ymgysylltu

Defnyddir ein Porth Sgwrs y Sir i ganfod beth sydd yn fwyaf pwysig i'n cymunedau ac mae'n ein helpu i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y meysydd priodol. Roedd yr holl waith a wnaethpwyd yn flaenorol ar ein Sgwrs y Sir yn cynnwys cyswllt â grwpiau nodweddion gwarchoddedig.

Mae'r cyngor hefyd yn aelod o Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (NWPSSEN), sydd yn fforwm gwerthfawr ar gyfer rhannu arferion gorau a gwersi ynghylch materion cydraddoldeb y mae'r sector cyhoeddus yn eu hwynebu. Mae aelodaeth NWPSSEN yn cynnwys y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Llywodraeth Cymru.

Adroddiadau Eraill Ar Gydraddoldeb

Bob blwyddyn mae'n ofynnol i ni fel Awdurdod Lleol i gyhoeddi adroddiadau sydd yn manylu ar ein hymrwymiad a'n cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cydraddoldeb, ac i adrodd yn rheolaidd ar systemau cyflogau ac asesu cydraddoldeb cyflogau.

Yng Nghyngor Sir Ddinbych rydym yn cefnogi egwyddor amrywiaeth a chydaddoldeb oherwydd ein bod angen pobl o gefndiroedd amrywiol i sicrhau ein bod yn cynrychioli'r Sir. Rydym yn rhwymedig i ddarparu cyflog cyfartal am waith o werth cyfartal ac yn amcanu at ddarparu strwythur cyflogau teg.

Rydym wedi cynhyrchu adroddiad Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar gyfer 2018 i 2019 sydd yn nodi ein hymrwymiad a chydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth hon. Rydym hefyd wedi creu Adroddiad Cyflogau'r Rhywiau 2018 i 2019 sydd yn adolygu'r enillion cyfartalog rhwng dynion a merched yn y cyngor. [Cliciwch yma i weld yr adroddiadau diweddaraf.](#)

Yr Iaith Gymraeg

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn hollol ymrwymedig i ymateb yn gadarnhaol i safonau'r iaith Gymraeg, ac mae hynny wedi cael ei adlewyrchu yn ein Strategaeth yr Iaith Gymraeg 5 mlynedd. Nid yw'r ymrwymiad hwnnw wedi newid ac rydym yn parhau i chwarae ein rhan mewn ymdrechion cenedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae'r dyletswyddau sydd yn deillio o'r safonau yn golygu na ddylai'r cyngor drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn ogystal â hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg (gan ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio eu sgiliau iaith Cymraeg bob dydd). Bydd angen adolygu'r strategaeth hon yn 2020 i 2021 fel ei bod yn weithredol erbyn 2022, felly ein blaenoriaeth yw darparu strategaeth ar gyfer y 10 mlynedd nesaf fydd yn pennu nod a thargedau uchelgeisiol er mwyn sicrhau bod Sir Ddinbych yn Sir ble mae diwylliant a threftadaeth Cymraeg yn fyw a ble mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu.

Mae gan bob gwasanaeth yn y cyngor Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg sydd yn rheolaidd yn monitro cynnydd yn erbyn y safonau, yn rhannu arferion gorau ac sydd yn gweithredu fel 'ffrind beirniadol'. Maent yn cynnal gwiriadau 'siopwr dirgel' ac yn trefnu sesiynau ymwybyddiaeth a gweithgareddau i gydweithwyr a dysgwyr.

Yn ddiweddar cynhaliodd y cyngor ei ail Eisteddfod staff oherwydd iddo fod yn ddigwyddiad poblogaidd iawn y llynedd. Mae'r digwyddiad yn rhan o ymdrechion y cyngor i godi proffil a dealltwriaeth o'r iaith, a dathlu diwylliant Cymru. Mae'n dod ar adeg pan fo yna lawer o ffocws ar yr Iaith Gymraeg a'r Eisteddfod yn dychwelyd i Sir Ddinbych ym Mai 2021. Roedd yr ymateb a'r gefnogaeth a dderbyniwyd yn rhyfeddol, gyda dros 60 o aelodau staff yn cystadlu. Mae cynlluniau eisoes ar y gweill ar gyfer 2021.

Rydym eisiau cefnogi cyflogeion ar eu taith iaith. Rydym yn annog cyflogeion i ymarfer, ac rydym yn trefnu gwahanol gyfleoedd anffurfiol drwy gydol y flwyddyn yn cynnwys:

- Te a Sgwrs: Sesiynau anffurfiol er mwyn gwella hyder staff o ran siarad Cymraeg.
- Côr Staff: Ffurfiwyd Côr Sain y Sir yn 2018 ac mae ganddo 20 o aelodau yn cynnwys dysgwyr Cymraeg a siaradwyr rhugl. Maent yn canu caneuon Cymraeg ac yn perfformio mewn gwahanol ddigwyddiadau megis gwasanaeth carolau y cyngor a gwobrau tai cymunedol.
- Clwb Cerdded Cymraeg: Mynd am deithiau cerdded unwaith yr wythnos yn ystod amser cinio er mwyn ymarfer siarad Cymraeg.
- Trefnu amrywiol ffyrdd / gweithgareddau ar gyfer dathlu digwyddiadau cenedlaethol Cymru megis Diwrnod Santes Dwynwen, Diwrnod Gŵyl Dewi, Owain Glyndŵr, Shwmae Su'mae, diwrnod Cerddoriaeth Gymraeg, a llawer mwy.

Hefyd mae'n ofynnol i'r holl wasanaethau gynhyrchu cynllun gweithlu blynyddol y mae'n rhaid iddo ystyried nifer y siaradwyr Cymraeg a gyflogir yn y gwasanaeth. Gofynnir i bob pennaeth gwasanaeth ystyried a oes ganddynt ddigon o siaradwyr Cymraeg er mwyn gallu darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog i'r cyhoedd.

Rydym wedi cyflwyno fframwaith newydd i'r staff er mwyn hunanasesu eu sgiliau iaith yn seiliedig ar y math o dasgau cyfathrebu (darllen, ysgrifennu, siarad a deall) y gallent yn cynnal yn y Gymraeg. Mae hon yn ffordd effeithiol o allu monitro pa lefel o sgiliau sydd ei angen ar gyfer y swydd, a pha gwrs ac ar ba lefel mae cyflogeion angen symud iddo nesaf.

Mae'r cyngor yn aelod actif o bartneriaeth yr Iaith Gymraeg. Mae'r fforwm yn cynnwys nifer o sefydliadau, yn lleol a chenedlaethol, sydd yn gweithio ar hyrwyddo a datblygu strategol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yma yn Sir Ddinbych.

Ein gweledigaeth yw creu mwy o gyfleoedd ar gyfer defnyddio'r iaith Gymraeg yn y gweithle, gyda mwy o bwyslais ar gynnwys gofynion iaith Gymraeg ar gyfer swyddi newydd drwy:

- Gefnogi staff i ddatblygu mwy ar eu sgiliau er mwyn gallu gweithio'n naturiol yn ddwyieithog, ac annog a chefnogi staff nad oes ganddynt sgiliau iaith Gymraeg i dysgu'r iaith dros gyfnod o amser.
- Mabwysiadu polisi recriwtio fydd n galluogi'r cyngor i normaleiddio'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ei waith gweinyddol dyddiol a'r gwasanaethau mae'n eu darparu. Fel blaenoriaeth, bydd yn canolbwyntio ar yr adrannau sydd yn cynnig gwasanaethau rheng flaen i gwsmeriaid.

Rydym wedi datblygu modiwl e-ddysgu mandadol sydd yn darparu cefndir i ddatblygu'r iaith Gymraeg, ac mae yna hefyd gyfle i gyflogeion sydd â di ychydig o sgiliau iaith Gymraeg neu ddim o gwbl i gwblhau cyrsiau ar-lein 10 awr drwy gynllun 'Cymraeg Gwaith'.

Cofrestr Prosiectau

Bob chwe mis mae Uwch Dîm Arwain (SLT) y cyngor yn derbyn diweddariad ar yr holl brosiectau corfforaethol sydd yn mynd rhagddynt yn Sir Ddinbych. Mae'r Gofrestr Prosiectau (Atodiad1) yn darparu'r wybodaeth statws ddiweddaraf o Adroddiadau Uchafbwyntiau Prosiectau a ysgrifennwyd gan y Rheolwyr Prosiect, ac a gymeradwywyd gan Swyddog Gweithredol y Prosiect.

Ar hyn o bryd mae dau brosiect ar y gofrestr yn dangos sefyllfa 'dan fygythiad'.

- **Adeiladau'r Frenhines, y Rhyl:** Mae'r statws hyder cyflawni yn dal yn 'dan fygythiad' ar hyn o bryd o ganlyniad i ddiffyg cyllid i gyflawni Cam 1, a swm yr asbestos sydd angen ei waredu cyn y gwaith dymchwel.

- **Cynlluniau Porth Canol Tref Y Rhyl 1 a 2 (123-129 Stryd Fawr a 129-131 Stryd Fawr):** Mae'r prosiect yn wynebu rhwystrau oherwydd bod y tendrau a dderbyniwyd yn uwch na chyllideb y cleient.

Ar hyn o bryd mae pum prosiect ar y gofrestr yn dangos sefyllfa 'mewn risg':

- **Cynllun Dechrau Gweithio Sir Ddinbych:** Dydi'r model sydd wedi'i sefydlu ar gyfer darparu'r prosiect hwn yn methu gweithredu o dan gyfyngiadau Covid-19. Mae adolygiad wedi penderfynu ar yr hyn y gobeithiwn fydd yn fodel darparu mwy cynaliadwy ar gyfer y cynllun *Working Start*, gan adeiladu ar y cynllun presennol ac ychwanegu gwerth i gyfranogwyr a'r cyngor.
- **Gwella Effeithlonrwydd Ynni yn Nhau'r Cyngor:** Mae'r pandemig wedi cael effaith ar amserlen waith y prosiect hwn. Mae'r cyngor hefyd yn edrych am eglurhad gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r targedau Cymru gyfan ar gyfer datgarboneiddio, a fydd o bosib yn cynyddu'r trothwyon Tystysgrif Perfformiad Ynni angenrheidiol ar gyfer ein tai. Bydd unrhyw gynnydd sy'n uwch na'n huchelgais bresennol yn dylanwadu ar y math a chostau'r gwelliannau.
- **Marchnata:** Mae hyder darparu yn isel iawn ar gyfer y rhan fwyaf o weithredoedd ar gyfer y prosiect ar hyn o bryd oherwydd y feirws. Fodd bynnag, mae gwaith wedi parhau ar ddrafftio'r polisi marchnata wrth i weithgaredd busnes fel arfer dod yn fwy posib i'r rheolwr prosiect.
- **Ailfodelu Gweithredoedd Gwasanaeth Gwastraff:** Mae darparu Depo newydd wedi cael ei ohirio oherwydd nifer o heriau, yn cynnwys cynnydd gyda'r dyluniad manwl oherwydd effaith Covid-19, a'r oedi gyda chwblhau'r broses o brynu'r safle ac oherwydd hynny wedi cyfyngu ar y gallu i symud ymlaen gyda'r gwaith gwasanaethau (eto wedi'i arafu oherwydd Covid-19). Yn ogystal, mae cymhlethdodau o gydweithio gyda phedwar busnes i wneud cynnydd mewn modd cydlynol trwy bryniant tir, dyluniad a chynllunio wedi bod yn heriol ac wedi creu llwyth gwaith sylweddol.

- **Prosiect Archifau ar y cyd Sir Ddinbych a Sir y Fflint:** Mae Covid-19 wedi, ac yn parhau i gael effaith ar y prosiect hwn yn uniongyrchol o ran llinell amser a phroblemau, ond hefyd yn anuniongyrchol o ran y dirwedd ariannol a gwleidyddol lle mae cais yn cael ei wneud am arian cyfatebol i Gyngor Sir Ddinbych ym mis Tachwedd.

Rheoli Risg

Mae Cofrestr Risg Corfforaethol y cyngor (Atodiad II) yn ein galluogi i reoli'r tebygolrwydd ac effaith risgiau sylweddol i'n busnes a'n gwasanaethau. Mae'n gwerthuso effaith unrhyw gamau cyfredol yr ydym yn eu cymryd, ac yn amlygu meysydd ble ellid bod angen rheolaeth dynnach. Mae'r gofrestr yn cael ei datblygu a'i pherchnogi gan yr Uwch Dîm Arwain (SLT) a'r Cabinet, ac mae'n cael ei hadolygu yn ffurfiol ddwy waith y flwyddyn. Ond, gall adolygiadau anffurfiol ddigwydd ar unrhyw adeg fel bo'r angen. Rydym hefyd yn rholi cofrestrau risg ar gyfer ein rhaglenni, prosiectau a gwasanaethau ein Cynllun Corfforaethol.

Yn ystod y flwyddyn, nid oeddem yn rhagweld unrhyw risgiau anrhagweladwy ac ni ddatblygodd unrhyw un o'n risgiau i fod yn broblem niweidiol. Mewn gwirionedd mae'r risg oedd yn ymwneud â gallu'r cyngor i ymateb i achosion brys o'r fath megis digwyddiad iechyd cyhoeddus (h.y. Covid-19) wedi dal ei dir yn ystod y firws wrth i ni barhau i gynnal gwasanaethau statudol, a mwy wrth i ni ymateb i'r argyfwng er budd i'n trigolion. Mae'r firws hefyd wrth gwrs wedi cynyddu'r tebygolrwydd y bydd risgiau eraill yn codi, yn benodol y risg o gwmp yn yr economi a chynnydd mewn atebolrwydd ariannol. Mae ein adolygiad diweddaraf o Risgiau Corfforaethol (Medi 2020) yn adlewyrchu'r pwysau cynyddol yma.

Crëwyd tri risg newydd eleni:

- Y risg nad oes gan y cyngor yr arian na'r adnoddau i fodloni ei rwymedigaethau statudol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.
- Y risg y bydd Clefyd Coedd Ynn (ADB) yn Sir Ddinbych yn arwain at broblemau iechyd a diogelwch sylweddol sydd yn cynrychioli risg posibl i fywydau.

- Y risg na fydd y cyngor yn gallu cyflawni agenda'r Cyngor a sefydliadau allanol gyda'r adnoddau presennol.

Yn ein hadolygiad Chwefror 2020 bu i ni addasu ein dull o liniaru dau o'n risgiau:

- Y risg na fydd partneriaethau effeithiol a rhyngwynebau rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB) a Chyngor Sir Ddinbych yn datblygu, a hynny yn arwain at gamalnio sylweddol rhwng cyfeiriadau strategol a gweithredol y ddau sefydliad. Mae'r tebygolrwydd y bydd y risg yma yn digwydd wedi cael ei liniaru drwy gwblhau ein safle Adnoddau Cymunedol Dinbych, a cynlluniau ar gyfer safle arall ym Mhrestatyn.
- Y risg hyd yn oed os na fydd setliad ariannol LIC fel y disgwylir, na fydd y penderfyniadau sydd yn angenrheidiol er mwyn arenwi a chyflawni'r rhaglen arbedion a galluogi cyllideb gytbwys yn cael eu gweithredu yn ddigon cyflym. Fel ymateb i'r risg yma, cytunwyd y byddai'r cyngor yn adolygu ei broses Grŵp Buddsoddi Strategol (SIG).

Ym Medi 2019 bu i ni gyflwyno ymagwedd newydd barodrwydd i dderbyn risg, oedd yn gam naturiol i'r cyngor er mwyn aeddfedu ei ffordd o gymhwyso prosesu rheoli risg. Ar ddiwedd ei flwyddyn gyntaf bu i ni dderbyn ein datganiad parodrwydd i dderbyn risg cyntaf, ac yn dilyn hynny rydym wedi gwneud rhai gwelliannau, yn cynnwys ychwanegu camau diogelu fel ei ddsbarth parodrwydd ei hun, a thrwy gydymffurfio â chanllawiau mynediad ac ymateb i adborth gan staff, rydym wedi gwneud i'r meini prawf parodrwydd, y sgorio a'r esgoli yn fwy eglur ac yn haws eu cymhwyso. Gallwch ddarllen mwy am ein polisi reoli risg a pharodrwydd i dderbyn risg yn ein gwefan.

Rheoleiddwyr Allanol

Mae gwaith holl gynghorau Cymru yn destun craffu gan reoleiddwyr allanol er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio arian cyhoeddus yn effeithiol ac effeithlon er mwyn creu budd i'n cymunedau. Yn benodol i Gyngor Sir Ddinbych, cyhoeddwyd saith adroddiad gan ein rheoleiddwyr yn ystod 2019 i 2020:

[Archwiliad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Strategaeth Reoli Risg Llifogydd Lleol](#)

Mae'r cyngor yn cymryd camau addawol er mwyn gweithredu yn unol â'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy wrth gymryd camau i leihau'r risg o lifogydd, ond mae angen iddo ystyried y camau nesaf er mwyn cofleidio mwy ar egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Adroddiad Gwelliannau Blynyddol:2018 i 2019

Yn seiliedig ar, ac yn gyfyngedig i'r gwaith a wnaed gan Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn credu bod y cyngor yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliannau parhaus, ond fel yn achos pob cyngor yng Nghymru, mae'n wynebu heriau i'r dyfodol.

Cyflawni gyda Llai: Gwasanaethau Hamdden

Mae buddsoddiad parhaus y cyngor mewn cyfleusterau hamdden wedi sicrhau lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid da, ond roedd camau hwyrach o'i drefniadau oedd fel arall yn effeithiol o ran ystyried modelau cyflawni eraill wedi cael eu rhuthro, a hynny yn effeithio ar lywodraethiant.

Adolygiad o Drefniadau Corfforaethol ar gyfer Diogelu

Mae gan y cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer diogelu, ond mae angen iddo wella adroddiadau monitro a pherfformiad.

Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol

At ei gilydd canfu Archwilio Cymru bod y cyngor mewn sefyllfa ariannol gymharol gref, ond mae angen iddo gryfhau ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a rheoli peth gorwariant ar wasanaethau er mwyn cefnogi cynaliadwyedd ariannol i'r dyfodol.

Archwilio Gwasanaethau Oedolion Hŷn

Yn ystod Awst 2019 cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru adolygiad ar y cyd er mwyn archwilio i ba raddau yr oedd y cyngor yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn atal esgoli anghenion ar gyfer oedolion hŷn. Mae ein cryfderau a'n gwendidau yn erbyn egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn cael eu cyhoeddi yn yr adroddiad yma.

Llythyr Adolygiad o Berfformiad Blynyddol yr Awdurdod Lleol 2019 i 2020

Mae'r llythyr blynyddol yma gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn darparu crynodeb o gryfderau a gwendidau y cyngor yn erbyn rhoi egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ar waith.

Nid oedd yna unrhyw adroddiadau lleol eraill oedd yn cynnwys argymhellion i'r cyngor, a gyhoeddwyd gan WAO, Estyn neu Arolygiaeth Gofal Cymru yn 2019 i 2020.

Casgliadau Data Cenedlaethol

Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus 2019 i 2020

Penderfynodd LIC a data Cymru yn ystod cyfnod cynnar y pandemig i ohirio casglu Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAMS) yn genedlaethol er mwyn caniatáu i Awdurdodau Lleol ganolbwyntio'n well ar ymateb i'r pandemig/ Ar hyn o bryd nid yw'n glir beth fydd y broses ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Cod Ymarfer: Perfformiad a Gwelliant Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru

Daeth y Cod Ymarfer mewn perthynas â Pherfformiad a Gwelliant Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru i rym ym Mawrth 2020. Eto, oherwydd heriau na welwyd eu tebyg sydd yn wynebu awdurdodau lleol, penderfynwyd na fyddai unrhyw ofyniad i gyflwyno data ar gyfer 2019 i 2020. Hefyd, gan dderbyn maint yr amharu a achoswyd, fydd yn effeithio ar ddata 2020 i 2021, ni ddisgwylir y bydd yn ofynnol cyflwyno data ar gyfer y blynyddoedd hynny chwaith.

Atodiad 1: Cofrestr Prosiect (Awst 2020)

Enw'r Prosiect	Hyder Cyflawni
Bwsariaeth Cyflogaeth Pobl Ifanc	Profi rhwystrau
Barod i Weithio Sir Ddinbych yn Gweithio	Profi rhwystrau
Cynllun Dechrau Gweithio Sir Ddinbych	Wynebu risg
Darparu gofod cydweithio ar gyfer mentrau newydd yn hen adeilad Costigans	Ar darged
TechZone / ParthDechnoleg: Lleoliad Symud Ymlaen i'r Sector Twf	Profi rhwystrau
Tai Gofal Ychwanegol Dinbych	Profi rhwystrau
Amddiffynfa Glannau Dwyrain Y Rhyl	Ar darged
Adeilad newydd - Ysgol Gatholig Crist y Gair 3016 yn Y Rhyl	Profi rhwystrau
Adolygiad Rhuthun - Ysgol Newydd ar gyfer Llanfair DC	Ar darged

Enw'r Prosiect	Hyder Cyflawni
Tai Gofal Ychwanegol Rhuthun (Cyfnod 2)	Profi rhwystrau
Prosiect PLANT: Plannu coed trefol	Ar darged
Gwella bioamrywiaeth yn Sir Ddinbych	Profi rhwystrau
Monitro a chefnogi agweddau cadarnhaol disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol:	Ar darged
Datblygiadau Tai cyngor ychwanegol	Profi rhwystrau
Targedu'r rhai sydd yn fwyaf tebygol o gael eu hallgau yn ddigidol fel bod ganddynt y sgiliau a'r gallu i ddefnyddio gwasanaethau digidol	Ar darged
Cefnogi Rhieni yn Sir Ddinbych	Profi rhwystrau
Pobl yn cyfranogi at siapio a gwella gwasanaethau	Profi rhwystrau
Gweithio gyda RSL a'r sector preifat er mwyn darparu cartrefi fforddiadwy ychwanegol	Ar darged

Enw'r Prosiect	Hyder Cyflawni
500 o dai gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto	Ar darged
Cefnogi Gofalwyr yn Sir Ddinbych	Profi rhwystrau
Sicrhau bod band Eang Cyflyn lawn a Rhwydweithiau Symudol ar gael i bawb	Ar darged
Gwella seilwaith er mwyn ei gwneud yn haws i gynnal digwyddiadau	Profi rhwystrau
Sicrhau bod Gwybodaeth a Gwasanaethau'r Cyngor yn Hygyrch Ar-lein	Profi rhwystrau
Gwella effeithlonrwydd ynni mewn tai cyngor	Wynebu risg
Tirau Adnoddau Cymunedol	Ar darged
Cynllunio Cymunedol- Ffermydd Gwynt	Profi rhwystrau
Hyb Buddion i'r Gymuned	Ar darged
Iechyd a Lles - Maeth a Sgiliau Coginio	Ar darged

Enw'r Prosiect	Hyder Cyflawni
Cynnal, gwella, amddiffyn a gwarchod asedau byw Sir Ddinbych ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol	Ar darged
Gweithio ar fod yn Gyngor Dementia Gyfeillgar	Ar darged
Datblygu opsiynau er mwyn lleihau'r defnydd o blastigau yng Nghyngor Sir Ddinbych (Cam 1 a Cham 2)	Profi rhwystrau
Prosiect Rheoli corstiroedd ac atal tannau gwyllt	Ar darged
Gweithredu i leihau cam-drin domestig	Ar darged
Marchnata	Wynebu risg
Ailfodelu gweithgareddau gwasanaeth gwastraff	Wynebu risg
Adolygiad o Wasanaethau Cymorth Corfforaethol	Profi rhwystrau
Gweithredu ADMC	Ar darged
Adeiladau'r Frenhines- y Rhyl	Dan fygythiad

Enw'r Prosiect	Hyder Cyflawni
Strategaeth Tir y Cyhoedd Y Rhyl	Profi rhwystrau
Cynlluniau Porth Canol Tref Y Rhyl 1 a 2 (123-129 Stryd Fawr a 129-131 Stryd Fawr	Dan fygythiad
Rheoli Cymdogaeth Gorllewin Y Rhyl	Ar darged
Gorfodaeth Ffocysedig Canol Tref y Rhyl	Profi rhwystrau
Stryd Edward Henry	Ar darged
Prosiect Thema Adnewyddu Tai	Ar darged
Modelu a dylunio traffig a gwaith gwella traffig	Profi rhwystrau
Swyddfa Post Fictoraidd	Ar darged
Prosiect Ystafell Bost Ganolog	Profi rhwystrau
Masnacheiddio y Biwro Cofnodion Digidol	Profi rhwystrau

Enw'r Prosiect	Hyder Cyflawni
Prosiect Archif ar y Cyd Sir Ddinbych a Sir y Fflint	Wynebu risg
CRM	Profi rhwystrau
Strategaeth Sir Ddinbych yn Gweithio	Ar darged
Canolfan yr Iaith Gymraeg	Profi rhwystrau
Estyniad i Ganolfan Coeden Dderw	Profi rhwystrau
Cyfleuster Gofal Plant Ysgol Twm o'r Nant	Dim
MIS Rhanbarthol Capita	Profi rhwystrau
Credyd Cynhwysol yn Sir Ddinbych	Ar darged
Hen Ysbyty Gogledd Cymru	Profi rhwystrau

Atodiad 2: Cofrestr Risg Corfforaethol (Medi 2020)

Disgrifiad o'r Risg	Risg Cynhenid	Risg Gweddilliol
Y risg o gamgymeriad diogelu difrifol pan fo'r cyngor yn gyfrifol, a hynny yn arwain at niwed difrifol neu farwolaeth	B2 Risg Critigol, Tebygol / Effaith Fawr	D2 Risg Sylweddol, Annhebygol / Effaith Fawr
Y risg bod yr amgylchedd economaidd ac ariannol yn gwaethygu y tu hwnt i ddisgwyliadau presennol, a hynny yn arwain at alw ar wasanaethau ac yn lleihau incwm	B1 Risg Critigol, Tebygol / Effaith Fawr lawn	B2 Risg Critigol, Tebygol / Effaith Fawr
Risg o ymateb aneffeithiol i ddigwyddiad difrifol, megis tywydd difrifol, halogiad, diogelwch y cyhoedd (yn cynnwys ymosodiad seiber) neu ddigwyddiad iechyd cyhoeddus (megis Covid-19).	A2 Risg Critigol: Bron yn Sicr / Effaith Fawr	C3 Risg cymedrol: Posibl / Effaith Gymedrol
Risg o adroddiadau negyddol arwyddocaol gan reoleiddwyr allanol	C2 Risg Sylweddol, Posibl / Effaith Fawr	D3 Risg Cymedrol, Annhebygol / Effaith Gymedrol
Risg o atebolrwydd sylweddol yn deillio o fodolau amgen o ddarparu gwasanaethau	B2 Risg Critigol, Tebygol / Effaith Fawr	C2 Risg Sylweddol, Posibl / Effaith Fawr

Disgrifiad o'r Risg	Risg Cynhenid	Risg Gweddilliol
Risg o ddigwyddiad iechyd a diogelwch yn arwain at anaf difrifol neu golli bywyd. (Pan gyfeirir at lechyd a diogelwch, mae hynny yn cynnwys diogelwch tân)	C2 Risg Sylweddol, Posibl / Effaith Fawr	E2 Risg Cymedrol, Prin / Effaith Fawr
Risg y bydd effaith diwygio Lles (Credyd Cynhwysol) yn fwy sylweddol nag oedd y cyngor yn ei ddisgwyl	B2 Risg Critigol, Tebygol / Effaith Fawr	D3 Risg Cymedrol, Annhebygol / Effaith Gymedrol
Risg nad yw buddion rhaglenni a phrosiectau yn cael eu gwireddu'n llawn	B2 Risg Critigol, Tebygol / Effaith Fawr	D2 Risg Sylweddol, Annhebygol / Effaith Fawr
Y risg na fydd partneriaethau effeithiol a rhyngwynebau rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB) a Chyngor Sir Ddinbych yn datblygu, a hynny yn arwain at gamalnio sylweddol rhwng cyfeiriadau strategol a gweithredol y ddau sefydliad.	A1 Risg Critigol, Bron yn Sicr / Effaith Fawr lawn	C2 Risg Sylweddol, Posibl / Effaith Fawr
Y risg hyd yn oed os bydd setliad LIC fel y disgwylir, na fydd y penderfyniadau sydd yn angenrheidiol er mwyn arenwi a chyflawni'r rhaglen arbedion a galluogi cyllideb gytbwys yn cael eu gweithredu yn ddigon cyflym	B1 Risg Critigol, Tebygol / Effaith Fawr lawn	C2 Risg Sylweddol, Posibl / Effaith Fawr

Disgrifiad o'r Risg	Risg Cynhenid	Risg Gweddilliol
Y risg na fydd y capasiti a'r sgiliau priodol i gynnal gwasanaethau a pherfformiad corfforaethol ar gael	C3 Risg Cymedrol, Posibl / Effaith Gymedrol	D3 Risg Cymedrol, Annhebygol / Effaith Gymedrol
Y risg o dwyll a llygredigaeth yn arwain at golledion ariannol a cholli enw da a hynny o bosibl yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau	C2 Risg Sylweddol, Posibl / Effaith Fawr	E2 Risg Cymedrol, Prin / Effaith Fawr
Y risg bod cost gofal yn uwch nag adnoddau'r cyngor	B1 Risg Critigol, Tebygol / Effaith Fawr lawn	C2 Risg Sylweddol, Posibl / Effaith Fawr
Y risg na ellir bodloni'r galw am ofal arbenigol yn lleol	B2 Risg Critigol, Tebygol / Effaith Fawr	C2 Risg Sylweddol, Posibl / Effaith Fawr
Y risg y bydd yr adenillon ar fuddsoddiadau y mae Sir Ddinbych yn ei dderbyn gan y Fargen Twf Rhanbarthol yn anghymesur	C2 Risg Sylweddol, Posibl / Effaith Fawr	C2 Risg Sylweddol, Posibl / Effaith Fawr

Disgrifiad o'r Risg	Risg Cynhenid	Risg Gweddilliol
Y risg na all y cyngor liniaru unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd	B1 Risg Critigol, Tebygol / Effaith Fawr iawn	B1 Risg Critigol, Tebygol / Effaith Fawr iawn
Y risg nad oes gan bartneriaid yr adnoddau, blaenoriaethau cyfatebol neu ymrwymiad i gefnogi darparu cynlluniau a blaenoriaethau a rennir	B1 Risg Critigol, Tebygol / Effaith Fawr iawn	C2 Risg Sylweddol, Posibl / Effaith Fawr
Y risg bod gan y cyngor ddim y cronfeydd neu'r adnoddau i gwrdd â'i oblygiadau statudol o dan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018	B2 – Risg critigol: Tebygol / Hynod Debygol	D3 – Risg Cymedrol: Annhebygol / effaith canolig
Y risg o Glefyd Coed Ynn (ADB) yn Sir Ddinbych yn arwain at achosion iechyd a diogelwch sylweddol sydd yn cynrychioli risg posib i fywyd	A1 – Risg Critigol: Bron yn bendant / effaith uchel iawn	A2 – Risg Critigol: Bron yn bendant / effaith uchel iawn
Risg bod y cyngor methu cyflawni rhaglen y Cyngor a sefydliadau allanol o fewn yr adnoddau presennol	A3 – Risg Sylweddol: Bron yn Bendant / Effaith Canolig	C4 – Risg Cymedrol: Posib / Effaith Isel

Disgrifiad o'r Risg	Risg Cynhenid	Risg Gweddilliol
Methiant i symud ymlaen i fabwysiadu'r cynllun sy'n cymryd lle'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)	A2 – Risg Critigol: Bron yn bendant / effaith uchel	A2 – Risg Critigol: Bron yn bendant / effaith uchel